Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024

Memorandwm Esboniadol

gan ymgorffori'r
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r
Nodiadau Esboniadol

Chwefror 2024

Tudalen gynnwys

RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL 4

1. Disgrifiad 4

2. Cymhwysedd Deddfwriaethol 5

3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael 6

Cefndir Polisi Cyffredinol 6

Targedau Cenedlaethol 14

Hyrwyddo Ymwybyddiaeth o Lygredd Aer 24

Y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol 30

Rheoliadau Ansawdd Aer 36

Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol 39

Rheoli Mwg 45

Allyriadau Cerbydau: Cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd 52

Allyriadau Cerbydau: Trosedd Segura Llonydd – Hysbysiadau Cosb Benodedig 58

Strategaeth Seinweddau Genedlaethol, Mapiau Sŵn, Strategol a Chynlluniau Gweithredu ar Sŵn 64

4. Ymgynghori 69

5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth 76

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL 90

6. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) 90

7. Opsiynau, Costau a Manteision 93

Targedau Cenedlaethol 94

Hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer 106

Adolygu a Chyhoeddi Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol i Gymru 111

Rheoliadau Ansawdd Aer 116

Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol 121

Rheoli Mwg 131

Allyriadau o Gerbydau: Cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd 143

Allyriadau o Gerbydau: Trosedd Segura Llonydd 156

Adolygu a chyhoeddi Cynllun Sŵn a Seinwedd ar gyfer Cymru 167

8. Asesiadau Effaith 178

9. Adolygiad ôl-weithredol 187

Atodiad 1 - Nodiadau Esboniadol 190
Atodiad 2 - Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog 191
Atodiad 3 - Tabl Tarddiadau 195
Atodiad 4 - Atodlen o ddiwygiadau 197
Deddf yr Amgylchedd 1995 197
Deddf Aer Glân 1993 221
Deddf Trafnidiaeth 2000 249
Deddf yr Amgylchedd 2021 259
Atodiad 5 - Geirfa 267

RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

1. Disgrifiad

1.1. Mae'r Ddeddf yn gam allweddol i gyflawni ein nod i wella ansawdd aer a lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd dynol, bioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol a'n heconomi.

1.2. Bydd y Ddeddf yn hwyluso gwelliannau yn ansawdd ein hamgylchedd aer ar lefel Cymru gyfan, ar lefel leol ac ar lefel ranbarthol a thrwy'r gymdeithas.

1.3. Bydd hefyd yn cyfrannu at ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, ochr yn ochr â'n hymdrechion i leihau anghydraddoldebau.

1.4. Mae'r Ddeddf yn cynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol a fydd yn symleiddio, yn cryfhau ac yn ategu prosesau presennol i'w gwneud yn fwy effeithiol a hygyrch.

1.5. Yn gryno, bydd y Ddeddf:

- yn darparu fframwaith ar gyfer gosod targedau ansawdd aer cenedlaethol;
- yn diwygio deddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â'r canlynol:
    - y strategaeth ansawdd aer genedlaethol,
    - rheoli ansawdd aer yn lleol,
    - rheoli mwg,
    - parthau aer glân/parthau allyriadau isel, a
    - segura cerbyd;
- yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer; ac
- yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth seinweddau genedlaethol.

2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

2.1. Mae gan Senedd Cymru (“y Senedd”) y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn Neddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2023 (“y Ddeddf”) yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

3. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Cefndir Polisi Cyffredinol

Nod y Ddeddf

3.1. Nod cyffredinol y Ddeddf yw cyflwyno mesurau a fydd yn cyfrannu at welliannau yn ansawdd yr amgylchedd aer yng Nghymru a lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd dynol, bioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol a'n heconomi.

3.2. Mae angen gweld y Ddeddf mewn cyd-destun eang, ac nid ar ei phen ei hun. Mae:

- yn rhan hanfodol o becyn o fesurau a nodir yn ein Cynllun Aer Glân i leihau llygredd a gludir yn yr aer a gwella'r amgylchedd aer yng Nghymru;
- yn adeiladu ar gyfres o ddeddfwriaeth bresennol; ac
- yn ategu deddfwriaeth i gyflawni seinweddau priodol fel y'i nodir yng Nghynllun Gweithredu ynghylch Sŵn a Seinwedd 2018-2023.

3.3. Drwy gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, rydym hefyd yn anelu at sicrhau ein bod yn cyfrannu cymaint â phosibl at egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 (Deddf 2015) i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf wedi ei seilio'n gadarn ar y saith nod llesiant yn Neddf 2015. Fel y'i nodir ym Mhennod 8, rydym hefyd wedi ystyried dyletswydd economaidd-gymdeithasol Gweinidogion Cymru, dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddatblygu cynigion y Ddeddf.

Gwella ansawdd aer a seinweddau

3.4. Er mwyn gwella ansawdd ein hamgylchedd aer mae angen inni gymryd mesurau i wella lefelau llygredd aer a bod yn ymwybodol o'n seinwedd.

3.5. Llygredd aer yw presenoldeb halogion yn yr atmosffer, megis nwyon a gronynnau, mewn maint digonol neu am hyd digonol i fod yn niweidiol i iechyd dynol neu iechyd amgylcheddol. Gall allyriadau yn yr aer godi drwy brosesau naturiol neu bethau y mae pobl yn eu gwneud.

3.6. Mae seinwedd weithiau'n cael ei ddefnyddio’n llac i olygu'r holl seiniau y gellir eu clywed ar adeg benodol ac mewn man priodol. Mae ystyr mwy arbenigol iddo hefyd, pan fo'n cyfeirio at sut y mae person neu bobl yn gweld yr amgylchedd sain hwnnw neu sut brofiad y mae neu y

maent yn ei gael o'r amgylchedd sain hwnnw mewn cyd-destun penodol. Mae'r diffiniad hwn, a sefydlwyd mewn safonau Prydeinig a rhyngwladol, yn ddefnyddiol wrth benderfynu ar yr hyn sy'n briodol o dan amgylchiadau penodol a dyma'r hyn rydym yn ei olygu pan fyddwn yn siarad am seinweddau yn nogfennau polisi Llywodraeth Cymru megis Polisi Cynllunio Cymru a Chynllun Gweithredu ynghylch Sŵn a Seinwedd 2018-2023.

3.7. Mae'r Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach yn nodi sut y byddwn yn cydweithio ar draws sectorau ac â'r cyhoedd i roi yn lle bolisi, deddfwriaeth, rheoliadau a buddsoddiad newydd ar sail tystiolaeth i leihau llygredd aer yn unol â'r safonau ansawdd aer rhyngwladol uchaf.

3.8. Fel llywodraeth, rydym wedi cydnabod ers tro nad yw aer glân ar ei ben ei hun yn ddigon i sicrhau amgylchedd aer iach.

3.9. Yng Nghynllun Gweithredu ynghylch Sŵn a Seinwedd 2018-2023, ymrwymodd Gweinidogion Cymru i greu a dilyn unrhyw gyfleoedd i gysoni polisi sŵn/seinwedd ac ansawdd aer ymhellach. Mae'r cynllun hwn yn amlygu y dylid ystyried llygredd aer a sŵn gyda'i gilydd yn hytrach nag fel problemau ar wahân ble bynnag y bônt yn bresennol a hynny o'r un ffynonellau neu ffynonellau tebyg neu gysylltiedig. Mae llygredd aer a sŵn yn llygryddion a gludir yn yr aer, a all gael effaith gyfunol ar iechyd y cyhoedd ac, mewn llawer o sefyllfaoedd, y ffordd orau o fynd i'r afael â nhw yw drwy ddefnyddio atebion a rennir.

3.10. Dangosir enghraifft o ymagwedd cydgysylltiedig at ansawdd sŵn ac aer ym Mholisi Cynllunio Cymru, a gyhoeddwyd yn 2018. Daeth hyn ag ansawdd aer a seinwedd ynghyd mewn un bennod. Mae'r polisi cynllunio integredig hwn wedi arwain at ychwanegu ansawdd aer at y Nodyn Cyngor Technegol 11 diwygiedig, a oedd yn ymdrin â sŵn yn unig o'r blaen.

3.11. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn fwy posibl datblygu cynlluniau a pholisïau mewn modd arloesol a chydweithredol er mwyn cefnogi ein nodau ar gyfer ansawdd aer, sŵn a seinwedd.

3.12. Ni yw'r Llywodraeth gyntaf yn y DU i gyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r llywodraeth ystyried seinweddau.

Cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddeddfu

3.13. Pwysleisiodd ein Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2021 i 2026 ein hymrwymiad i gyflwyno Deddf Aer Glân i Gymru, sy'n gyson â chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ac i ehangu'r ddarpariaeth o fonitro ansawdd aer. Bydd hyn yn cynnwys ystyried yr wybodaeth wyddonol ddiweddaraf, gan gynnwys y lefelau yn ôl canllawiau diweddaraf WHO, ochr yn ochr â chymryd cyngor arbenigol annibynnol, er mwyn llywio datblygiad targedau newydd o ran ansawdd aer.

3.14. Ar 5 Gorffennaf 2022, gwnaeth Prif Weinidog Cymru ei ddatganiad deddfwriaethol ar gyfer blwyddyn dau tymor y Senedd hon. Yn y datganiad hwnnw tanlinellwyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu Cymru decach, gryfach, wyrddach a nodwyd y bwriad i gyflwyno nifer o Filiau sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd. Datganodd y Prif Weinidog y byddai Bil Aer Glân yn cael ei gyflwyno i ddatblygu'r gwaith sydd eisoes ar y gweill i leihau allyriadau a sicrhau gwelliannau hanfodol yn ansawdd yr aer, gan gefnogi cymunedau iachach ac amgylcheddau gwell. Mae'r Ddeddf yn bodloni'r ymrwymiad hwn.

Pam mae angen y Ddeddf?

Gwella Iechyd

3.15. Mae WHO wedi disgrifio llygredd aer fel risg iechyd amgylcheddol fwyaf y byd. Yn ogystal, gall ansawdd aer gwael gael effaith andwyol ar fywyd gwyllt drwy newidiadau eang i ddosbarthiad rhywogaeth ac ansawdd cynefinoedd.

3.16. Mae llygryddion megis deunydd gronynnol mân ($PM_{2.5}$) a nitrogen deuocsid (NO_2) yn achosi rhai problemau iechyd a gallant waethygu rhai eraill. Gall anadlu'r llygryddion hyn i mewn dros sawl blwyddyn gynyddu risgiau iechyd fel clefydau'r galon a'r ysgyfaint, a chanser yr ysgyfaint. Hefyd, mae tystiolaeth y gellir effeithio ar organau eraill hefyd, ac effeithiau posibl ar ddementia, pwysau geni isel a diabetes. Gall symptomau sy'n codi o gysylltiad tymor byrrach gynnwys llid y llygaid, y trwyn a'r gwddf.

3.17. Mae effeithiau llygredd aer ar iechyd yn dibynnu ar faint o gysylltiad y mae pobl yn ei gael ag ef ac am ba mor hir. Mae llygredd aer yn effeithio ar bobl mewn ffyrdd gwahanol a'r risgiau a'r effeithiau yn newid dros oes. Mae'n fwy tebygol yr effeithir ar rai pobl, megis plant, pobl hŷn a'r rheini sydd â phroblemau calon neu ysgyfaint. Yn benodol, gall plant ddioddef o ddatblygiad ysgyfaint gwael a symptomau asthma oherwydd cysylltiad â llygredd aer.

3.18. Gall pobl sy'n byw neu'n gweithio mewn mannau lle mae'r llygredd yn wael neu sy'n teithio'n rheolaidd mewn ardaloedd llygredig neu drwyddynt (megis canol dinasoedd) wynebu mwy o broblemau sy'n

gysylltiedig ag iechyd. Mae pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig hefyd yn fwy tebygol o gael eu niweidio gan gysylltiad â llygredd aer oherwydd bod amddifadedd a dylanwadau gwael ar iechyd ar y cyd yn gallu gwneud pobl yn llai galluog i ymdopi â chysylltiad â llygredd aer neu i ymaddasu ag ef, gall risgiau ac effeithiau fod yn waeth o'u cymharu ag mewn mannau eraill.

3.19. Mae amcangyfrif effaith llygredd aer ar iechyd yn anodd. Mae'r Adroddiad ar Beryglon Cemegol a Gwenwynau, Mehefin 2022, yn cynnwys papur ar “Updated Mortality burden estimates attributable to air pollution”. Roedd hwn yn amcangyfrif bod ystod y baich marwolaethau yn sgil aer gwael yn cyfateb i rhwng 29,000 a 43,000 o farwolaethau bob blwyddyn yn y DU. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod y baich marwolaethau o gysylltiad hirdymor â llygredd aer yn cyfateb i 1,000 i 1,400 o farwolaethau (ar oedrannau tebygol) bob blwyddyn yng Nghymru.

Effeithiau economaidd

3.20. Mae costau cymdeithasol difrifol yn gysylltiedig â llygredd aer ac mae hefyd yn gallu effeithio'n andwyol ar dwf economaidd, drwy ei effaith ar yr iechyd, ac felly ar gynhyrchiant pobl oedran gweithio. Mae effeithiau canlyniadol i'r economi drwy amser yn absennol o'r gwaith a chostau i'r gwasanaeth iechyd. Mae Iechyd Cyhoeddus Lloegr wedi amcangyfrif mai cyfanswm cost llygryddion aer (mân ddeunydd gronynnol a nitrogen deuocsid), lle mae tystiolaeth fwy cadarn dros gysylltiad, i’r GIG a’r system gofal cymdeithasol, rhwng 2017 a 2025, yn Lloegr, fydd £1.6 biliwn.

Gwarchod natur

3.21. Mae llygredd aer yn cyfrannu at asideiddio pridd a dŵr wyneb ac ewtroffigedd mewn cynefinoedd sensitif, ac mae'n difrodi llystyfiant drwy gysylltiad â'r osôn. Mae rheoli allyriadau wedi arwain at welliannau mewn ansawdd aer yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

3.22. Gall ansawdd aer gwael hefyd gael effaith andwyol ar fywyd gwyllt drwy newidiadau eang i ddosbarthiad rhywogaeth ac ansawdd cynefinoedd yn y DU ac mae'n bygwth Statws Cadwraeth llawer o gynefinoedd a restrir o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

3.23. Mae ein Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach yn disgrifio'r gyfres o gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â llygredd aer ar draws y gymdeithas. Fodd bynnag, mae angen inni newid a diweddaru deddfwriaeth bresennol gan nad yw'n caniatáu inni gyflawni ein huchelgais llawn a nodir yn y Cynllun.

Llygredd sŵn a seinweddau

3.24. Nid yw sain a gludir yn yr aer yn amhurdeb sylwedd, ond mae'n arosodiad tonnau pwysau a all effeithio ar lesiant pobl, yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn ymwybodol ac yn isymwybodol. Mae WHO wedi nodi mai sŵn, sef sain ddiangen neu niweidiol, yw'r ail ffactor amgylcheddol mwyaf sy'n cyfrannu at afiechyd yng Ngorllewin Ewrop ar ôl llygredd aer.

3.25. Gall sŵn amharu ar gwsg a chynyddu lefelau straen, dicter a blinder, yn ogystal â tharfu ar weithgareddau pwysig megis dysgu, gweithio ac ymlacio. Mewn geiriau eraill, mae'n gwaethygu ansawdd ein bywydau. Gall clywed seiniau uchel achosi niwed i'r clyw, tra gall clywed sŵn dros amser hir gynyddu'r risg o gael clefydau sy'n gysylltiedig â phwysedd gwaed uchel a chlefyd cardiofasgwlaidd.

3.26. Yn 2017, awgrymodd ein mapiau sŵn fod mwy na 200,000 o bobl ar draws Cymru yn clywed lefelau sŵn traffig ffyrdd sy'n uwch na Chanllawiau 2009 WHO ar sŵn yn ystod y nos (Saesneg yn unig). Mae'n llai hawdd mapio'n genedlaethol lefelau sŵn y tun mewn i eiddo a sŵn sy'n deillio o ffynonellau eraill megis cymdogion a busnesau na sŵn trafnidiaeth. Fodd bynnag, yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae sŵn y tu allan i'w cartrefi yn poeni tua chwarter y bobl yng Nghymru yn rheolaidd. Mae pobl yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig (yn nhermau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) yn ddwywaith mor debygol o ddweud bod sŵn yn eu poeni yn rheolaidd na phobl sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd lleiaf difreintiedig.

3.27. Mae costau cymdeithasol i lygredd aer a sŵn, drwy eu heffaith ar iechyd a chynhyrchiant pobl oedran gweithio, ac addysg plant, sy'n arwain at risgiau effeithiau andwyol ar dwf economaidd.

Ansawdd aer a newid hinsawdd - cefnogi camau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd

3.28. Mae'r darpariaethau yn y Ddeddf wedi eu hanelu at fynd i'r afael â llygredd aer a gwella'r amgylchedd aer yng Nghymru. Y ffactor pwysicaf ar gyfer ansawdd aer yw'r crynodiad llygryddion ger wyneb y ddaear. Y rhain yw'r llygryddion y mae pobl yn eu hanadlu i mewn, gan arwain yn aml at effeithiau andwyol ar iechyd. Mae nwyon tŷ gwydr sy'n cyfrannu at newid hinsawdd ar eu mwyaf actif yn uchel yn yr atmosffer.

3.29. Mae newid hinsawdd yn fygythiad parhaus cenedlaethol a byd-eang i'n hiechyd, ein heconomi, ein seilwaith a'n hamgylchedd naturiol. I gydnabod hyn, ym mis Ebrill 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd yng Nghymru.

3.30. Gall llygryddion aer gael effaith oeri neu gynhesu ar yr atmosffer. Gall llygryddion aer hefyd effeithio ar grynodiadau nwyon tŷ gwydr. I'r

gwrthwyneb, gall newidiadau yn yr hinsawdd effeithio ar ansawdd aer. Er enghraifft, gall hafau poeth arwain at amlder uwch o gyfnodau llygredd haf, megis mwrllwch. Mae llygredd aer yn aml yn tarddu o'r un ffynonellau sy'n cyfrannu at newid hinsawdd (e.e. cerbydau, adeiladau, hylosgi domestig, cynhyrchu pŵer, amaethyddiaeth a diwydiant). Felly, mae cysylltiadau clir rhwng gweithrediadau a thechnolegau sydd wedi eu cynllunio i leihau allyriadau o'r naill neu'r llall ohonynt neu'r ddau ohonynt.

3.31. Er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd a llygredd aer, mae angen cydweithredu ar draws y gymdeithas a sectorau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i chwarae rhan ganolog i wneud hyn yn bosibl, gan sicrhau twf amgylcheddol i Gymru.

3.32. Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar fesurau i leihau llygredd a gludir yn yr aer a gwella'r amgylchedd aer. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y cyfleoedd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwella ansawdd aer a, lle mae tyndra yn bodoli, yr angen i ddefnyddio dull cytbwys i gefnogi twf glân. Mae integreiddio ystyriaethau ansawdd aer a newid hinsawdd ym mholisïau'r llywodraeth yn enghraifft dda o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno mesurau sy'n cyd-fynd ar lefel strategol ac ar lefel leol i wella'r amgylchedd yng Nghymru.

Ymyriadau deddfwriaethol presennol

3.33. Hyd yma, cyfarwyddebau Ewropeaidd, a deddfwriaeth Cymru a'r DU sy'n eu rhagflaenu, sydd wedi ysgogi gwelliannau ansawdd aer cenedlaethol ac ymyriadau sŵn. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth sy'n gosod terfynau ar grynodiadau amgylchynol, gostyngiadau allyriadau llygryddion y DU a chrynodiadau o lygryddion o ffynonellau penodol, megis ceir a diwydiant. O dan ddeddfwriaeth genedlaethol ar wahân, a oedd yn rhagflaenu'r Cyfarwyddebau, mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â phroblemau o ran ansawdd aer ar lefel leol drwy broses Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol.

3.34. Hefyd, mae clytwaith o ddeddfwriaeth sŵn ddomestig sy'n deillio o'r UE, sy'n rhoi mwy o sylw i ardaloedd daearyddol penodol a mathau penodol o sŵn nag i eraill, ac nid oes angen unrhyw strategaeth genedlaethol gyffredinol mewn deddfwriaeth.

3.35. Mae'r fframwaith presennol ar gyfer ansawdd aer a sŵn wedi sicrhau gwelliannau hynod mewn ansawdd aer a sŵn. Fodd bynnag, mae gennym fylchau ar ôl ac mae'r Ddeddf hon yn bwriadu eu llenwi.

Crynodeb o'r Cynigion

3.36. Ar lefel Cymru gyfan, rydym yn cynnwys sawl cam gweithredu:

- Creu fframwaith gosod targedau ar gyfer ansawdd aer (Targedau Cenedlaethol), gan ganiatáu i Weinidogion osod targedau sy'n

benodol i Gymru ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas â llygryddion aer. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion i ystyried targedau presennol yn ogystal â rhoi'r gallu i ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg drwy osod targedau newydd ar gyfer llygryddion wrth i dystiolaeth o niwed godi. Nod hyn yw helpu i ddiogelu iechyd y cyhoedd, natur a'r amgylchedd drwy leihau llygredd aer.

- Rhaid i Weinidogion Cymru roi trefniadau yn eu lle i gasglu data i asesu cynnydd a wneir tuag at dargedau a sicrhau bod y data yn cael eu cyhoeddi. Gall dehongli'r data hynny helpu i asesu'r pwysau a'r risgiau sy'n ymwneud ag ansawdd aer ledled Cymru a'r cynnydd a wneir tuag at gyflawni unrhyw dargedau neu dargedau interim a osodir o dan y fframwaith.

- Mae'n ofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori ar Gynllun Aer Glân i Gymru (y strategaeth ansawdd aer genedlaethol) a Chynllun Sŵn a Seinwedd i Gymru (y strategaeth seinweddau genedlaethol) a chyhoeddi'r fersiynau diweddaraf ohonynt yn dilyn pob un o etholiadau'r Senedd, gan ganiatáu camau gweithredu integredig ar y ddau faes polisi cysylltiedig. Bydd y cynlluniau hyn yn nodi blaenoriaethau polisi a chamau gweithredu i ddiogelu a gwella ansawdd aer a seinwedd yng Nghymru ar gyfer cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Yn ogystal â manteision uniongyrchol i iechyd y cyhoedd, disgwylir i gamau gweithredu cydgysylltiedig yn y meysydd hyn ddarparu manteision pwysig i ansawdd bywyd a byddant yn helpu i ddiogelu natur, ein hinsawdd a'r amgylchedd ehangach.

3.37. Yn lleol ac yn rhanbarthol, rydym yn cynnwys sawl cam gweithredu i:

- Egluro a chryfhau deddfwriaeth Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol i sicrhau bod y gyfundrefn yn gweithredu'n fwy effeithiol.

- Galluogi awdurdodau lleol i reoli allyriadau mwg yn well a gorfodi rheolau yn eu cylch mewn Ardaloedd Rheoli Mwg drwy ddarpariaethau rheoli mwg cryfach.

- Galluogi Gweinidogion Cymru yn well i weithredu Parthau Aer Glân neu Barthau Allyriadau Isel, lle y mae eu hangen. Gall y rhain arwain at welliannau mewn ansawdd aer lleol drwy ysgogi newid ymddygiad, gan gynnwys dechrau defnyddio dulliau teithio glanach a ffyrdd amgen o deithio llesol a all hefyd sicrhau manteision iechyd ehangach.

- Gwella darpariaethau gwrthsegura cerbyd. Yn benodol, byddwn yn cyflwyno pŵer, drwy reoliadau, i Weinidogion Cymru greu ystod o gosbau ariannol mewn perthynas â'r drosedd o adael i injan segura pan fo cerbyd yn llonydd. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl gosod cosbau uwch pan fo'r amgylchiadau yn gofyn am hynny. Er

enghraifft, pan effeithir ar grwpiau hyglwyf neu mewn perthynas â throseddau a ailadroddir.

3.38. Yn ogystal, byddwn yn helpu pobl a sefydliadau i leihau eu cysylltiad â llygredd aer a'u cyfraniad ato drwy gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer, gan gynnwys yr effeithiau ar iechyd a'r amgylchedd a'r camau gweithredu a all helpu i leihau llygredd aer neu i gyfyngu arno.

3.39. Mae'r rhesymeg dros gyflwyno deddfwriaeth a diben meysydd unigol o'r Ddeddf wedi eu nodi'n fanylach isod.

Trosolwg Manwl

Targedau Cenedlaethol

i. Y Cefndir

3.40. Mae ein hawyr yn lanach yn gyffredinol ar unrhyw adeg ers y chwyldro diwydiannol. Mae'r diolch mwyaf am hynny i fesurau rheoli allyriadau llygryddion o bwerdai, diwydiant, gan gynnwys amaethyddiaeth, trafnidiaeth a ffynonellau domestig. Er y gall llygryddion aer fod yn anweladwy yn bennaf erbyn hyn, gall y cysylltiad tymor hwy â nwyon a gronynnau fod yn niweidiol i iechyd dynol a'r amgylchedd naturiol. Cysylltiad â'r lefelau is o lygredd yn yr atmosffer heddiw yw un o heriau mwyaf ar gyfer iechyd y cyhoedd, gan fyrhau bywyd a difrodi ansawdd bywyd llawer.

3.41. Yng Nghymru, amcangyfrifir bod effaith ystod y baich marwolaethau hirdymor y gellir ei briodoli i gysylltiad â llygredd aer yn cyfateb i rhwng 1,000 a 1,400 o farwolaethau. Mae'n achosi clefydau cronig ac acíwt megis asthma, problemau cardiofasgwlaidd a chanser yr ysgyfaint. Mae llygredd aer hefyd yn cael effaith andwyol ar fywyd gwyllt. Mae'n achosi newidiadau eang i ddosbarthiad rhywogaeth ac i ansawdd cynefinoedd yn y DU ac mae'n bygwth Statws Cadwraeth llawer o gynefinoedd a restrir o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

3.42. Mae llygredd aer yn broblem leol, ranbarthol a rhyngwladol a achosir gan allyriad llygryddion sydd, naill ai'n uniongyrchol neu drwy adweithiau cemegol yn yr atmosffer, yn arwain at effeithiau negyddol ar iechyd dynol, ecosystemau a'r economi. Er bod ansawdd aer yng Nghymru yn dda yn gyffredinol, mae angen gwneud mwy i leihau effeithiau niweidiol llygredd aer mewn ardaloedd lle y mae'n dal i fod yn broblem.

3.43. Mae llawer o'r fframwaith presennol ar gyfer polisi ansawdd aer yng Nghymru a ledled y DU yn deillio o bolisïau a deddfwriaeth domestig, Ewropeaidd a rhyngwladol ychwanegol. Er bod ansawdd aer yn fater datganoledig, mae Llywodraeth y DU yn sicrhau bod polisïau cenedlaethol yn bodloni canllawiau a chytundebau rhyngwladol. O dan ddeddfwriaeth genedlaethol ar wahân, a nodir yn Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (Deddf 1995), mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â materion ansawdd aer ar raddfa leol drwy'r broses Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol.

3.44. Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn cyhoeddi canllawiau ar ansawdd aer sy'n ceisio llywio'r broses o bennu safonau ansawdd aer cenedlaethol a darparu sail ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd rhag effeithiau andwyol llygredd aer. Fodd bynnag, canllawiau yw'r rhain, nid safonau, gan eu bod wedi eu seilio'n gyfan gwbl ar gasgliadau gwyddonol am agweddau iechyd cyhoeddus ar lygredd aer. Hefyd,

mae angen i safonau ansawdd aer rheoleiddiol cenedlaethol ystyried dichonoldeb technegol ochr yn ochr â'r goblygiadau economaidd a chymdeithasol ar gyflawni'r lefelau hyn.

3.45. Llygredd aer yw'r risg amgylcheddol fwyaf i iechyd y cyhoedd o hyd. Felly, mae'r Rhaglen Lywodraethu, y Papur Gwyn ar Fil Aer Glân (Cymru) a'n Cynllun Aer Glân i Gymru yn cynnwys ymrwymiadau i gyflwyno Deddf Aer Glân (Cymru) sy'n cynnwys darpariaethau gosod targedau ansawdd aer uchelgeisiol newydd. Bydd targedau newydd yn darparu dull cryf o sicrhau canlyniadau amgylcheddol hirdymor, gan gynnwys helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur presennol.

ii. Pam y mae angen newid?

3.46. Mae tystiolaeth ar effeithiau llygryddion aer yn dod i'r amlwg yn gyson ac felly mae'n bwysig ein bod yn gallu rheoli pwysau a risgiau cysylltiedig yn y tymor hir. Er mwyn ysgogi gweithredu i sicrhau awyr glanach a lleihau effeithiau llygredd aer yng Nghymru, mae'n bwysig ein bod yn gallu gosod y targedau cywir.

3.47. Er ein bod wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE), bydd safonau ansawdd aer presennol, sydd wedi dechrau yng nghyfraith yr UE, yn parhau i gael effaith yng Nghymru, gan ddarparu dilyniant a sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gan Weinidogion Cymru eu dulliau eu hunain o osod targedau.

3.48. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i leihau effeithiau niweidiol ansawdd aer gwael yng Nghymru ac maent eisiau gallu gosod targedau uchelgeisiol, realistig y mae modd eu cyflawni ac sy'n adlewyrchu'r amgylchiadau penodol yng Nghymru. O ganlyniad, rydym yn cynnig cyflwyno fframwaith gosod targedau ansawdd aer a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i dynhau targedau ansawdd aer presennol a chyflwyno targedau hirdymor ar gyfer risgiau llygryddion newydd eu nodi. Caiff y rhain eu seilio ar dystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth newydd wrth iddi ddod i'r amlwg, a'u cefnogi gan broses glir ar gyfer gosod targedau, adrodd arnynt a'u hadolygu.

3.49. Mae'r corff cryfaf o dystiolaeth sy'n cysylltu llygrydd aer â marwolaethau ac effeithiau afiachusrwydd eraill yn cynnwys deunydd gronynnol mân ($PM_{2.5}$) pan ystyrir yn eang fod y cysylltiadau a geir mewn nifer fawr o astudiaethau epidemiolegol yn achosol. Nid yw deunydd gronynnol yn un cyfansoddyn, mae wedi ei ffurfio o gymysgedd o ronynnau solet a hylifol o gemegau organig ac anorganig. Mae'n cynnwys rhai naturiol, megis halen a llwch. Am y rheswm hwn, rydym yn cynnig gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targed mewn perthynas â $PM_{2.5}$ drwy'r Ddeddf.

iii. Amcanion Polisi

3.50. Diben unrhyw dargedau ansawdd aer newydd yw lleihau'r niwed a achosir gan gysylltiad ag ansawdd aer gwael i iechyd dynol, natur a'r amgylchedd. Ochr yn ochr â darparu 'isafswm' lefel o ansawdd aer ledled Cymru, rydym hefyd am i dargedau ysgogi gwelliant parhaus hirdymor i leihau cysylltiad â llygredd wrth gynyddu'r manteision cysylltiedig i'r eithaf.

3.51. Mae angen i dargedau ansawdd aer yn y dyfodol fod yn seiliedig ar dystiolaeth a metrigau er mwyn sicrhau'r gwelliant mwyaf effeithiol gan gefnogi'r gwaith o gyflawni ein nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Felly, rydym yn ystyried canllawiau ansawdd WHO sydd newydd eu diweddaru ochr yn ochr â chyngor a dadansoddiad arbenigol annibynnol ar ystod o ffactorau fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer targedau newydd posibl. Mae tystiolaeth ar effeithiau andwyol annibynnol ar iechyd o ystod o lygryddion yn parhau i ddod i'r amlwg a fframwaith gosod targedau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i bwysau iechyd cyhoeddus ac amgylcheddol yn y dyfodol.

3.52. Fel y'i cydnabyddir gan WHO, mae angen i'r broses o bennu safonau geisio sicrhau'r crynodiadau isaf posibl yng nghyd-destun cyfyngiadau lleol, galluoedd lleol a blaenoriaethau iechyd cyhoeddus lleol. I wneud hyn, mae WHO yn annog mabwysiadu safonau sy'n fwyfwy caeth ac olrhain eu heffeithiolrwydd dros amser.

3.53. Mae cyflwyno fframwaith gosod targedau ansawdd aer, a thargedau sy'n seiliedig ar asesiad cydymffurfedd a chofnodi cadarn, yn gyson â'r dull hwn. Mae hyn yn cynnwys gofynion cadarn ar gyfer monitro cydymffurfedd â thargedau fel y byddwn yn gwybod a ydym ar y trywydd iawn i sicrhau'r gwelliannau gofynnol yn ansawdd aer yng Nghymru. Unwaith bod targedau wedi eu gosod, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r targedau bob pum mlynedd, gan geisio cyngor annibynnol ac arbenigol ac ystyried dealltwriaeth wyddonol bresennol ynghylch ansawdd aer. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i wirio bod tystiolaeth bresennol yn parhau i ddangos pa mor effeithiol y mae targedau yn cael eu cyflawni. Bydd gosod datganiad gerbron y Senedd i ddisgrifio unrhyw gamau y byddai Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd yn dilyn adolygiad yn sicrhau bod y sail ar gyfer unrhyw newidiadau yn dryloyw ac yn agored i graffu arni.

iv. Diben y Ddeddfwriaeth

3.54. Diben y darpariaethau gosod Targedau Cenedlaethol o fewn y Ddeddf yw ysgogi gweithredu i wella ansawdd aer a lleihau effeithiau llygredd aer ymhellach drwy gyflwyno fframwaith gosod targedau ansawdd aer, gan alluogi Gweinidogion Cymru i osod targedau hirdymor. Yn ogystal â rhoi pwerau i osod targedau ansawdd aer, mae'r Ddeddf yn rhoi hefyd nifer o ddyletswyddau ar Weinidogion

Cymru i wneud rheoliadau sy'n gosod targedau ansawdd aer. Mae'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddefnyddio'r pŵer yn adran 1(1) o'r Ddeddf i osod targed ansawdd aer tymor hir ar gyfer un o'r llygryddion canlynol o fewn chwe mlynedd ar ôl rhoi'r Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf: amonia; PM_{10}; osôn ar lefel y ddaear, sylffwr deuocsid; nitrogen deuocsid neu garbon monocsid. O dan adran 2 o'r Ddeddf, mae'nofynnol ar i Weinidogion Cymru osod targed penodol mewn cysylltiad â $PM_{2.5}$ mewn aer amgylchynol o fewn tair blynedd ar ôl i'r Ddeddf gael y Cydsyniad Brenhinol. Bydd targedau a osodir o dan y fframwaith yn ychwanegol at ein hymrwymiadau presennol i leihau allyriadau a'n safonau ansawdd aer ar gyfer pob llygrydd rheoleiddiedig.

3.55. Rhan annatod o'r darpariaethau gosod Targedau Cenedlaethol yw'r gofyniad newydd ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau yn eu lle ar gyfer casglu data i asesu cynnydd a wneir tuag at dargedau, ac i sicrhau bod y data yn cael eu cyhoeddi.

3.56. Yn ogystal â'r dyletswyddau a roddir ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau (a ddisgrifir uchod), mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer hefyd i Weinidogion Cymru, drwy Reoliadau, i osod targedau hirdymor mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru. Diffinnir targed hirdymor fel targed y mae rhaid ei gyflawni ddim llai na deng mlynedd ar ôl y dyddiad y mae'r targed yn cael ei osod yn wreiddiol.

3.57. Fel y'i nodir uchod, mae'r corff cryfaf o dystiolaeth sy'n cysylltu llygrydd aer â marwolaethau ac effeithiau afiachusrwydd eraill yn cynnwys $PM_{2.5}$. O ganlyniad, mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn cysylltiad â'r lefel gymedrig flynyddol o $PM_{2.5}$ yn aer yr amgylchedd yng Nghymru. Gall y targed fod yn hirdymor neu'n fyrdymor. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rhaid i reoliadau sy'n gosod targed ansawdd aer ar gyfer PM_{25} ddiffinio "aer amgylchynol" at ddiben gosod pob targed ar gyfer PM_{25}, ac y caiff rheoliadau gynnwys diffiniadau gwahanol ar gyfer targedau gwahanol. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud y Rheoliadau $PM_{2.5}$ o fewn tair blynedd ar ôl y dyddiad y mae'r Ddeddf yn cael y Cydsyniad Brenhinol. Yn yr un modd, cafodd PM_{10}; osôn ar lefel y ddaear, sylffwr deuocsid; nitrogen deuocsid a charbon monocsid eu rhestru yn adran 1(2) gan eu bod yn llygryddion allweddol, wedi'u cynnwys yn y diweddariad diwethaf i ganllaw'r WHO ar ansawdd aer. Cafodd amonia ei gynnwys oherwydd ei effaith ar gynefinoedd sensitif. Rhaid i Weinidogion Cymru bennu targed tymor hir ar gyfer un o'r llygryddion hyn o fewn chwe mlynedd ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol.

3.58. Mae angen y cyfnodau amser hyn gan fod nifer sylweddol o gamau y mae angen eu cymryd cyn y gellir gosod targedau o'r fath. Bwriad ein polisi yw sicrhau bod targedau'ncael eu gosod mewn ffordd dryloyw ac

ag ymgynghoriad llawn. Caiff y broses ei llywio gan nifer o ffynonellau o dystiolaeth gan gynnwys data a modelau gwyddonol, a fydd yn ystyried effeithiau llygryddion trawsffiniol, setiau data hanesyddol, ac asesu'r hyn sy'n ymarferol o safbwynt economaidd-gymdeithasol. Bydd yn broses iteraidd ac yn dibynnu ar gyfraniad, arbenigedd a chraffu gan eraill. Mae'r prif gamau fel a ganlyn:

- Penderfynu ar gwmpas targedau sydd i'w gosod o dan y fframwaith, gan ddefnyddio arferion rhyngwladol a barn arbenigol, er mwyn sicrhau y bydd targedau yn cymell canlyniadau dymunol.
- Dadansoddi opsiynau i ddarparu'r sail dystiolaeth sy'n seiliedig ar fanylion y targedau. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi crynodiadau ansawdd aer yn y dyfodol dros gyfnodau penodol a'r gwelliannau posibl y gellid eu sicrhau drwy weithredu mesurau traws-sector posibl a dewisiadau polisi yn y dyfodol. Drwy ddadansoddiad economaidd-gymdeithasol, asesir costau, manteision ac effeithiau dosbarthiadol unrhyw fesurau o'r fath. Bydd yr ystyriaethau hyn yn helpu i sicrhau bod modd cyflawni a fforddio targedau arfaethedig, gan ysgogi'r newidiadau uchelgeisiol y mae eu hangen i wella ansawdd aer a chefnogi uchelgeisiau llywodraeth ehangach, megis ar gyfer datgarboneiddio. Ceisir cyngor arbenigol annibynnol i lywio cyfeiriad y gwaith. Bydd y cam hwn yn darparu metrigau targed y gellir eu mesur yn wrthrychol ac ystod o gynigion uchelgeisiol y gellir eu cyflawni ar gyfer safonau targed a dyddiadau erbyn pryd mae angen eu cyflawni.
- Ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd â'r cynigion targed. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu opsiynau targed yn ogystal â cheisio barn am y cynigion targed i ddeall barn am uchelgais, tystiolaeth a'u dichonoldeb. Bydd asesiadau effaith yn llywio'r ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ac yn ein helpu i sicrhau bod tystiolaeth berthnasol yn cael ei chasglu'n briodol ac yn agored i graffu arni.
- Drafftio'r rheoliadau targed. Caiff adborth yr ymgynghoriad ei ystyried, ac ymateb Llywodraeth Cymru ei gyhoeddi. Yna bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar y targedau sydd i'w gosod a chaiff y rheoliadau eu drafftio yn llawn.

3.59. Mae'r Ddeddf yn nodi proses gadarn ar gyfer gosod targedau i sicrhau bod y targedau hirdymor a osodir o dan y Ddeddf a'r targed $PM_{2.5}$ yn seiliedig ar dystiolaeth, yn uchelgeisiol a bod modd eu cyflawni. Er enghraifft, mae'r Ddeddf yn darparu bod rhaid i dargedau a osodir gan Weinidogion Cymru allu cael eu mesur yn wrthrychol a bod rhaid i reoliadau bennu dyddiad erbyn pryd y mae'r safon i'w chyflawni. Bydd hyn yn sicrhau bod y gofynion o ran targedau yn glir a bod modd mesur cynnydd tuag atynt. Pan fo'n bosibl, dylai targedau fod wedi eu seilio ar ganlyniadau amgylcheddol, a dylai'r canlyniadau terfynol a fwriedir wneud budd i iechyd y cyhoedd neu iechyd yr amgylchedd. Enghraifft o'r dull hwn yw'r broses o sefydlu cyllideb garbon sy'n gosod y llwybr i wneud cynnydd i gyflawni targedau allyriadau sero net Cymru heb ddisgrifio sut i wneud hynny. Mae'r dull hwn yn caniatáu hyblygrwydd a ffyrdd arloesol o gyflawni targedau.

3.60. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gwneud rheoliadau i osod targedau hirdymor neu darged ar gyfer $PM_{2.5}$, geisio cyngor yn gyntaf gan bersonau y maent yn ystyried eu bod yn annibynnol a bod ganddynt arbenigedd perthnasol; ac yn ail rhaid iddynt roi sylw i wybodaeth wyddonol am lygredd aer. Cyn gwneud rheoliadau, sy'n gosod neu ddiwygio targed mewn perthynas â llygrydd penodol, mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried y canllawiau diweddaraf ar ansawdd aer a gyhoeddwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd mewn perthynas â'r llygrydd hwnnw. Mae'r darpariaethau hyn wedi eu cynnwys er mwyn sicrhau bod Gweinidogion Cymru, wrth osod y targedau, yn ceisio cyngor gan arbenigwyr annibynnol sydd â'r cymwysterau priodol. Mae cyngor arbenigol annibynnol a gwybodaeth wyddonol ar gael i Lywodraeth Cymru drwy nifer o grwpiau arbenigol annibynnol. Rydym wedi sefydlu panel annibynnol o arbenigwyr, y Panel Cynghori ar Aer Glân, sy'n darparu cyngor ac argymhellion ar y broses gosod targedau a thargedau penodol ar gyfer llygryddion aer â blaenoriaeth yng Nghymru. Mae aelodaeth y Panel yn cynnwys cynrychiolwyr academaidd a llunwyr polisi llywodraeth genedlaethol a lleol (ym meysydd ansawdd aer, iechyd a'r amgylchedd).

3.61. Ochr yn ochr â hyn, mae cyngor annibynnol ac arbenigol pellach ar gael i Lywodraeth Cymru gan grwpiau cynghori'r DU, y Grŵp Arbenigol ar Ansawdd Aer a'r Pwyllgor ar Effeithiau Meddygol Llygredd Aer. Mewn perthynas â'r gofyniad i roi sylw i wybodaeth wyddonol am lygredd aer, bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw i dystiolaeth ryngwladol ar effeithiau llygredd aer ar iechyd a'r amgylchedd, a'r dadansoddiadau economaidd, technegol a chymdeithasol, a dichonoldeb cyflawni targedau. Byddai adroddiadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar ansawdd aer, gan gynnwys yr Adroddiad am Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru, ac adroddiad diweddaraf Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar dueddiadau'r dyfodol, hefyd yn cael eu hystyried.

3.62. Mae'r broses gosod targedau hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n lleihau neu'n dirymu targed a wneir o dan ddarpariaethau'r Ddeddf dim ond os ydynt wedi eu bodloni:

(i) na fyddai cyflawni'r targed presennol yn cael budd sylweddol o'i gymharu â pheidio â'i gyflawni neu gyflawni targed os, neu

(ii) oherwydd newidiadau yn yr amgylchiadau ers i'r targed presennol gael ei osod neu ers iddo gael ei ddiwygio ddiwethaf y byddai costau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd neu gostau eraill ei gyflawni yn anghymesur â'r manteision.

3.63. Hefyd, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn gwneud rheoliadau sy'n dirymu neu'n gostwng targed, osod datganiad gerbron Senedd Cymru (a'i gyhoeddi) sy'n nodi pam y maent yn credu bod yr amodau uchod wedi eu bodloni. Mae targed yn cael ei ostwng os caiff targed o

safon is yn cael ei roi yn ei le neu os caiff y dyddiad ar gyfer cydymffurfio â tharged ei estyn.

3.64. Diben y darpariaethau hyn yw sicrhau na ellir gwanhau'r safonau ansawdd aer a bennir yn naill ai'r Rheoliadau targedau hirdymor (o dan adran 1) neu'r Rheoliadau $PM_{2.5}$ (o dan adran 2) heb reswm da iawn. Mae hon yn ddarpariaeth bwysig i ddiogelu safonau ansawdd aer yng Nghymru. Dylid nodi bod y Ddeddf yn darparu y caniateir i'r targed $PM_{2.5}$ gael ei ddiwygio ond na chaniateir iddo gael ei ddirymu.

3.65. Nid yw'n ddigon i reoliadau osod targedau yn unig. Er mwyn sicrhau bod targedau â “dannedd” rhaid bod darpariaethau adrodd ac adolygu cadarn addas a modd penderfynu a yw targedau wedi eu cyflawni, ac os nad ydynt beth sydd wedi achosi'r broblem neu'r problemau a beth y gellir ei wneud am y peth.

3.66. Mae'r Ddeddf yn ymdrin â hyn mewn nifer o ffyrdd. Mae dyletswydd wedi ei gosod ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod targedau hirdymor a osodir o dan adran 1 a thargedau ansawdd aer $PM_{2.5}$ a osodir o dan adran 2 yn cael eu cyflawni.

3.67. Hefyd, mae darpariaethau manwl am dargedau adrodd ac adolygu. Mae adran 5 yn gosod rhwymedigaethau adrodd caeth ar Weinidogion Cymru. Rhaid i reoliadau sy'n gwneud targed hirdymor (o dan adran 1) neu darged $PM_{2.5}$ (o dan adran 2) bennu dyddiad adrodd. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru, ar neu cyn y dyddiad adrodd, osod gerbron y Senedd (a'i gyhoeddi) ddatganiad sy'n nodi:

(i) fod y targed wedi ei gyflawni;
(ii) nad yw'r targed wedi ei gyflawni; neu
(iii) na allant benderfynu eto a yw'r targed wedi ei gyflawni, y rhesymau dros hynny a'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i benderfynu a yw'r targed wedi ei gyflawni.

3.68. Pan na fo targed wedi ei gyflawni, rhaid i Weinidogion Cymru, o fewn 12 mis ar ôl gosod y datganiad, osod gerbron y Senedd (a'i gyhoeddi) adroddiad sy'n esbonio:

- pam nad yw'r targed wedi ei gyflawni; ac
- yn nodi'r camau y mae Gweinidogion Cymru wedi eu cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, i sicrhau bod y safon benodedig yn cael ei chyflawni cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

3.69. Mae darpariaethau tebyg yn adran 5(6) pan fo Gweinidogion Cymru wedi dangos na allant benderfynu eto a yw targed wedi ei gyflawni.

3.70. Diben y darpariaethau hyn yw gwneud Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am y targedau y maent wedi eu gosod a'i gwneud yn ofynnol iddynt adrodd ar gynnydd a chymryd camau gweithredu pan na fo targedau yn cael eu cyflawni. Mae ei gwneud yn ofynnol gosod adroddiadau gerbron y Senedd a chyhoeddi ychwanegol yn golygu bod y broses adrodd gyfan yn dryloyw ac yn agored i graffu arni.

3.71. Bydd tystiolaeth mewn perthynas â'n dealltwriaeth o ansawdd aer yn datblygu dros amser. Mae'n bwysig bod rheoliadau sy'n gosod targedau yn parhau i fod yn ddiweddar ac yn addas i'w diben. I gyflawni hyn, mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau adolygu cynhwysfawr sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu targedau hirdymor a osodir o dan adran 1 a'r targed $PM_{2.5}$ a osodir o dan adran 2 o fewn pum mlynedd ar ôl i'r rheoliadau cyntaf o'r fath gael eu gwneud ac, wedi hynny, bob pum mlynedd. Wrth gynnal adolygiadau, rhaid i Weinidogion Cymru geisio cyngor arbenigol annibynnol a rhoi sylw i wybodaeth wyddonol am lygredd aer. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried y canllawiau diweddaraf ar ansawdd aer a gyhoeddwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd mewn perthynas â llygrydd pan fyddant yn adolygu targed ar gyfer y llygrydd hwnnw.

3.72. Unwaith y byddant wedi cynnal yr adolygiad, rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Senedd am y camau, os oes rhai, y maent yn bwriadu eu cymryd yn dilyn y broses adolygu. Pan fo'r datganiad yn darparu nad oes unrhyw gamau i'w cymryd mewn perthynas â tharged, rhaid i'r datganiad nodi rhesymau Gweinidogion Cymru dros y penderfyniad hwnnw.

3.73. Diben y darpariaethau hyn yw sicrhau bod targedau a osodir o dan adran 1 neu 2 yn ddarostyngedig i'w hadolygu'n rheolaidd a rhaid i Weinidogion Cymru gymryd cyngor annibynnol, ystyried gwybodaeth wyddonol am lygredd aer ac ystyried targedau diweddaraf Sefydliad Iechyd y Byd ar ansawdd aer mewn perthynas â llygrydd wrth osod a diwygio targedau ac wrth gynnal adolygiad. Mae hyn yn sicrhau bod cynnydd tuag at dargedau ansawdd aer a osodir o dan y fframwaith yn dal i fod yn debygol, yn seiliedig ar dystiolaeth bresennol, i ysgogi'r manteision ansawdd aer net pan osodwyd y targedau wrth osgoi costau anghymesur. Gallai'r costau hynny fod o natur amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd neu o natur arall.

3.74. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru drefnu i gasglu a chyhoeddi data mewn modd priodol er mwyn sicrhau bod proses dryloyw a manwl gywir yn cael ei defnyddio i asesu cynnydd tuag at gydymffurfio â'r targedau ansawdd aer a osodir o dan y fframwaith, a'u cyflawni wedi hynny.

3.75. Mae adran 8 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal safonau ansawdd aer a nodir mewn rheoliadau a wneir o dan adrannau 1 neu 2 o'r Ddeddf.

3.76. Mae'r ddyletswydd yn gymwys pan fydd y targed a nodir yn y rheoliadau (y safon benodedig) a'r dyddiad ar gyfer cyrraedd y targed (y dyddiad penodedig) wedi cael eu bodloni. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan adran 87(1) o Ddeddf 1995 i sicrhau eu bod o dan ddyletswydd i gynnal y safon ac i osod

gofynion adrodd. Mae rheoliadau a wneir o dan adran 87(1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

3.77. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu mesurau diogelu os yw Gweinidogion Cymru yn cynnig defnyddio eu pwerau o dan adran 87(1) o Ddeddf 1995 i ddirymu neu ostwng targed. Dyma'r un mesurau diogelu sy'n gymwys ar gyfer y broses gyffredinol ar gyfer gosod targedau o dan adran 3 o'r Ddeddf.

3.78. Mae'r ddyletswydd yn bwysig oherwydd ei bod yn rhoi Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd barhaus i sicrhau bod llygryddion yn cael eu cadw o dan y lefel darged a osodwyd o dan adrannau 1 neu 2 o'r Ddeddf ar ôl i'r dyddiad targed fynd heibio, ac i adrodd ar gydymffurfedd. Mae'n sicrhau bod ansawdd aer yn cael ei gynnal a bod tryloywder mewn perthynas â chydymffurfedd.

3.79. Yn ogystal mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd ar eu hystyriaethau ynghylch defnyddio eu pwerau o dan adran 1 o'r Ddeddf i osod targed hirdymor ar gyfer ansawdd aer.

3.80. Yn benodol, rhaid i Weinidogion Cymru adrodd ar eu hystyriaethau ynghylch gosod targedau ar gyfer amonia, PM_{10}, Osôn ar lefel y ddaear, nitrogen deuocsid, carbon monocsid a sylffwr deuocsid yn ystod pob "cyfnod adrodd". Maent hefyd yn gallu adrodd ar unrhyw lygryddion eraill fel rhan o'r broses hon. Rhaid cyhoeddi a gosod yr adroddiad cyntaf gerbron y Senedd o fewn dwy flynedd a dau fis ar ôl rhoi'r Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf. Ar ôl yr adroddiad cychwynnol hwnnw, mae angen cyflwyno adroddiad bob blwyddyn.

3.81. Mae'r adran hon yn bwysig am ei bod yn fecanwaith pwerus i'r Senedd ar gyfer sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn atebol am arfer eu pwerau o dan adran 1 o'r Ddeddf.

v. Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n effeithlon?

3.82. Bydd pwerau i osod targedau ansawdd aer hirdymor yn sicrhau y daw gwella iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd yn flaenoriaeth hirdymor yn ogystal ag yn flaenoriaeth fyrdymor ar gyfer llywodraethau'r dyfodol. Bydd y dyletswyddau arfaethedig newydd ar Weinidogion Cymru i gasglu a chyhoeddi data, ac adolygu ac adrodd ar gynnydd tuag at gydymffurfio â thargedau a osodir o dan y fframwaith, yn sicrhau bod y broses yn agored ac yn dryloyw. Bydd targedau sy'n rhwymo mewn cyfraith hefyd yn darparu sicrwydd hirdymor ar draws y gymdeithas, gan gynnwys ar gyfer busnes a diwydiant.

vi. Y risg os na wneir deddfwriaeth

3.83. Bach iawn yw cost sefydlu'r fframwaith o'i chymharu â'r costau iechyd a achosir gan ansawdd aer gwael. Mae gwella ansawdd aer a ysgogir gan dargedau hirdymor newydd yn debygol o gael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar blant, y rheini sy'n byw mewn tlodi a'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd â'r lefelau uchaf o lygredd aer. Bydd fframwaith gosod targedau yn defnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau nad yw unrhyw fesurau y mae'n ofynnol eu cymryd i gyflawni targedau a osodir odano yn effeithio'n andwyol ar boblogaeth Cymru, yn enwedig grwpiau dan anfantais.

Hyrwyddo Ymwybyddiaeth o Lygredd Aer

i. Y Cefndir

3.84. Mae gofynion deddfwriaethol presennol o ran gwybodaeth am ansawdd aer ac ymwybyddiaeth o ansawdd aer yn gyfyngedig ac yn canolbwyntio ar gydymffurfio â therfynau cyfreithiol a thargedau. Casgliad adolygiad o dystiolaeth ansawdd aer a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr yn 2019 oedd y gall ymyriadau ymarferol i godi ymwybyddiaeth o ffynonellau llygredd aer a chamau lliniaru helpu pawb i leihau eu cysylltiad â llygredd aer a'u cyfraniad ato. Felly rydym yn cynnig gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer.

ii. Pam y mae angen newid?

3.85. Mae bwlch yn y dirwedd ddeddfwriaethol ynglŷn â gwybodaeth am ansawdd aer ac ymwybyddiaeth ohono. Mae Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 yn nodi gofynion i Weinidogion Cymru gyhoeddi gwybodaeth am grynodiadau llygrydd, achosion o fynd dros derfynau cyfreithiol a'r effeithiau y gall yr achosion hynny eu cael ar iechyd a/neu yr amgylchedd. Fodd bynnag, mae disgwyliadau o ran gwybodaeth am ansawdd aer, rheoli a gweithredu wedi cynyddu'n sylweddol er 2010.

3.86. Ar 21 Ebrill 2021, ar wefan y Prif Grwner, cyhoeddwyd yr adroddiad Atal Marwolaethau yn y Dyfodol yn dilyn yr ymchwiliad i farwolaeth Ella Kissi-Debrah. Nododd y Crwner ddau ‘fater pryder’ yn gysylltiedig â hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer:

- Nid yw'r cyhoedd yn ymwybodol iawn o'r ffynonellau gwybodaeth (megis gwefan UK-Air) am lefelau llygredd cenedlaethol a lleol. Byddai mwy o ymwybyddiaeth yn helpu unigolion i leihau eu cysylltiad personol â llygredd aer. Roedd y dystiolaeth yn yr ymchwiliad yn dangos yn glir fod rhoi cyhoeddusrwydd i'r wybodaeth hon yn broblem y mae angen ei datrys gan lywodraeth genedlaethol yn ogystal â llywodraeth leol. Rhaid i'r wybodaeth gynnwys digon o fanylion ac mae'n debygol y bydd hyn yn golygu bod angen mwy o gapasiti i fonitro ansawdd aer, er enghraifft drwy gynyddu nifer y synwyryddion ansawdd aer; a
- Nid yw gweithwyr meddygol a nyrsio proffesiynol yn cyfathrebu effeithiau andwyol llygredd aer ar iechyd yn ddigonol i gleifion a'u gofalwyr.

3.87. Er nad oedd yr adroddiad yn nodi bod angen i Weinidogion Cymru weithredu, rydym o'r farn y bydd y ddyletswydd hon yn y Ddeddf yn ein galluogi i weithredu ar yr argymhellion hyn ac felly yn diogelu iechyd pobl Cymru yn well.

iii. Amcanion Polisi

3.88. Amcan polisi'r cynnig hwn yw sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cynnal er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r canlynol:

- Effeithiau llygredd aer ar iechyd a'r amgylchedd, a manteision aer glân; a'r
- Camau gweithredu sy'n lleihau crynodiadau a chysylltiad â llygredd aer.

Mae natur eang y cynnig yn sicrhau bod ystod eang o opsiynau yn bosibl ar gyfer rhoi'r cynnig ar waith ac yn darparu hyblygrwydd os bydd gofynion o ran gwybodaeth ac ymwybyddiaeth yn newid dros amser.

3.89. Caiff cynllun cyflawni ei ddatblygu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod camau penodol yn cael eu cymryd, a chyflwynir adroddiad ar y cynllun bob blwyddyn er mwyn galluogi craffu. Gallai'r cynllun cyflawni gynnwys:

- Gwelliannau i ddarpariaeth bresennol o ddata ansawdd aer.
- Annog, cefnogi a hyrwyddo mentrau lleol sy'n cynnwys cymunedau mewn camau gweithredu o ran ansawdd aer.
- Camau i leihau segura, gan gynnwys hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r gwelliannau i ansawdd aer lleol y gall hyn eu cyflawni.
- Gwella darpariaeth adnoddau llygredd aer ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol a chleifion.
- Cynnal ymgyrchoedd penodol i godi ymwybyddiaeth o ansawdd aer ac ymgorffori'r neges ansawdd aer mewn ymgyrchoedd perthnasol eraill, gan ddefnyddio arbenigedd cyfathrebu a newid ymddygiad i lywio'r dyluniad.
- Gwella a hyrwyddo gwybodaeth sy'n ymwneud â chamau y gellir eu cymryd i leihau crynodiadau o llygredd aer a lleihau cysylltiad ag ef. Gall hyn gynnwys tynnu sylw at wybodaeth bresennol sydd wedi ei datblygu gan sefydliadau eraill a all fod yn fwy priodol i ledaenu'r neges mewn rhai cyd-destunau.
- Adolygu gwybodaeth bresennol am y ffynonellau o lygredd aer a'r effeithiau ar iechyd a'r amgylchedd, gan ystyried hygyrchedd a gofynion grwpiau gwahanol.

3.90. Casgliad adolygiad Iechyd Cyhoeddus Lloegr o dystiolaeth 2019 (Saesneg yn unig) oedd bod mentrau ansawdd aer lleol yn fwyaf effeithiol pan fyddant yn seiliedig ar bolisïau cefnogol, felly gellid ymgorffori cynlluniau cyflawni'r dyfodol yng nghynlluniau neu strategaethau Llywodraeth Cymru ar aer glân i sicrhau bod ymdrechion lleol a chenedlaethol yn gydgysylltiedig.

iv. Diben y Ddeddfwriaeth

3.91. Diben y cynnig yw llenwi bwlch mewn deddfwriaeth bresennol drwy osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o i) effeithiau llygredd aer ar iechyd a'r amgylchedd a ii) ffyrdd i leihau llygredd aer neu gyfyngu arno.

3.92. Bydd y ddeddfwriaeth hefyd yn sicrhau bod llywodraethau olynol yn cynnal camau gweithredu i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd.

v. Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon?

3.93. Bydd y ddeddfwriaeth yn sicrhau bod adnoddau a chefnogaeth ar gael i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer. Bydd hyn yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon drwy leihau'r angen am ddyblygu, annod mentrau cydweithredol a sicrhau bod negeseuon yn gyson.

vi. Y risg os na wneir deddfwriaeth

3.94. Os na wneir y ddeddfwriaeth, mae risg y gellid lleihau'r camau gweithredu i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer dros amser. Fel y'i nodir uchod, amlinellodd yr Adroddiad i Atal Marwolaethau yn y Dyfodol (Saesneg yn unig) yr angen i lywodraeth genedlaethol a Llywodraeth leol fynd i'r afael â'r diffyg ymwybyddiaeth o lygredd aer a chamau gweithredu i leihau cysylltiad ag ef. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd y ddeddfwriaeth hon wrth sicrhau bod ymdrechion i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer yn cael eu cynnal.

Teithio Llesol

i. Cefndir

3.95. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol a Gweinidogion Cymru i hyrwyddo teithio llesol. Mae Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol (Gorffennaf 2021) yn esbonio 'Dylai awdurdodau lleol geisio cydweithio ar draws adrannau i hyrwyddo teithio llesol. Mae hyn yn cynnwys cydweithio ar draws ffiniau lleol a rhanbarthol. Dylai awdurdodau hefyd weithio gydag asiantaethau a sefydliadau perthnasol eraill fel ysgolion, byrddau iechyd, gweithleoedd, gweithredwyr cludiant, grwpiau diddordeb, fforymau anabledd a mudiadau gwirfoddol.'

3.96. O dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, mae gofyn i awdurdodau lleol roi adroddiad bob blwyddyn i Weinidogion Cymru. Mae'r templed a gynigir ar gyfer yr adroddiad yn gofyn am fanylion gweithgareddau a gynhelir gan unrhyw adran yn yr awdurdod lleol i hyrwyddo teithio llesol, gan gynnwys gweithgareddau i hyrwyddo iechyd, neu i ddiogelu'r amgylchedd yn ogystal â thrafnidiaeth.

3.97. Mae Llywodraeth Cymru, trwy gydweithio â Trafnidiaeth Cymru, yn datblygu rhagor o gymorth i helpu Awdurdodau lleol i ysgwyddo'u dyletswydd i hyrwyddo teithio llesol. Caiff set o adnoddau a chanllawiau ymarferol eu cynhyrchu a'u darparu ar ffurf pecyn cymorth.

ii. Pam mae angen newid

3.98. Mae bwlch rhwng cwmpas y ddeddfwriaeth bresennol a hyrwyddo teithio llesol. Yn ei adolygiad o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, teimlodd y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol fod cyfyngiadau ar effaith y ddyletswydd i hyrwyddo gan ei bod ond yn gymwys pan fydd awdurdodau lleol yn ysgwyddo dyletswyddau eraill o dan y Ddeddf.

3.99. Mae'r ddarpariaeth newydd yn y Ddeddf, sy'n diwygio Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar Weinidogion Cymru ac Awdurdodau Lleol i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn caniatáu'r posibilrwydd i estyn y ddyletswydd hon hefyd i unrhyw awdurdod cyhoeddus datganoledig arall yng Nghymru.

iii. Amcanion y Polisi

3.100. Amcanion polisi'r cynnig hwn yw:

- Cynyddu'r nifer sy'n mabwysiadu teithio llesol

- Codi ymwybyddiaeth y gall teithio llesol gyfrannu at leihau neu gyfyngu ar lygredd aer

3.101. Mae newid o deithio mewn car i deithio llesol yn ffordd bwysig o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer. Mae hyrwyddo teithio llesol yn rhan o'r darlun o wneud hyn.

3.102. Gwneir hynny gan Weinidogion Cymru ac Awdurdodau Lleol wrth hyrwyddo teithio llesol a gall gynnwys awdurdodau cyhoeddus datganoledig eraill yng Nghymru yn y dyfodol (gan ddibynnu ar ymgynghori ac is-ddeddfwriaeth).

3.103. Bydd Gweinidogion Cymru trwy gyhoeddi datganiad yn esbonio sut y byddant yn hyrwyddo teithio lleol fel ffordd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer yng Nghymru.

3.104. Bydd Gweinidogion Cymru'n paratoi adroddiad ar y camau y byddant wedi'u cymryd i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer. Bydd Awdurdodau Lleol hefyd yn paratoi adroddiad ar y camau y byddant wedi'u cymryd i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer.

3.105. Bydd Gweinidogion Cymru'n rhoi arweiniad i Awdurdodau Lleol ar eu dyletswyddau o dan y Ddeddf.

iv. Diben y Ddeddfwriaeth

3.106. Diben y ddeddfwriaeth yw gwneud darpariaethau yn rhagor na'r ddyletswydd benodol i hyrwyddo teithio llesol wrth wneud dyletswyddau eraill o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a chyflwyno dyletswydd gyffredinol i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer.

3.107. Bydd y ddeddfwriaeth yn sicrhau hefyd y bydd Gweinidogion Cymru ac Awdurdodau Lleol yn cofnodi'r hyrwyddo trwy adroddiadau rheolaidd, Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol hefyd ar Weinidogion Cymru i gadw golwg ar eu datganiad ynghylch sut y byddant yn gwneud eu dyletswydd i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer yng Nghymru. Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaeth i estyn y ddyletswydd i hyrwyddo teithio llesol i awdurdodau cyhoeddus datganoledig eraill Cymru.

v. Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon?

3.108. Bydd y ddeddfwriaeth yn sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cael arweiniad ar sut i wneud eu dyletswydd i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd i leihau neu gyfyngu ar lygredd aer, ac ar baratoi adroddiad ar

hynny. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r awdurdodau ac ag unrhyw bobl eraill a fernir yn briodol ar yr arweiniad y maent yn ei ddarparu am eu dyletswyddau.

3.109. Mae'r ddeddfwriaeth yn disgrifio'r broses (ymgynghori ac is-ddeddfwriaeth) ar gyfer estyn y ddyletswydd i unrhyw awdurdod datganoledig arall.

vi. Y risg os na wneir y ddeddfwriaeth

3.110. Os na wneir y ddeddfwriaeth, mae risg y bydd Awdurdodau Lleol ond yn hyrwyddo teithio llesol wrth wneud eu dyletswyddau o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae risg hefyd y gallai gweithgarwch i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer leihau dros amser.

Y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol

i. Y Cefndir

3.111. Mae nodi bwriadau'r llywodraeth ar gyfer ansawdd aer wedi bod yn flaenoriaeth am nifer o flynyddoedd ac mae strategaeth ansawdd aer genedlaethol yn ofynnol o dan adran 80 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (Deddf 1995). Pan gafodd adran 80 o Ddeddf 1995 ei chychwyn ar 1 Chwefror 1996, sefydlodd ddyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol a oedd yn cynnwys Prydain Fawr gyfan. Mae deddfwriaeth gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon, ond mae strategaethau blaenorol a gyhoeddwyd o dan adran 80 wedi cynnwys Gogledd Iwerddon.

3.112. Cafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 80, mewn perthynas â Chymru, eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Cafodd y swyddogaethau hynny eu trosglwyddo wedyn i Weinidogion Cymru drwy adran 162 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, cafodd y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol ei chyhoeddi ar y cyd o hyd, oherwydd bod y ddarpariaeth yn adran 80(3) o Ddeddf 1995 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth gynnwys Prydain Fawr gyfan yn parhau i fod mewn grym.

3.113. Mabwysiadwyd y Strategaeth Ansawdd Aer gyntaf ym 1997. Ym mis Ionawr 2000, disodlwyd hon gan Strategaeth Ansawdd Aer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a sefydlodd y fframwaith ar gyfer sicrhau gwelliannau pellach yn ansawdd aer amgylchynol. Diweddarwyd y Strategaeth ymhellach yn 2003. Arweiniodd adolygiad llawn at Strategaeth wedi ei diweddaru (Saesneg yn unig) yn 2007.

3.114. Mae gwaith ym mhob llywodraeth i wella ansawdd aer wedi parhau i ddod yn ei flaen, ac ym mis Awst 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y cynllun aer glân cynhwysfawr cyntaf i Gymru Cynllun Aer Glân i Gymru. Cynigiodd y Papur Gwyn ar gyfer Bil Aer Glân i Gymru ei gwneud yn ofynnol adolygu a chyhoeddi cynllun neu strategaeth aer glân i Gymru, o leiaf bob pum mlynedd. Wedi hynny, cyflwynodd Llywodraeth y DU ddiwygiad i adran 80 o Ddeddf 1995 ym mharagraff 2 o Atodlen 11 i Ddeddf yr Amgylchedd 2021 (y DU) (Deddf 2021). Mae'r diwygiad i adran 80 yn golygu bod rhaid adolygu'r strategaeth ansawdd aer erbyn hyn, ac os caiff ei haddasu'n briodol, bob pum mlynedd.

3.115. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, cynigiom y dylid adolygu a chyhoeddi'r cynllun yn ddelfrydol o fewn hanner cyntaf pob tymor Llywodraeth Cymru i wella atebolrwydd. Byddai hyn yn caniatáu i Weinidogion roi sylw i Raglen Lywodraethu, amcanion llesiant, Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a Pholisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol pob gweinyddiaeth a'u datblygu. Felly, rydym yn cynnig cryfhau'r pwerau o fewn Deddf 1995 i sicrhau bod rhaid i Weinidogion ymgynghori ar bob adolygiad a/neu addasiad o'r Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol i Gymru.

3.116. Roedd y diwygiadau a wnaed i adran 80 o Ddeddf 1995 gan Ddeddf 2021 hefyd yn dileu'r angen i'r strategaeth gynnwys Prydain Fawr gyfan, ac felly yn cadarnhau bod Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am gyhoeddi Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol ar gyfer Cymru. Cytunodd y Senedd ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol, mewn perthynas â'r darpariaethau hyn yn Neddf 2021, a oedd yn nodi bod y darpariaethau'n adlewyrchu natur ddatganoledig y darpariaethau yn adran 80 o Ddeddf 1995.

3.117. Ym mis Ebrill 2023, adolygodd Llywodraeth Cymru strategaeth 2007 a'i disodli â'r Cynllun Aer Glân ar gyfer Cymru, sydd bellach yn gweithredu fel Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol ar gyfer Cymru at ddibenion adran 80 o Ddeddf 1995.

ii. Pam y mae angen newid?

3.118. Yng Nghymru, mae'r ddyletswydd i adolygu'r Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol bob pum mlynedd wedi ei gosod ar Weinidogion Cymru erbyn hyn. Y bwriad yn y Papur Gwyn oedd gosod dyletswydd benodol ar Lywodraeth Cymru, bob tro y bydd un newydd yn cael ei hethol, i gyhoeddi Cynllun Aer Glân yn gynnar yn ei thymor. Rhaid i'r cynllun hwn nodi'r camau o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru y maent hwy a chyrff cyhoeddus eraill yn bwriadu eu cymryd yn y pum mlynedd nesaf, y gellir eu dal yn atebol yn eu herbyn. Oherwydd y newidiadau a wneir yn Neddf 2021, y cytunodd y Senedd arnynt drwy'r broses Cydsyniad Deddfwriaethol, rydym eisoes wedi cyflawni rhan o'r nod hwn gan fod Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i adolygu'r strategaeth, a'i haddasu os yw'n briodol, bob pum mlynedd yn dilyn adolygiad cychwynnol ym mis Mai 2023. Fodd bynnag, nid yw'r diwygiadau a wneir gan Ddeddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion ymgynghori â chyrff cyhoeddus a'r cyhoedd wrth adolygu'r strategaeth, sy'n golygu bod llai o atebolrwydd nag a gynigiwyd yn ein Papur Gwyn.

3.119. Ymhellach, mae adran 81A o Ddeddf 1995 fel y'i diwygiwyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a chynghorau sir yn Lloegr ac

"awdurdodau cyhoeddus perthnasol" yn Lloegr (gan olygu awdurdodau cyhoeddus a ddynodir mewn rheoliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol) i roi sylw i'r Strategaeth wrth arfer unrhyw swyddogaeth o natur gyhoeddus a allai effeithio ar ansawdd aer. Nid oes dyletswydd o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

3.120. Yn ogystal, mae'r cylch pum mlynedd wedi ei nodi yn Neddf 2021. Ar hyn o bryd, nid yw hyn yn caniatáu hyblygrwydd i ymaddasu i delerau'r Senedd, a all neu na all ddilyn y patrwm pum mlynedd. Mae cysoni'r ddyletswydd i lunio Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol â thelerau'r Senedd yn gwneud y cynnig yn gydlynol ac yn rhoi diben iddo mewn cyd-destun gwleidyddol Cymreig. Mae'n golygu y gallai Gweinidogion ystyried adrodd amgylcheddol sy'n ystyrlon yn ehangach megis yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016; ac Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

iii. Amcanion Polisi

3.121. Ein hamcan polisi yw sicrhau bod rhaid i Lywodraeth Cymru, bob tro y bydd yn cael ei hethol, nodi eu nodau mewn perthynas â pholisi ansawdd aer yn hanner cyntaf tymor y Senedd, a gwella eglurder ac atebolrwydd. Felly, mae'r Ddeddf yn diwygio dyletswydd Gweinidogion Cymru i adolygu, ac os yw'n briodol addasu, strategaeth Cymru ar gyfer ansawdd aer bob pum mlynedd fel y bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyhoedd, yn ogystal â rhestr o gyrff penodol, bob tro y mae'n cynnal adolygiad.

3.122. Y bwriad yw sicrhau bod blaenoriaethau a chyfleoedd clir wedi eu gosod ar gyfer cyflawni aer glân yng Nghymru ar lefel genedlaethol yn seiliedig ar sail dystiolaeth gynhwysfawr gan gynnwys nid yn unig tystiolaeth ar ansawdd aer ond hefyd ystyriaethau amgylcheddol ehangach megis mapiau sŵn seilwaith trafnidiaeth; yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016; ac Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

3.123. Y cynnig yw efelychu'r ddyletswydd adran 81A, sy'n gymwys i gyrff cyhoeddus yn Lloegr, fel bod rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru ac unrhyw awdurdodau cyhoeddus Cymreig perthnasol a ddynodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau ystyried y Cynllun Aer Glân wrth gyflawni swyddogaethau perthnasol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd trafodaeth ag unrhyw gorff cyhoeddus yr effeithir arno wrth i bob

Cynllun Aer Glân newydd gael ei lunio yn hytrach nag unrhyw bolisi newydd sy'n cael ei osod heb rybudd.

3.124. Wrth ystyried yr adran hon, mae hefyd yn ddefnyddiol ystyried yr adran sŵn a seinwedd yn y Ddeddf gan mai'r bwriad polisi yw sicrhau bod y cysylltiadau rhwng sŵn a llygredd aer yn cael eu cydnabod a lle y bo'n briodol mae camau yn cael eu cymryd i atal sŵn a llygredd aer gyda'i gilydd.

iv. Diben y Ddeddfwriaeth

3.125. Diben y ddeddfwriaeth yw cryfhau dyletswyddau presennol yn Neddf yr Amgylchedd 1995 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2021 i sicrhau bod rhaid i Weinidogion Cymru nodi eu nodau mewn perthynas ag ansawdd aer yn hanner cyntaf pob tymor newydd y Senedd. At y diben hwnnw, mae'r Ddeddf yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Ddeddf 1995.

3.126. Mae adran 80 o Ddeddf 1995 wedi ei diwygio i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r cyfnodau y mae rhaid iddynt adolygu'r Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol. Diben hyn yw rhoi hyblygrwydd i ymateb i etholiad anghyffredin yn y Senedd. Er mwyn sicrhau craffu priodol ar unrhyw newidiadau i'r cyfnod adolygu, rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r rheoliadau hyn.

3.127. Mae adran 80 hefyd wedi ei diwygio i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru; awdurdodau lleol yng Nghymru; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Byrddau Iechyd Lleol; Ymddiriedolaethau'r GIG; byrddau gwasanaethau cyhoeddus (o fewn ystyr Rhan 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015); Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, , Trafnidiaeth Cymru a'r cyhoedd. Diben hyn yw sicrhau ei bod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru, bob tro y bydd un newydd yn cael ei hethol, ymgynghori ar ei nodau a'i bwriadau mewn perthynas â pholisi ansawdd aer. Nid yw'r gofynion ymgynghori sy'n gymwys i'r strategaeth ansawdd aer i Loegr yn gymwys i strategaeth Cymru.

3.128. Cynigir bod y ddyletswydd yn cael ei hefelychu yn adran 81A o Ddeddf 1995, sy'n gymwys i gyrff cyhoeddus yn Lloegr, fel bod rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru ystyried y strategaeth ansawdd aer genedlaethol wrth gyflawni swyddogaethau perthnasol yng Nghymru. Eto, drwy efelychu'r dull yn adran 81A, mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddynodi awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru y mae rhaid iddynt roi sylw i'r strategaeth. Er mwyn cael ei ddynodi felly, rhaid i gorff fodloni'r diffiniad o awdurdod Cymreig datganoledig o fewn ystyr "devolved Welsh authority" yn adran 157(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn yn golygu na ellir dynodi person ond os yw'n awdurdod cyhoeddus (i) nad yw ei swyddogaethau yn arferadwy ond o ran

Cymru, a (ii) nad yw'r cyfan neu'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau hynny yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl. Diffinnir "public authority" yn adran 157(A)(8) fel "a body, office or holder of an office that has functions of a public nature".

3.129. Mae pŵer o'r fath i wneud rheoliadau yn golygu bod cwmpas sylweddol i Weinidogion Cymru, lle bo'n angenrheidiol, ychwanegu at y cyrff y mae rhaid iddynt roi sylw i'r strategaeth. Mae'r Ddeddf yn darparu bod rhaid iddynt, cyn dynodi person neu gorff, ymgynghori â'r person hwnnw neu'r corff hwnnw ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

3.130. Mae'r diwygiadau hyn ochr yn ochr ag adran sŵn a seinwedd y Ddeddf yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion i ystyried ansawdd aer a sŵn gyda'i gilydd ac, os y'i dymunir, i gyhoeddi un strategaeth sy'n cwmpasu'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol a'r strategaeth seinweddau genedlaethol.

v. Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon?

3.131. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion gyhoeddi ac ymgynghori ar eu sefyllfa a'u bwriadau ar ansawdd aer wrth roi'r cyfle i ystyried adroddiadau amgylcheddol megis yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ac Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol. Mae hyn yn annog gweithio cydgysylltiedig yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

3.132. Bydd y ddyletswydd i ymgynghori â chyrff cyhoeddus penodedig a'r cyhoedd yn sicrhau effeithlonrwydd a gwneud polisïau mewn modd cydgysylltiedig gan arwain at ganlyniadau gwell, tryloywder ac atebolrwydd.

3.133. Bydd y gofynion i awdurdodau lleol (ac unrhyw awdurdodau cyhoeddus perthnasol eraill yng Nghymru a ddynodir mewn rheoliadau) roi sylw i'r strategaeth yn sicrhau bod polisi yn eglur i gyrff cyhoeddus sydd â chyfrifoldebau am ansawdd aer a sŵn a rhanddeiliaid ehangach.

3.134. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r cyfnod amser y mae rhaid cyhoeddi strategaeth ansawdd aer ynddo mewn ymateb i delerau'r Senedd, gan sicrhau bod y ddyletswydd yn gydlynol a rhoi diben i'r ddyletswydd mewn cyd-destun gwleidyddol Cymreig.

3.135. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi diweddariad blynyddol ar y cynnydd tuag at gyflawni'r camau gweithredu yn y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol.

vi. Y risg os na wneir deddfwriaeth

3.136. Pe na bai'r ddeddfwriaeth hon yn cael ei gwneud, yna ni fyddai'r ddyletswydd bresennol i adolygu ac os yw'n briodol addasu'r strategaeth ansawdd aer yn adlewyrchu anghenion a gofynion Cymru.

3.137. Ni fyddai'r ddyletswydd i adolygu'r Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol bresennol bob amser yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru, bob tro y bydd un newydd yn cael ei hethol, gyhoeddi ac ymgynghori ar y camau y mae'n bwriadu eu cymryd mewn Cynllun Aer Glân newydd. Byddai'r terfynau amser ar gyfer adolygu'r strategaeth o dan Ddeddf 1995 yn parhau i fod yn berthnasol hyd at amser penodol yn hytrach nag etholiad diweddaraf y Senedd. Ni fyddai unrhyw ddyletswydd benodol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i ystyried y strategaeth, nac addasiadau iddi, yn y pethau y maent yn eu gwneud.

Rheoliadau Ansawdd Aer

i. Y cefndir

3.138. Mae Rhan IV o Ddeddf 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth ansawdd aer genedlaethol. Y rhan hon hefyd a sefydlodd y system i alluogi rheoli ansawdd aer yn lleol drwy ddynodi ardaloedd rheoli ansawdd aer.

3.139. Mae Adran 87 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol sy'n gymwys i reoliadau a wneir at ddibenion Rhan IV o'r Ddeddf honno.

3.140. Mae Adran 87(7) yn rhagnodi pwy y mae rhaid ymgynghori â hwynt pan fydd Gweinidogion Cymru'n gwneud rheoliadau at ddibenion Rhan IV o'r Ddeddf honno.

3.141. Mae Adran 15 o'r Ddeddf yn diweddaru'r gofynion o ran ymgynghori sy'n gymwys i reoliadau a wneir o dan Adran IV.

ii. Pam y mae angen newid?

3.142. Mae Adran 87(7) fwy neu lai heb ei newid ers i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 gael Cydsyniad Brenhinol, bron 28 mlynedd yn ôl. Nid yw bellach yn adlewyrchu'r arferion gorau mewn perthynas ag ymgynghori. Er enghraifft, nid yw'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch rheoliadau a wneir o dan Ran IV.

iii. Amcanion polisi

3.143. Yr amcan polisi yw diweddaru adran 87(7) er mwyn sicrhau ei bod yn well adlewyrchiad o'r ffordd y mae Gweinidogion Cymru'n ymgynghori ynghylch Rheoliadau arfaethedig ar hyn o bryd.

iv. Diben y ddeddfwriaeth

3.144. Mae Adran 15 o'r Ddeddf yn datgymhwyso'r adran 87(7) bresennol o Ddeddf 1995 o ran Cymru. Caiff ei disodli, o ran Cymru, gan is-adran newydd (7B).

3.145. Mae'r is-adran (7) bresennol yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, wrth wneud rheoliadau mewn perthynas â Rhan IV o Ddeddf 1995, ymgynghori â'r sawl a ganlyn:

a) yr asiantaeth briodol, sef Cyfoeth Naturiol Cymru, o ran Cymru ac yn unol ag adran 91(1) o Ddeddf 1995.
b) y fath gyrff neu bersonau yr ymddengys iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ag yr ystyriant yn briodol;

c) y fath gyrff neu bersonau yr ymddengys iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau diwydiannau ag yr ystyriant yn briodol; a
d) y fath gyrff neu bersonau eraill ag yr ystyriant yn briodol.

Felly, dim ond â Chyfoeth Naturiol Cymru y mae gofyniad absoliwt i ymgynghori. Mae gan Weinidogion Cymru ddisgresiwn o ran pwy i ymgynghori â hwynt mewn perthynas ag is-adrannau (7)(b) i (d).

3.146. Mae is-adran newydd (7B) a fewnosodir gan y Ddeddf yn gosod **dyletswydd** ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phob un o'r sawl a ganlyn cyn gwneud rheoliadau o dan Ran IV o Ddeddf 1995:

a) Corff Adnoddau Naturiol Cymru;
b) pob awdurdod lleol yng Nghymru;
c) Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru;
d) pob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru; ac
e) y cyhoedd.

3.147. Fe'i hystyrir yn briodol cryfhau'r gofynion ymgynghori yn ffurfiol, yn benodol er mwyn cynnwys gofyniad am ymgynghoriad cyhoeddus llawn, er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd y mathau o reoliadau y gellir eu gwneud o dan Ran IV, a'r diddordeb cyhoeddus ynddynt. Mae rheoliadau o'r fath yn cynnwys rheoliadau'n ymwneud ag ansawdd aer; rheoli ansawdd aer yn lleol; a rheoliadau'n ymwneud â segura llonydd.

v. Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon?

3.148. Wrth ddiweddaru'r gofynion ymgynghori er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan Ran IV o Ddeddf 1995, sicrheir hefyd y cynhelir yr ymgynghoriad llawnaf posibl mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan Ran IV. Dylai hynny olygu bod y Senedd yn pasio deddfwriaeth well.

vi. Y risg os na wneir deddfwriaeth

3.149. Os na wneir y diwygiadau yn adran 15, bydd y camau y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru eu cymryd wrth ymgynghori o dan adran 87(7) o Ddeddf 2015 yn parhau fel y maent wedi eu drafftio ar hyn o bryd. Byddai'r gofynion ymgynghori ar gyfer Rhan IV hefyd yn anghyson â'r hyn sy'n cael ei gynnig mewn perthynas â gofynion ymgynghori wrth adolygu'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol ac wrth baratoi ac adolygu'r strategaeth seinweddau genedlaethol.

Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol

i. Y cefndir

3.150. O dan Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (Deddf 1995), mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â materion ansawdd aer ar lefel leol drwy'r broses Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol. Mae'r broses Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu ac asesu ansawdd yr aer, gan lunio cynlluniau gweithredu pan fo risg i ansawdd yr aer fethu â chyflawni'r amcanion oherwydd bod crynodiadau llygryddion yn uwch na'r trothwy.

3.151. Wrth asesu ansawdd yr aer, canolbwyntir ar leoliadau lle y mae aelodau o'r cyhoedd i'w canfod yn rheolaidd, ac ar adegau pan ddeuir i gysylltiad â'r llygrydd dan sylw dros yr amser y diffinnir yr amcan ar ei gyfer. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar awdurdodau lleol i ddangos eu bod yn gwneud popeth sy'n rhesymol bosibl i weithio tuag at werthoedd cyfreithiol yr amcan.

3.152. Mae awdurdodau lleol yn llunio Adroddiadau Cynnydd Blynyddol, ac os ydynt yn datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer, yna rhaid iddynt ddatblygu Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer o fewn amserlen benodedig. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau diwygiedig ar Reoli Ansawdd Aer Lleol yn 2017, er mwyn cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau. Ceir canllawiau technegol (2022; Saesneg yn unig) hefyd, wedi eu cyhoeddi ar gyfer y DU gyfan ond gan gynnwys canllawiau i Gymru'n benodol.



Ffigur 1. Y broses Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol (o ganllawiau polisi Llywodraeth Cymru 2017)

ii. Pam y mae angen newid?

3.153. Mae ymchwil academaidd (megis Brunt et al 2016, Barnes et al 2018 a Brunt and Jones 2019 ac ymchwil heb ei chyhoeddi a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan Brifysgol Abertawe (Seller 2019)) wedi dangos nad yw'r gyfundrefn Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol yng Nghymru yn gweithredu mewn modd mor effeithiol ag y gallai, ac mae wedi amlygu'r angen am ymagwedd fwy rhagweithiol ac ataliol sy'n canolbwyntio ar iechyd cyhoeddus. Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson ag asesiadau diweddar o'r broses Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol yn

Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â materion a godwyd â Llywodraeth Cymru gan awdurdodau lleol, sefydliadau trydydd sector a'r cyhoedd, ar lafar a thrwy ymatebion i ymgynghoriad.

3.154. Ar adeg cyflwyno'r ddogfen hon, roedd 44 o Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ar draws Cymru, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn bodoli ers dros 5 mlynedd er datblygu cynlluniau gweithredu, ac er yr ymdrechion i leihau crynodiadau. Mae hyn oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys yr isod:

- mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol yn amwys, ac nid yw'n adlewyrchu twf y disgwyliadau a'r uchelgais mewn perthynas ag ansawdd aer yn lleol;
- nid oes gan awdurdodau lleol reolaeth dros yr holl ddulliau posibl o fynd i'r afael â materion ansawdd aer (ee mae'r problemau'n gysylltiedig â llwybrau trafnidiaeth pwysig); a
- chyfyngiadau ariannol a chyfyngiadau ar adnoddau staff o fewn timau iechyd amgylcheddol awdurdodau lleol.

3.155. Drwy gyfrwng y Ddeddf hon rydym wedi gwella deddfwriaeth Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn yn fwy effeithiol wrth wella ansawdd aer yn lleol. Cefnogir y fframwaith deddfwriaethol newydd hwn gan ganllawiau diwygiedig, dulliau newydd o gyllido a threfniadau gweithio cydweithredol i roi cymorth i awdurdodau lleol. Ein nod, drwy gyfuniad o newid polisi a newid y ddeddfwriaeth, yw sicrhau bod Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol yn rhywbeth ataliol, rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar gael yr ansawdd aer ymarferol orau er mwyn diogelu iechyd cymunedau ac amgylcheddau lleol, yn hytrach na chanolbwyntio'n bennaf ar gydymffurfedd deddfwriaethol.

3.156. Rydym yn cydnabod bod awdurdodau lleol wedi gweithio'n barhaus i reoli ansawdd yr aer yn eu hardaloedd. Bydd y newidiadau hyn yn adeiladu mewn modd cadarnhaol ar eu hymdrechion hyd yn hyn, ac er mwyn darparu'r adnoddau y mae eu hangen i sicrhau y gall y broses Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol gyflawni'r uchelgais a'r disgwyliadau newydd hyn o ran ansawdd aer yn lleol.

iii. Amcanion polisi

3.157. Er mwyn cyflawni'r newid angenrheidiol a amlinellir uchod, mae'r Ddeddf yn diwygio'r fframwaith deddfwriaethol o ran Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol a nodir yn Rhan IV o Ddeddf 1995 drwy gryfhau'r geiriad ynghylch dyletswyddau presennol, a'i wneud yn gliriach. Bydd y Ddeddf yn adlewyrchu'r un newidiadau ag a ddygwyd i rym yn Lloegr drwy Ddeddf yr Amgylchedd 2021, sy'n eglurhau'r hyn a ddisgwylir gan awdurdodau lleol mewn perthynas ag adrannau 82–85 o Ddeddf 1995. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno dau ddiwygiad pellach i'r fframwaith deddfwriaethol:

- Gofyniad cliriach ar awdurdodau lleol i gynnal adolygiad blynyddol o ansawdd yr aer.
- Gofyniad bod rhaid i Gynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer gynnwys rhagamcan o ddyddiad cydymffurfio y mae rhaid cytuno â Gweinidogion Cymru arno.

Esbonnir y ddau ddiwygiad hyn yn fanylach isod.

Cyflwyno gofyniad cliriach ar awdurdodau lleol i gynnal adolygiad blynyddol o ansawdd yr aer

3.158. Mae Deddf 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu ansawdd yr aer 'o bryd i'w gilydd'. Mae'r geiriad hwn yn amwys ac mae angen fframwaith deddfwriaethol cliriach i sicrhau y gellir cymryd camau rhagweithiol.

3.159. Mae'r Ddeddf yn diwygio adran 82 o Ddeddf 1995 â gofyniad clir bod rhaid i awdurdodau lleol adolygu ansawdd yr aer yn eu hardal bob blwyddyn galendr. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r broses sydd eisoes i'w chael yn yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol a amlinellir yn Ffigur 1 uchod.

Cyflwyno gofyniad bod rhaid i Gynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer gynnwys rhagamcan o ddyddiad cydymffurfio y mae rhaid cytuno â Gweinidogion Cymru arno

3.160. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu camau 'tuag at' gydymffurfedd. Dylid nodi dyddiadau ac amserlenni gweithredu sy'n dangos yn glir pryd yn fras y disgwylir lleihau'r crynodiadau. Mae nifer o awdurdodau lleol yn datblygu amrywiaeth eang o gamau gweithredu. Weithiau, fodd bynnag, ni fydd y cynllun i'w gweithredu yn ddigon eglur, a hynny oherwydd prinder cyllid ac adnoddau, neu oherwydd bod rhai ffynonellau o lygredd nad oes gan yr awdurdod reolaeth lwyr drostynt. O ganlyniad, gall Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer fod mewn grym am gyfnodau maith.

3.161. Mae diwygio adran 83 o Ddeddf 1995 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys rhagamcan o ddyddiad cydymffurfio y mae

rhaid cytuno â Gweinidogion Cymru arno, yn ceisio datrys y problemau hyn. Os yw'r awdurdod lleol wedi nodi camau gweithredu effeithiol, gydag amserlen berthnasol, er mwyn lleihau crynodiadau, yna dylai allu cynnig rhagamcan o ddyddiad cydymffurfio yn y Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer.

3.162. Drwy gytuno â Gweinidogion Cymru ar y rhagamcan hwn o ddyddiad cydymffurfio, darperir proses sicrwydd sydd hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ystyried a ellir defnyddio unrhyw ddulliau cenedlaethol i helpu'r awdurdod.

3.163. Ar ôl cyrraedd lefelau sy'n cydymffurfio â'r amcanion, mae darpariaethau'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir ei bod yn ofynnol cynnal y lefelau hynny.

3.164. Mae Deddf 1995 yn cynnwys pwerau cyfarwyddo, ac mae'r Ddeddf yn diwygio'r pwerau hyn er mwyn cynnwys y gallu i Weinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd pan fo awdurdod lleol wedi methu â gweithredu camau neu wedi methu â chydymffurfio yn ôl y rhagamcan heb reswm da. Bwriedir y pwerau cyfarwyddo hyn felly i'w defnyddio fel cam pan fetha popeth arall, a gwneir pob ymdrech i gefnogi awdurdodau lleol a gweithio'n gydweithredol â hwynt wrth ymgymryd â'r gwaith hwn.

3.165. Caiff polisi a chanllawiau technegol eu diweddaru i gefnogi awdurdodau lleol wrth gyflawni'r ddeddfwriaeth. Bydd hyn hefyd yn cynnwys trefniadau gweithio newydd rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a fydd yn darparu trefn er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n effeithio ar y dyddiad cydymffurfio.

iv. Diben y ddeddfwriaeth

3.166. Diben y ddeddfwriaeth yw diwygio Rhan IV o Ddeddf 1995 er mwyn cryfhau dyletswyddau awdurdodau lleol a'u gwneud yn gliriach.

3.167. Mae adran 82 wedi ei diwygio i wneud yn glir bod rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnal adolygiad o ansawdd yr aer, a bod rhaid i'r adolygiad hwn hefyd asesu a yw safonau ac amcanion ansawdd aer yn cael eu bodloni yn ystod pob blwyddyn galendr. Mae hyn yn dileu'r amwysedd yn y ddeddfwriaeth bresennol sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiadau 'o bryd i'w gilydd'.

3.168. Mae adran 83 wedi ei diwygio i wneud dyletswyddau awdurdodau lleol yn gliriach o ran Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer a Chynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer. Mae'r adran hon yn nodi gofynion ar gyfer proses Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer, gan gynnwys datblygu rhagamcan o ddyddiad cydymffurfio, a chyflwyno Cynlluniau Gweithredu i gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

3.169. Bydd adran 85 yn cael ei diwygio i amlinellu'r ffaith y gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol os byddant yn methu â gweithredu mesurau Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer erbyn y dyddiad penodedig, neu pan fyddant wedi methu â chydymffurfio erbyn y dyddiad a ragamcanwyd.

v. Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon?

3.170. Ar hyn o bryd, nid oes gan awdurdodau lleol afael ar yr holl ddulliau y mae eu hangen arnynt er mwyn gwella ansawdd yr aer yn eu hardaloedd. Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn darparu mecanweithiau clir y gall Llywodraeth Cymru eu defnyddio i gefnogi awdurdodau lleol wrth wella ansawdd yr aer yn lleol. Yn benodol, drwy gytuno â Gweinidogion Cymru ar ddyddiadau cydymffurfio Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, hwylusir ymagwedd fwy cydweithredol tuag at y gwaith o reoli unrhyw achosion pan fo trothwy'r amcanion cyfreithiol wedi'i basio. Gwneir hynny drwy sicrhau yr ystyrir unrhyw ddulliau y gallai Llywodraeth Cymru eu defnyddio i gefnogi awdurdodau lleol.

vi. Y risg os na wneir deddfwriaeth

3.171. Pe na ddiwygid fframwaith deddfwriaethol Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol, byddai hynny'n golygu y collid cyfle i sicrhau bod y gyfundrefn yn gweithio mewn modd effeithiol i wella ansawdd yr aer. Mae'n debygol y byddai'r sefyllfa yn aros fel y mae, ac y byddai Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn bodoli am gyfnodau maith. Byddai unrhyw newidiadau i ganllawiau statudol ac unrhyw adnoddau ychwanegol yn cael eu cyfyngu gan y fframwaith deddfwriaethol presennol. Nid yw'r fframwaith hwnnw'n adlewyrchu'r uchelgais a'r disgwyliadau newydd o ran rheoli ansawdd aer yn lleol.

Rheoli Mwg

i. Y cefndir

3.172. Deddf Aer Glân 1993 (DAG 1993) yw prif ddeddfwriaeth rheoli mwg y DU, ac mae'n darparu fframwaith ar gyfer rheoli'r llygredd a ddaw o losgi tanwydd solet yn ddomestig.

3.173. Nod Deddf Aer Glân 1993 yw rheoli allyriadau mwg, graean, llwch a mygdarth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys safleoedd diwydiannol, ffwrneisi a chyfarpar a thanwydd a ddefnyddir dan do, megis llosgyddion coed, stofiau, boeleri, ffwrneisi a lleoedd tân. Mae'n gwneud hyn yn rhannol drwy wneud darpariaeth ar gyfer dynodi ardaloedd rheoli mwg. O fewn ardal rheoli mwg, mae'n drosedd allyrru mwg o simnai adeilad (gan gynnwys safleoedd domestig neu ddiwydiannol, neu fangreoedd preswyl) oni bai fod defnyddio'r tanwydd wedi'i awdurdodi, neu fod dyfais wedi'i hesemptio i'w defnyddio mewn ardal rheoli mwg.

3.174. Roedd Atodlen 12 i Ddeddf yr Amgylchedd 2021 yn diwygio Rhan III o DAG 1993 (Atodlen 1A i DAG 1993), o ran Lloegr yn unig, er mwyn gosod cosbau ariannol sifil yn lle cosbau troseddol pan fo mwg yn cael ei allyrru o simnai o fewn ardal rheoli mwg.

3.175. Ar hyn o bryd, ceir ardaloedd rheoli mwg ar draws pedwar awdurdod lleol, sef Sir y Fflint, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam.

3.176. Rhagwelwn gynnydd o ran llosgi coed yn ddomestig o ganlyniad i'r argyfwng ynni presennol. Mae'r Stove Industry Alliance wedi adrodd (dolen yn Saesneg yn unig) bod gwerthiant stofiau llosgi coed wedi cynyddu 40% yn ail chwarter 2022 (rhwng Ebrill a Mehefin) o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Un ffordd o leihau effaith y cynnydd hwn fydd cryfhau deddfwriaeth rheoli mwg a chefnogi hynny drwy roi cyngor i sicrhau bod defnyddwyr presennol a defnyddwyr newydd yn llosgi tanwydd yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl.

ii. Pam y mae angen newid?

3.177. Mae angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau i leihau allyriadau. Mae'r Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach wedi ymrwymo i lwybr 10 mlynedd tuag at sicrhau aer glanach. Mae rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd fodloni targedau cyfreithiol rwymol presennol y DU o ran lleihau allyriadau, gan gynnwys $PM_{2.5}$. Rhaid i'r Llywodraeth hefyd fod yn barod i fodloni unrhyw dargedau lleihau allyriadau a bennir gan Weinidogion Cymru yn y dyfodol.

3.178. Yn ôl adroddiad y Rhestrau Llygryddion Aer ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon: 2005–2020 (ar gael yn Saesneg yn unig), amcangyfrifir mai llosgi tanwyddau solet yn ddomestig ac yn

fasnachol yw'r ffynhonnell fwyaf o $PM_{2.5}$ yng Nghymru. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r cynnydd yn y nifer o stofiau llosgi coed sy'n cael eu gosod mewn cartrefi drwy'r wlad. Gweler y ffigur isod.

Ffigur 2 – Allyriadau $PM_{2.5}$ yng Nghymru



3.179. Wrth ddiwygio'r gyfundrefn rheoli mwg, gan gynnwys dileu'r amddiffyniadau sy'n llesteirio gorfodaeth, bydd yn haws i awdurdodau lleol fynd i'r afael yn gynt â mwg a allyrrir o fewn eu Hardaloedd Rheoli Mwg. Bydd cosbau ariannol sifil yn ffordd fwy cymesur ac effeithiol o gosbi. Caiff y rhain eu cyfuno â chanllawiau statudol a dulliau cyfathrebu effeithiol i annog newid ymddygiad er mwyn gostwng lefelau allyriadau. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad o gosbau sifil am droseddau amgylcheddol yn 2015. Yn ôl yr adolygiad, mae cosbau sifil yn gwella cydymffurfedd ac yn cynnig dull effeithiol a theg o orfodi, gan leihau'r perygl o niweidio'r amgylchedd a rhwystro niwed rhag digwydd neu barhau.

iii. Amcanion polisi

3.180. Amcan Llywodraeth Cymru yw gwella'r modd y caiff deddfwriaeth rheoli mwg ei defnyddio a'i gweithredu, er mwyn lleihau llygredd yn yr aer er budd cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

3.181. Cynigiwn wneud hyn mewn tair ffordd:

- disodli'r drosedd bresennol, sef allyrru mwg o simnai mewn Ardal Rheoli Mwg, a rhoi cyfundrefn o gosbau sifil yn ei lle. Mae hyn yn cynnwys dileu amddiffyniadau statudol sy'n llesteirio gorfodaeth;
- darparu canllawiau rheoli mwg i awdurdodau lleol; a
- dileu costau addasu penodol a allai atal sefydlu ardaloedd rheoli mwg yn y dyfodol.

3.182. Bydd y Bil yn cyflwyno cosbau ariannol sifil yn lle'r cosbau troseddol presennol mewn perthynas ag allyrru mwg mewn Ardal Rheoli Mwg yng Nghymru, a bydd awdurdodau lleol yn gallu codi a chasglu'r symiau hyn. Mae eithriadau yn Neddf Aer Glân 1993 i'r sancsiynau troseddol am allyrru mwg wrth ddefnyddio dyfais neu danwydd sydd wedi'i awdurdodi gan Weinidogion Cymru. Maent ynrhwystro awdurdodau lleol rhag mynd i'r afael â llosgi domestig ac felly nid yw'r Ddeddf yn ailgreu'r eithriadau hyn mewn perthynas â'r cosbau ariannol sifil.

3.183. Mae'r cosbau troseddol presennol yn anodd eu gweinyddu ac anaml y byddant yn arwain at erlyniad. Nid oes gan awdurdodau lleol bŵer i fynd i mewn i eiddo, felly'n aml ni allant gasglu digon o dystiolaeth. Bydd y gyfundrefn cosbau sifil yn darparu cosb fwy cymesur ac effeithiol na'r un bresennol, er mwyn canfod a mynd i'r afael â phroblemau ansawdd aer cyn gynted â phosibl. Byddai troseddau yn dal yn gymwys i ddarpariaethau eraill o dan Ran III o Ddeddf Aer Glân 1993. Mae'r ddarpariaeth newydd hon yn adlewyrchu'r un effaith ag Atodlen 1A i Ddeddf Aer Glân 1993, sy'n gymwys o ran Lloegr ar hyn o bryd.

3.184. Drwy ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol orfodi Ardaloedd Rheoli Mwg, rhagwelwn mai prinhau y bydd achosion o dorri'r rheolau. Bydd swyddogion yn esbonio pam mae rheolau'n gallu cael eu torri, yn annog pobl i newid eu hymddygiad, ac yn y pen draw yn rhoi cosbau ariannol lle bo'n briodol. Gobeithir y bydd yr ymagwedd hon, a'i phwyslais ar gynghori, yn arwain at gydymffurfio heb fod angen am gosb ariannol, er y bydd y dewis hwnnw ar gael i awdurdodau lleol os na ddilynir y cyngor.

3.185. Mae'r Ddeddf yn dileu'r ddarpariaeth ynglŷn ag ad-dalu costau ar gyfer cartrefi a adeiladwyd cyn 1964 pan fydd ardal rheoli mwg newydd yn cael ei chreu, neu pan fydd ardal rheoli mwg bresennol yn cael ei haddasu. Ystyrir bod y costau hyn yn rhwystr o fewn y ddeddfwriaeth sy'n atal estyn ardaloedd rheoli mwg ledled Cymru, a gallai arwain at faich ariannol a gweinyddol ar awdurdodau lleol.

3.186. Yn wahanol i gynlluniau eraill sydd ar gael er mwyn cynnig cymorth i gartrefi mewn perthynas â gwres, ynni a thanwydd, nid yw'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i feini prawf gael eu cymhwyso (fel profion modd neu asesiadau priodoldeb). Felly, gallai cadw'r ddarpariaeth hon arwain at ganlyniadau anfwriadol lle mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i osod rhagor o stofiau tanwydd solet newydd neu i ddisodli hen stofiau o'r fath, pan fydd mathau eraill o wresogi ar gael. Gallai hyn arwain at gynyddu allyriadau.

3.187. Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu a ddylid creu ardal rheoli mwg newydd, fel rhan o'u dull cyfannol ar gyfer rheoli ansawdd aer. Maent yn gwybod lle mae lefelau llygredd yn uchel ac yn gallu cymryd camau pendant i wella ansawdd aer yn yr ardaloedd hyn.

3.188. Fodd bynnag, os nad yw'r awdurdod lleol yn cymryd camau priodol i leihau llygredd mewn ardal lle mae llygredd yn arbennig o uchel, caiff Gweinidogion Cymru ymyrryd a'i gyfarwyddo i greu ardal rheoli mwg. Cyflwyno cyfarwyddyd yw'r opsiwn olaf, a'r dull a ffefrir fydd gweithio ar y cyd gyda'r awdurdod lleol.

3.189. Bydd y Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag Ardaloedd Rheoli Mwg awdurdodau lleol. Mae unrhyw ganllawiau a gyhoeddir yn debygol o ymdrin â materion yn ymwneud â rhoi'r gyfundrefn cosbau sifil newydd ar waith, a phwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth ac o effeithiau arferion llosgi gwael, er mwyn annog gwell ymddygiad cyn gorfod defnyddio unrhyw gosbau. Bydd unrhyw ganllawiau yn ddarostyngedig i ymgynghoriad, er mwyn clywed barn unrhyw bartïon sydd â buddiant a barn awdurdodau lleol y bydd unrhyw newidiadau yn effeithio arnynt. Bydd llwybr i broses apelio er mwyn i unigolion allu anghytuno ag unrhyw gosb sifil.

iv. Diben y ddeddfwriaeth

3.190. Diben y darpariaethau rheoli mwg o fewn y Ddeddf yw ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol fynd i'r afael ag achosion o allyrru mwg mewn Ardaloedd Rheoli Mwg er mwyn gostwng llygredd yn yr aer er budd cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Gwneir hyn drwy ddiwygio Deddf Aer Glân 1993.

3.191. Yn achos darpariaethau rheoli mwg o dan Ran III o Ddeddf Aer Glân 1993, mewnosodwyd newidiadau iddynt gan Atodlen 12 i Ddeddf yr Amgylchedd 2021, ond i Loegr yn unig yr oedd y newidiadau hyn yn gymwys. Bydd y Ddeddf hon yn adlewyrchu nifer o'r darpariaethau hyn ar gyfer Cymru.

3.192. Y prif newid a gyflwynir yn y Ddeddf yw'r newid o gosbau troseddol i gosbau sifil am y drosedd o allyrru mwg o simnai adeilad mewn Ardal Rheoli Mwg. Mae Deddf Aer Glân yn darparu amddiffyniadau neu eithriadau rhag erlyniad, gan gynnwys defnyddio dyfais esempt neu danwydd awdurdodedig, sy'n golygu bod gorfodi'r gyfundrefn rheoli mwg yn eithriadol o anodd. Nid oes gan awdurdodau lleol bŵer i fynd i mewn i annedd breifat pan fo mwg wedi'i allyrru o'r simnai, ac o'r herwydd mae'n anodd iawn casglu digon o dystiolaeth, sy'n rhwystr i'r broses orfodi. Mae'r Ddeddf yn dileu'r amddiffyniadau a'r eithriadau hyn, sy'n adlewyrchu'r ddarpariaeth bresennol yn Lloegr.

3.193. Bydd angen i awdurdodau lleol ganolbwyntio ar hysbysu pobl a'u hannog i newid eu hymddygiad, gan droi at roi cosbau ariannol sifil pan fetha popeth arall. Gellir rhoi cosbau rhwng £175 a £300, a bydd hyn felly yn adlewyrchu ystod y cosbau cyfredol yn Lloegr.

3.194. Mae Atodlen 2 i Ddeddf Aer Glân 1993 yn darparu bod awdurdodau lleol yn ad-dalu perchnogion neu feddiannwyr hen anheddau preifat, o dan rai amgylchiadau, am wariant a wneir er mwyn osgoi torri adran 20 o'r Ddeddf honno. Mae'r Bil yn dileu'r ddarpariaeth hon, i annog awdurodau lleol i sefydlu ardaloedd rheoli mwg newydd.

3.195. Mae'r darpariaethau ym mharagraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf Aer Glân Cymru 1993, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ad-dalu'r awdurdod lleol o dan rai amgylchiadau, yn cael eu cadw.

3.196. Bydd Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi canllawiau ar reoli mwg i awdurdodau lleol, a gallant eu hadolygu o dro i dro er mwyn caniatáu rhagor o hyblygrwydd.

3.197. Rhoddir y newidiadau i ddeddfwriaeth rheoli mwg o fewn adrannau 19–21 o'r Ddeddf, fel y'u nodir isod.

3.198. Adran 19: Rheoleiddio mwg a thanwydd mewn Ardaloedd Rheoli Mwg. Mae hyn yn mewnosod adrannau 19E–19H yn Neddf Aer Glân 1993 (ac mae'r adrannau hyn yn cymryd lle adrannau 20–23 a ddiddymwyd). Bydd adrannau 19A–19D, sy'n gymwys i Loegr, yn dod yn union o flaen yr adrannau newydd sy'n benodol i Gymru, gan roi gwell eglurder o fewn y llyfr statud.

- 19E Cosb am allyrru mwg mewn Ardaloedd Rheoli Mwg yng Nghymru. Mae hyn yn gwneud Atodlen 1A o Ddeddf Aer Glân 1993 yn gymwys i Gymru.
- 19F Caffael a gwerthu tanwydd anawdurdodedig: Cymru. Mae'r adran hon yn ailddatgan adran 23 o Ddeddf Aer Glân 1993, gyda'r addasiadau sy'n angenrheidiol i alluogi symud tuag at system o gosbau sifil i reoleiddio allyriadau mwg.
- 19G Dehongliad. Mae hyn yn esbonio ystyr 'lle tân esempt' a 'tanwydd awdurdodedig' at ddiben adran 18F.
- 19H Esemptiadau'n ymwneud ag ardaloedd penodol yng Nghymru. Mae'r adran hon yn ailddatgan adran 22 o Ddeddf Aer Glân 1993 i Gymru.

3.199. Adran 20: Canllawiau i awdurdodau lleol mewn perthynas ag Ardaloedd Rheoli Mwg. Drwy gyfrwng Deddf yr Amgylchedd 2021, mewnosododd Llywodraeth y DU adran 28A newydd yn Neddf Aer Glân 1993 er mwyn i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a lunnir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ond roedd yr adran hon yn gymwys o ran Lloegr yn unig. Arddelir ymagwedd debyg ar gyfer Cymru, a bydd y ddarpariaeth hon yn diwygio Rhan III o Ddeddf Aer Glân 1993 i osod dyletswydd ofynnol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

3.200. Adran 21: Darpariaeth bellach yn ymwneud â rheoli mwg. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n diwygio Deddf Aer Glân 1993 i ddarparu'r newidiadau a ddisgrifir uchod.

v. Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon?

3.201. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am orfodi'r ddeddfwriaeth, ac mae tystiolaeth anecdotaidd wedi dangos bod hyn yn anodd ei gyflawni'n ymarferol. Yn aml, nid yw cartrefi a busnesau o fewn Ardal Rheoli Mwg yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth.

3.202. At hynny, nid ystyriwn fod defnyddio cosbau troseddol yn ddull cymesur ac effeithiol o gosbi mewn perthynas â busnesau a chartrefi sy'n allyrru mwg mewn Ardal Rheoli Mwg. Mae hyn wedi arwain at lefelau isel iawn o orfodaeth, gan roi rhwydd hynt i losgi tanwyddau solet, a hynny'n cael effaith andwyol ar ansawdd yr aer o fewn yr ardal leol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad o gosbau sifil am droseddau amgylcheddol yn 2015. Yn ôl yr adolygiad, mae cosbau sifil yn gwella cydymffurfedd ac yn darparu dull effeithiol a theg o orfodi, gan leihau'r perygl o niweidio'r amgylchedd a rhwystro niwed rhag digwydd neu barhau. Bydd cosbau troseddol yn cael eu disodli gan fath o gosb sifil (cosbau ariannol) mewn perthynas ag allyrru mwg o gartrefi a busnesau mewn Ardal Rheoli Mwg.

3.203. Bydd modd i awdurdodau lleol roi cosbau ariannol sifil, yn lle'r cosbau troseddol presennol, pan allyrrir mwg o simnai o fewn Ardal Rheoli Mwg. Hwn fydd y cam olaf un i'w ddefnyddio pan fetha popeth arall, fodd bynnag, megis mewn achos o wrthod cydymffurfio. Pennir y swm gan yr awdurdod lleol, ond rhaid iddo fod rhwng £175 a £300. Disgwylir i awdurdodau lleol ystyried amrywiaeth o opsiynau, gan gynnwys addysgu, rhannu arferion gorau a dulliau eraill i ysgogi newid ymddygiad, cyn troi at ddefnyddio cosbau ariannol.

3.204. Rhwystr sylweddol ar gyfer awdurdodau lleol wrth greu ardaloedd rheoli mwg newydd yw ad-dalu costau addasu ar gyfer cartrefi a adeiladwyd cyn 1964. Drwy ddileu'r risg bosibl o orfod talu'r costau hyn, mae'n bosibl y bydd awdurdodau lleol yn fwy tueddol o ddefnyddio'r ddeddfwriaeth hon yn gyfrwng i wella ansawdd aer lleol yn eu hardal.

3.205. Bydd canllawiau newydd yn cefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt weithredu'r fframwaith deddfwriaethol newydd, gan ystyried swyddogaeth Ardaloedd Rheoli Mwg yn rhan o'u hymagwedd at reoli ansawdd yr aer yn lleol, a chan weithio â chymunedau i roi'r arferion gorau ar waith.

vi. Y risg os na wneir deddfwriaeth

3.206. Byddai dal ati â'r sefyllfa gyfredol o ran y fframwaith deddfwriaethol presennol yn debygol o olygu na fyddai ffordd o wella gallu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â phroblem allyriadau mwg o simneiau mewn Ardaloedd Rheoli Mwg. Yn sgil hynny, gallai mwg o gartrefi a busnesau o fewn yr Ardaloedd Rheoli Mwg gyfrannu at ansawdd aer gwael yn yr ardal leol.

3.207. Pe bai'r costau addasu ar gyfer cartrefi a adeiladwyd cyn 1964 yn cael eu cadw, gallai'r baich ar y gymdeithas o ran cost a'r effeithiau negyddol ar ansawdd aer gynyddu.

3.208. Mae llawer o dystiolaeth sy'n dangos y manteision i'r amgylchedd, i fyd natur ac i iechyd pobl os llwyddir i ostwng y risg o greu problemau i iechyd pobl, problemau hinsawdd a phroblemau â'r ecosystem sy'n deillio o lygredd mwg. Pe collid y cyfle i gryfhau'r gyfundrefn rheoli mwg, gallai arwain at gynnydd yn y costau iechyd a'r costau cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer gwael.

Allyriadau Cerbydau: Cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd

i. Y cefndir

3.209. Mae Parthau Aer Glân, sydd hefyd weithiau'n dwyn yr enw Parthau Allyriadau Isel, yn cynnig dull sylweddol o helpu i gyflawni'n huchelgais, sef mynd i'r afael ag ansawdd aer gwael er budd iechyd pobl ac iechyd yr amgylchedd. Maent hefyd yn gymorth i gyrraedd targedau a therfynau ansawdd aer. Mewn Parth Aer Glân sy'n codi tâl, codir tâl ar rai gyrwyr i fynd i mewn i ardal ddiffiniedig os nad yw eu cerbyd yn bodloni safonau allyriadau penodedig. Gellir cyflwyno cynlluniau o'r fath er mwyn mynd i'r afael â lefelau uchel o lygredd aer, i gefnogi pobl i newid eu hymddygiad, ac i annog pobl i beidio â defnyddio cerbydau mwy budr. Mae nifer o drefi a dinasoedd yn Lloegr wedi cyflwyno Parthau Aer Glân sy'n codi tâl er mwyn ceisio atal lefelau nitrogen deuocsid (NO_2) rhag mynd yn uwch na'r trothwyon statudol.

3.210. Yn 2018 cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynghylch Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru. Aeth y Fframwaith drafft ati i fanylu ar yr ystod o faterion i awdurdodau lleol eu cadw mewn golwg wrth ystyried Parth Aer Glân. Mae'r Fframwaith yn disgrifio Parth Aer Glân fel "Ardal darged lle caiff amrywiaeth o gamau cydgysylltiedig eu cymryd gyda'r bwriad o sicrhau, yn yr amser byrraf posibl, lleihad sylweddol yng nghysylltiad y cyhoedd a'r amgylchedd â llygryddion niweidiol a gludir yn yr aer o bob ffynhonnell." Darganfuwyd bod traffig ffyrdd yn un o ffynonellau arwyddocaol nifer o lygryddion aer. Yn y bôn, felly, byddai disgwyl i Barth Aer Glân gael ei lunio o gwmpas cyfyngu ar fynediad traffig, naill ai drwy osod gwaharddiad llwyr ar gerbydau hŷn a mwy budr, neu drwy ganiatáu i bob cerbyd fynd i mewn i Barth Aer Glân ond gan godi tâl ar yrwyr pob cerbyd ond y rhai glanaf.

3.211. Mae Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 yn gosod gwerthoedd terfyn cyfreithiol rwymol ar gyfer nifer o'r prif lygryddion yn yr aer. Yng Nghymru, rydym wedi methu â bodloni'r terfynau ar gyfer NO_2 yng nghyffiniau nifer o'n ffyrdd.

3.212. Mae'n Cynllun atodol ni i gynllun y DU ar gyfer Mynd i'r Afael â chrynodiadau o nitrogen deuocsid wrth ymyl y ffordd 2017 yn disgrifio maint y broblem yng Nghymru, ac yn nodi'r camau rydym yn eu cymryd i sicrhau cydymffurfedd cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn cynnwys ystyried Parthau Aer Glân pan fo potensial ganddynt i gyflawni'r gofynion cyfreithiol. Hyd yma, nid yw'r rhain wedi cael eu nodi fel mesurau cynllun gweithredu a allai sicrhau cydymffurfedd â'r gyfraith yn unman yng Nghymru. Ceir Mesurau Rhagofalus a Ddargedwir, fodd bynnag, ar yr M4 ger Casnewydd rhwng Cyffyrdd 25 a 26, ac ar yr A470 rhwng Glan-bad a Phontypridd. Yno y prif fesurau

yw gostwng y terfyn cyflymder i 50mya. Os na fydd y terfynau cyflymder yn sicrhau cydymffurfedd parhaus hirdymor ar ôl eu gostwng, yna bydd Parthau Aer Glân yn cael eu hystyried yn y mannau hyn. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno cynlluniau o'r fath ar ffyrdd yng Nghymru.

3.213. Mae'r data blynyddol cyfartalog yn y mannau uchod wedi dangos bod y lefelau'n cydymffurfio (gan ddefnyddio ffactorau cenedlaethol i addasu o ran tuedd) â gwerthoedd terfyn yn ystod 2020 a 2021. Roedd lefelau traffig yn is na'r arfer yn sgil pandemig COVID, fodd bynnag, ac erys rhywfaint o ansicrwydd o ran cynnydd mewn traffig yn y dyfodol, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar grynodiadau NO_2 wrth ymyl y ffordd.

3.214. Yn ôl dadansoddiad llywodraeth y DU (fersiwn Saesneg yn unig), o ran modelu ar lefel genedlaethol nodwyd mai'r un mesur sy'n debygol o gyflawni gwerthoedd terfyn NO_2 statudol mewn trefi a dinasoedd yn yr amser byrraf posibl yw Parthau Aer Glân sy'n codi tâl. Mae'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth, sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd, yn datgan: "byddwn yn ystyried pwerau presennol i gyflwyno cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd er mwyn sicrhau y gellir defnyddio'r rhain yn llawn lle mae achos dros wneud hynny, megis lle mae tystiolaeth yn dangos mai Parth Aer Glân fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â llygredd aer."

ii. Pam y mae angen newid?

3.215. Mae'n hanfodol bod gan Weinidogion amrywiaeth effeithiol o bwerau i fynd i'r afael â llygredd traffig ffyrdd. Gosododd Llwybr Newydd, strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021, lwybr clir a oedd yn rhoi blaenoriaeth i bobl ac i newid yn yr hinsawdd, ac yn eu rhoi wrth graidd ein system drafnidiaeth. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu'r angen am system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac ac effeithlon. Nodir tair prif flaenoriaeth, fel a ganlyn:

- lleihau'r angen i deithio;
- sicrhau seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon; ac
- annog pobl i newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy.

3.216. Un uchelgais gan y strategaeth yw "gwella ansawdd aer a lleihau'r sŵn yn yr amgylchedd sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth". Mae'n cydnabod y gall fod gan y broses o godi "tâl teg a chyfartal ar ddefnyddwyr ffyrdd" ran i'w chwarae wrth annog pobl i "newid eu hymddygiad teithio a defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy carbon isel". Mae ein Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach yn nodi y gall "mesurau i reoli'r galw helpu i fynd i'r afael â thagfeydd, lleihau allyriadau sy'n llygru, a chefnogi teithio llesol a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus."

3.217. Er bod rhai pwerau eisoes i gyflwyno cynlluniau sy'n codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd yng Nghymru, drwy Ran III o Ddeddf Trafnidiaeth 2000, nid yw'r rhain ar hyn o bryd yn caniatáu i Weinidogion gyflwyno Parthau Aer Glân ar gefnffyrdd. Caniateir cyflwyno cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd yn yr amgylchiadau a ganlyn yn unig:

- pan fo'r ffordd yn cael ei chludo gan bont, neu pan fo'r ffordd yn mynd drwy dwnnel, sydd o leiaf 600 metr o ran hyd; neu
- pan fo awdurdod traffig lleol wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru wneud y cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd mewn cysylltiad â chynllun a gynigir ganddo.

3.218. Mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â hyn drwy ehangu ar yr amgylchiadau lle gellir cyflwyno cynllun codi tâl ar gefnffordd. Bydd hyn yn galluogi cynlluniau cefnffyrdd i fynd i'r afael â mannau lle mae llygredd aer yn broblem, gan ganiatáu iddynt fod yn gyfwerth â phwerau awdurdodau lleol. Cynigir hefyd y bydd yn bosibl defnyddio unrhyw incwm a ddaw drwy gynlluniau o'r fath er mwyn gwario ar ystod ehangach o fesurau, heb eu cyfyngu i bolisïau neu gynigion trafnidiaeth yn unig. Gall hyn fod yn gymorth pellach i wella ansawdd yr aer, ac i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â therfynau a thargedau statudol.

iii. Amcanion polisi

3.219. Ein hamcan polisi yw cryfhau pwerau Gweinidogion Cymru i fynd i'r afael ag ansawdd aer gwael yng nghyffiniau cefnffyrdd. Bydd hynny o fudd i ddefnyddwyr ffyrdd, yn ogystal ag i'r rhai sy'n byw, yn gweithio, yn mynd i'r ysgol neu fel arall yn treulio amser yn agos at ffyrdd sy'n ddarostyngedig i'r pŵer newydd. Byddai buddion i'r amgylchedd naturiol hefyd, oherwydd lefelau allyriadau is.

3.220. Mae'r pwerau presennol yn rhy gyfyngedig, ac nid ydynt yn galluogi Gweinidogion Cymru i gymryd camau wedi'u targedu, pan fo angen, i leihau lefelau llygredd aer a achosir gan allyriadau ar gefnffyrdd (hy Parth Aer Glân sy'n codi tâl).

3.221. Yr amcan polisi yw rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gymryd camau sylweddol i fynd i'r afael â mannau lle mae llygredd aer yn broblem ar y rhwydwaith cefnffyrdd pan fo'r dystiolaeth yn dangos mai'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau allyriadau llygredd ar ffyrdd fyddai creu Parth Aer Glân. Byddai hyn yn datrys bwlch arwyddocaol ym mhwerau deddfwriaethol presennol Gweinidogion Cymru, gan roi iddynt bwerau cymharol i rai awdurdodau traffig lleol.

3.222. Un o'r prif amcanion polisi ar gyfer y darpariaethau hyn yn y Ddeddf yw mynd i'r afael hefyd â'r cyfyngiad presennol ar ddefnyddio enillion net o'r cynlluniau codi tâl, sydd ar hyn o bryd "ar gael at y dibenion a ganlyn yn unig: at ddiben hwyluso cyflawni, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, unrhyw bolisïau neu gynigion yn ymwneud â

thrafnidiaeth.” Gallai’r cyfyngiad hwn gyfyngu’n ormodol ar yr amrywiaeth o fesurau y gellid eu cymryd i fynd i’r afael ag achosion o grynodiadau uchel ar ymyl y ffordd mewn mannau lle mae llygredd aer yn broblem. Er mwyn sicrhau y gellir cefnogi amrywiaeth eang o fesurau drwy godi tâl, ni chymhwysir y cyfyngiad yn achos cynlluniau ar gyfer lleihau llygredd aer. Bydd hyn yn galluogi buddsoddiad mewn amrywiaeth lawer ehangach o fesurau, gan gynnwys mesurau gwella ansawdd aer nad ydynt, o reidrwydd, yn gysylltiedig â thrafnidiaeth. Drwy hyn gall y Gweinidogion ddewis targedu arian tuag at fesurau a fydd yn mynd i’r afael yn uniongyrchol â ffynhonnell crynodiadau uchel o lygryddion mewn lleoliadau penodol. Bydd hynny yn ei dro yn dileu’r angen am Barthau Aer Glân dros amser.

3.223. Er mwyn cefnogi ffocws ar wella ansawdd aer wrth benderfynu ynghylch dyraniadau cyllideb, bydd yn ofynnol i Weinidogion osod datganiad gerbron y Senedd a fydd yn cynnwys amcangyfrif o’r enillion net, sut y cynigir defnyddio’r enillion, a’r effaith y disgwylir i’r cynigion hyn ei chael ar ansawdd aer. Wrth ystyried yr effaith ar ansawdd aer, dylid cynnwys potensial mesurau i wella mynediad at ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy sy’n gallu gwella ansawdd aer drwy leihau llygredd o allyriadau cerbydau. Er enghraifft, drwy gynyddu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol i ddarparu dewisiadau gwirionedd ar gyfer teithwyr a all eu helpu i deithio mewn modd mwy cynaliadwy.

3.224. Bydd yn bwysig dangos y byddai cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd at ddiben gwella ansawdd yn becynnau ‘taliadau a manteision’ sy’n gallu sicrhau gwelliannau sy’n rhoi manteision gweladwy i’r cyhoedd.

iv. Diben y ddeddfwriaeth

3.225. Diben darpariaethau’r Ddeddf yw sicrhau y caiff Gweinidogion Cymru greu cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd mewn amgylchiadau ehangach, er mwyn gwella ansawdd aer yng nghyffiniau cefnffyrdd.

3.226. Mae’n gwneud hyn drwy greu pwerau newydd, ehangach i Weinidogion Cymru i sefydlu cynlluniau o’r fath.

3.227. Fel y’i nodir ym mharagraff 3.217, o dan adran 167 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000, fel y mae wedi’i drafftio ar hyn o bryd, ni chaiff Gweinidogion Cymru ond sefydlu cynllun codi tâl yn yr amgylchiadau a ganlyn:

- pan fo’r ffordd yn cael ei chludo gan bont, neu yn mynd trwy dwnnel, sydd o leiaf 600 metr o hyd; neu
- pan fo awdurdod traffig lleol wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru wneud y cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd mewn cysylltiad â chynllun a gynigir ganddo.

3.228. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth newydd yn adran 22(2)(b) sy'n diwygio adran 167 o'r Ddeddf Trafnidiaeth ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu cynllun at ddiben lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer yng nghyffiniau'r gefnffordd y bydd y cynllun yn gymwys iddi.

3.229. Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud darpariaethau mewn cysylltiad â defnyddio enillion net (h.y. yr arian sy'n weddill ar ôl didynnu costau gweithredu cynllun codi tâl o'r refeniw a godir) ar gyfer cynlluniau a wnaed yn gyfangwbl, neu yn rhannol, at ddibenion ansawdd aer. Yn unol â pharagraff 14 o Atodlen 12 i Ddeddf Trafnidiaeth 2000, fel y'i mewnosodir gan baragraff 6 o Atodlen 2 i'r Ddeddf, ni fydd enillion net cynllun Parth Aer Glân yn cael eu cyfyngu i bolisïau a chynigion ym maes trafnidiaeth yn unig. Yn hytrach, caniateir eu cymhwyso yn fwy eang. Mae darpariaethau yn y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion osod datganiad yn y Senedd i nodi amcanestyniad o werth ariannol yr enillion net, yn ogystal â'r modd y bwriedir gwario'r rhain. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiad o'r effaith ddisgwyliedig (os o gwbl) ar ansawdd aer ar gyfer pob mesur y cynigir ei ariannu.

3.230. Er nad oes unrhyw ymrwymiad i gyflwyno Parthau Ansawdd Aer unrhyw le yng Nghymru ar hyn o bryd, mae nifer wedi cael eu cyflwyno, ac ar y gweill, mewn trefi a dinasoedd yn Lloegr. Cyflwynwyd y cynlluniau hyn oherwydd bod y gwaith modelu yn dangos y gallant leihau allyriadau llygrol o gerbydau yn sylweddol a chynorthwyo i fynd i'r afael ag achosion o fethu â chydymffurfio â therfynau NO_2 statudol. Nodwyd, trwy gyfrwng gwaith modelu a gynhaliwyd ar lefel y DU gan Defra, mai Parthau Aer Glân sy'n cynnwys trefniadau codi tâl yw'r cam a fydd yn cyflawni terfynau NO_2 statudol mewn trefi a dinasoedd yn yr amser byrraf bosibl. Hyd yma, nid yw'r camau a gymerwyd i sicrhau y cydymffurfir â'r terfynau hyn yng Nghymru wedi cynnwys Parthau Aer Glân lle y codir tâl, ond gallai hynny newid yn y dyfodol.

3.231. Disgrifiwyd ein hagwedd, o ran polisi, at godi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, yn ogystal ag yn ein Cynllun Cyflawni Cenedlaethol drafft ar gyfer Trafnidiaeth. Mae'r olaf hwn yn nodi potensial cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd i "sicrhau newid mewn dulliau o deithio, helpu i gyflawni targedau lleihau carbon a chefnogi buddsoddiad mewn trafnidiaeth gynaliadwy". Mae'r Cynllun yn ymrwymo i wneud rhagor o waith er mwyn: "... datblygu fframwaith codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd teg, gan gynnwys sut y gall awdurdodau lleol fenthyca yn erbyn y ffrydiau refeniw hyn yn y dyfodol er mwyn ariannu gwelliannau trafnidiaeth; ystyried opsiynau amgen megis ardollau parcio ceir yn y gweithle ac ailddyrannu gofod ffyrdd."

v. Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon?

3.232. Bydd y newidiadau deddfwriaethol yn creu ystod mwy cyfartal o bwerau i gyflwyno cynlluniau codi tâl ar ffyrdd lleol ac ar gefnffyrdd er mwyn mynd i'r afael â mannau lle mae ansawdd aer yn broblem benodol.

3.233. I ategu'r darpariaethau newydd, cyhoeddir canllawiau yn nodi ein disgwyliadau ynghylch defnyddio'r pwerau sydd ar gael i gyflwyno Parthau Aer Glân ar ffyrdd lleol ac ar gefnffyrdd. Bydd y canllawiau yn cynorthwyo i wreiddio lefel o gysondeb, gan sicrhau bod disgwyliadau'n eglur ynghylch sut y defnyddir pwerau ledled y wlad yn unol â'n huchelgeisiau ym maes aer glân a thrafnidiaeth gynaliadwy.

vi. Y risg os na wneir deddfwriaeth

3.234. Heb y ddeddfwriaeth ni fydd modd i Weinidogion Cymru gyflwyno Parthau Aer Glân ar y rhwydwaith cefnffyrdd. O ganlyniad, ceir adnodd sylweddol na fyddai ar gael i fynd i'r afael â mannau lle mae llygredd aer yn broblem ar y rhwydwaith cefnffyrdd. Byddai hyn yn cyferbynnu â ffyrdd lleol lle mae pwerau eisoes yn bodoli sy'n caniatáu ar gyfer creu cynlluniau o'r fath.

3.235. Byddai angen ystyried mesurau amgen i fynd i'r afael â mannau lle mae llygredd aer yn broblem, a cheir risg na fyddai'r rhain mor effeithiol wrth fynd i'r afael â llygredd traffig. Golyga hyn y gallai'r cyhoedd ddod i gysylltiad â chrynodiadau uwch am gyfnodau hirach pe byddai camau lliniaru yn cael eu cyfyngu i fesurau llai effeithlon.

Allyriadau Cerbydau: Trosedd Segura Llonydd – Hysbysiadau Cosb Benodedig

i. Y cefndir

3.236. Mae injan sy'n segura pan fo'r cerbyd yn llonydd yn cyfrannu at allyriadau. Ceir cofnodion helaeth o effeithiau niweidiol llygredd aer a chânt eu nodi uchod.

3.237. Mae gan lywodraeth a'r byd academaidd ddiddordeb ers cyn amser mewn ymyriadau ym maes gwrthsegura. Dengys tystiolaeth fod angen cyfuno ymyriadau ym maes trafnidiaeth ffyrdd er mwyn cyflawni mwy o effaith o safbwynt gwella ansawdd aer. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod ymyriadau yn gweithio'n well fel pecyn o fesurau i fynd i'r afael â llygredd aer.

3.238. Gall mesurau gwrthsegura penodol fod yn fwyaf effeithiol o'u cynnwys mewn pecyn o fesurau gwahanol sy'n cyd-fynd â'i gilydd, pob un â'r diben o atal neu leihau llygredd aer. Yn y cyd-destun hwn, gall fod potensial i gronni gostyngiadau mewn allyriadau dros gyfnod o amser, ar draws ystod o wahanol fesurau a roddir ar waith gyda'i gilydd. Gwyddom fod llygredd aer yn cael effaith sylweddol ar iechyd. Hyd yn oed pan nad yw'r dystiolaeth o ba mor effeithiol yw ymyriad yn rhywbeth y gellir ei fesur yn fanwl gywir, ceir amrywiaeth eang o ymyriadau a all, gyda'i gilydd, leihau allyriadau, sicrhau y daw pobl i gysylltiad â llai o lygredd aer, a chyflawni manteision i iechyd y cyhoedd o'r herwydd. O ystyried hyn, bwriadwn gyhoeddi arweiniad ar wahân i'r Ddeddf o dan adran 88(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 gan nodi dulliau o roi mesurau gwrthsegura ar waith yn rhan o becyn o fesurau sy'n ategu'i gilydd â'r bwriad o wella ansawdd aer. Bydd yr arweiniad felly yn cefnogi ac yn ategu'r ddarpariaeth yn y Ddeddf sy'n ymwneud â segura gan gerbydau.

3.239. Mae'r gyfundrefn wrthsegura yn gymwys i briffyrdd cyhoeddus. Nodir y fframwaith deddfwriaethol presennol sy'n llywodraethu allyriadau i'r aer o gerbydau sy'n segura, yn rhannol, yn Rheoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2003, a ddaeth i rym ar 1 Mai 2003. Mae gan yr Alban a Lloegr eu rheoliadau cyfatebol eu hunain.

3.240. O dan reoliad 12(1) o Reoliadau 2003, gall rhywun sydd wedi'i awdurdodi at y diben hwnnw gan awdurdod lleol, ac sydd ag achos rhesymol i gredu bod gyrrwr cerbyd sy'n llonydd ar y ffordd yn cyflawni trosedd segura llonydd, ei gwneud yn ofynnol i'r gyrrwr ddiffodd yr injan. Yn unol â rheoliad 12(2) mae person sy'n peidio â chydymffurfio â chais i ddiffodd yr injan yn euog o drosedd ac yn agored ar euogfarn

ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,000 ar hyn o bryd).

3.241. Fe'i gelwir yn "tramgwydd segura llonydd" yn Rheoliadau 2003, a chaiff ei ddiffinio yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau hynny fel torri, neu fethiant i gydymffurfio â chymaint o reoliad 98 (diffodd peiriant pan yn llonydd) o Reoliadau Cerbydau Ffyrdd (Eu Hadeilwaith a'u Defnydd) 1986 (Rheoliadau 1986) sy'n ymwneud ag atal allyriadau nwyon llosg. Effaith rheoliad 98 o Reoliadau 1986 yw ei gwneud yn ofynnol i yrrwr cerbyd llonydd, yn ddarostyngedig i'r esemptiadau a restrir yn rheoliad 98(2), ddiffodd yr injan i atal allyriadau diangen.

3.242. Mae rheoliad 98(2) o Reoliadau 1986 fel y'u diwygiwyd, yn nodi ym mha amgylchiadau y caniateir i gerbydau fod yn llonydd â'r injan yn segura. Er enghraifft:

- Pan fo cerbyd yn llonydd oherwydd anghenraid y traffig (er enghraifft, wrth giwio ar gyfer goleuadau traffig);
- Pan fo injan yn segura er mwyn gallu olrhain a datrys nam; neu
- Pan fo'n ofynnol i'r injan fod yn segura er mwyn gyrru peiriannau ar gerbyd (i bweru peiriannau oeri, er enghraifft, neu offer cywasgu ar gerbyd sbwriel).

3.243. Mae rheoliad 7 o Reoliadau 2003 yn darparu y rhagnodir troseddau segura llonydd yn droseddau cosb benodedig. Mae rheoliad 13 yn caniatáu i berson awdurdodedig (sef swyddog awdurdodedig o'r awdurdod lleol, neu unrhyw berson arall a awdurdodir gan yr awdurdod lleol) roi Hysbysiad Cosb Benodedig i yrrwr cerbyd sydd wedi bod yn euog o adael injan ei gerbyd yn segura ar y briffordd gyhoeddus.

3.244. Mae rheoliad 8(b) yn rhagnodi mai £20 yw'r gosb. Mae rheoliad 17(6) yn darparu bod dirwy o £20 am drosedd segura llonydd yn cynyddu o £20 i £40 os na thalwyd y ddirwy o fewn y cyfnod talu penodedig neu os nad yw'r derbynnydd wedi rhoi hysbysiad yn gofyn am wrandawiad.

3.245. Caiff y person y rhoddwyd Hysbysiad Cosb Benodedig iddo ofyn am wrandawiad. Hefyd, caiff person y rhoddwyd Hysbysiad Cosb Benodedig iddo wneud cais i awdurdod priodol (hynny yw, awdurdod lleol) am ostyngiad neu hepgoriad a chael y naill neu'r llall os yw'n bodloni rhai amodau penodedig. Gellir dyroddi gorchymyn llys i adennill cosbau penodedig sydd heb eu talu gan fod Gorchymyn Gorfodi Dyledion Traffig Ffyrdd 1993 yn cwmpasu'r rhain.

ii. Pam y mae angen newid?

3.246. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw'r gyfundrefn bresennol o gosbau penodedig yn ddigonol i atal gyrwyr cerbydau rhag gadael i injan eu cerbyd segura gan effeithio ar ansawdd aer ac ar lefelau sŵn.

3.247. Nid yw'r gosb benodedig bresennol o £20 ychwaith yn ei gwneud yn ariannol ymarferol i awdurdodau lleol gymryd camau gorfodi. Cydnabyddir bod rhaid i ddirwyon fod yn gymesur. Er hynny, mae'r gosb benodedig o £20 am segura llonydd yn isel iawn. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn y Bil Aer Glân, nododd un awdurdod lleol nad yw'r dirwyon presennol yn ddigon uchel i atal pobl rhag gadael i injan eu cerbyd segura ac nad yw'n ariannol ymarferol gorfodi'r ddeddfwriaeth bresennol. Awgryma hyn nad yw'r gyfundrefn wrthsegura bresennol yn darparu cymhelliannau i gymryd camau gorfodi gweithredol.

3.248. Ar hyn o bryd, nid oes gan awdurdodau lleol hyblygrwydd o ran lefel y gosb ariannol: os rhoddir cosb benodedig, rhaid iddi fod am swm o £20. Golyga hyn na all awdurdodau lleol ddewis rhoi cosb ar lefel sydd wedi'i theilwra i amgylchiadau pob achos unigol. Yn yr un modd, ni all awdurdodau lleol bennu cosbau o ystod uwch o gosbau, yn enwedig mewn perthynas â mannau lle mae segura yn broblem benodol a lle mae rhai sy'n agored i niwed (megis plant) yn dod i gysylltiad ag allyriadau neu sŵn neu mewn perthynas ag achosion o droseddu dro ar ôl tro.

iii. Amcanion polisi

3.249. Ein prif nod yw bod y gyfundrefn gosbau bresennol yn gwneud mwy i atal gyrwyr rhag gadael i injan eu cerbydau segura. Byddwn yn gwneud hyn drwy greu pŵer i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau ystod (o safbwynt gwerth ariannol) y bydd gan awdurdodau ddisgresiwn i osod cosbau penodedig oddi mewn iddo, gan ddibynnu ym mha amgylchiadau y cyflawnwyd y drosedd o segura llonydd. Er enghraifft, caiff awdurdodau lleol ddewis rhoi cosbau uwch o fewn yr ystod a ganiateir mewn achosion pan fo grwpiau sy'n agored i niwed yn dod i gysylltiad ag allyriadau oherwydd cerbydau'n segura, er enghraifft, y tu allan i ysgolion.

3.250. Rydym am leihau i'r eithaf y risg i rai sy'n agored i niwed drwy fynd i'r afael â segura diangen gan gerbydau mewn mannau lle mae hynny'n broblem benodol, yn enwedig mewn lleoliadau sy'n agos at ysgolion; lleoliadau gofal iechyd; a chartrefi gofal preswyl. Dyma leoedd lle y gwelir yn aml rai agored i niwed sydd â chyflyrau iechyd blaenorol a all gael eu gwaethygu gan lygredd aer. Gall mannau eraill lle mae segura yn broblem gynnwys canolfannau trafnidiaeth mawr yng nghanol trefi neu ddinasoedd.

3.251. Y nod yw y bydd hyn yn lleihau allyriadau ac yn gwella ansawdd aer, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'n hysbys bod segura gan gerbydau yn broblem a/neu lle y gall rhai sy'n agored i niwed ddod i gysylltiad ag allyriadau gan gerbydau sy'n segura.

3.252. Bydd y cosbau penodedig yn gymwys i segura gan gerbydau ac effaith hynny ar allyriadau, a hynny'n unig. Fodd bynnag, ceir mantais ychwanegol gan y bydd llai o achosion o gerbydau'n segura hefyd yn arwain at lai o sŵn ac yn gwella seinweddau. Gall sŵn hefyd fod yn niweidiol i iechyd.

3.253. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi rhoi sŵn trafnidiaeth yn ail, ar ôl llygredd aer, yn rhestr y ffactorau amgylcheddol sy'n cyfrannu at iechyd gwael yng ngorllewin Ewrop. Y prif effeithiau yw ei fod yn ddiflas ac yn tarfu ar gwsg (a'r sgil-effeithiau ar y gallu i ddysgu a lefelau cynhyrchiant) ond mae hefyd yn creu risg uwch o bwysedd gwaed uchel a chanlyniadau cysylltiedig (e.e. strôc) a chlefyd cardiofasgwlaidd. Ceir effaith fach ar hyd bywyd hefyd, yn ogystal â'r effaith amlycach a llawer mwy ar ansawdd bywyd. Yn ogystal â hyn, gall sŵn mewn amgylcheddau dysgu a chysgu gael effaith andwyol ar ddatblygiad addysgol, ac mae'n fwy tebygol o effeithio ar grwpiau penodol megis pobl ag awtistiaeth neu blant ag anawsterau dysgu (neu anhawster canolbwyntio) nag eraill.

3.254. Gwelwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru fod pobl sy'n byw yn yr 20% mwyaf difreintiedig o Gymru ddwywaith yn fwy tebygol o ddweud bod sŵn o'r tu allan i'w cartrefi yn tarfu arnynt yn rheolaidd na'r rhai sy'n byw yn yr 20% lleiaf difreintiedig. Er hynny, dylid nodi bod hyn yn cynnwys pob math o sŵn megis sŵn gan gymdogion, ac nid dim ond sŵn trafnidiaeth.

iv. Diben y ddeddfwriaeth

3.255. Mae adran 24 yn nodi darpariaethau'r Ddeddf mewn perthynas â mesurau gwrthsegura. Mae gan Weinidogion Cymru eisoes bŵer i bennu cosb o swm ragnodedig am drosedd o segura llonydd. Mae adran 23(2)(a) yn diwygio adran 87 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i roi i Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau sy'n eu galluogi i bennu ystod ariannol y mae rhaid gosod cosb oddi mewn iddo mewn perthynas â throseddau segura llonydd.

3.256. Mae adran 24(2)(b) yn darparu mai ystyr trosedd segura llonydd yw trosedd o dan adran 42 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 sy'n torri neu'n fethiant i gydymffurfio â rheoliad 98 o Reoliadau 1986 i'r graddau y mae'n ymwneud ag atal allyriadau nwyon llosg.

3.257. Effaith rheoliad 98 o Reoliadau 1986 yw ei gwneud yn ofynnol i yrrwr cerbyd sy'n llonydd, yn ddarostyngedig i esemptiadau yn rheoliad 98(2), ddiffodd yr injan i atal allyriadau diangen. Nid yw rheoliad 98 ynddo'i hun yn drosedd. Fodd bynnag, mae adran 42 o

Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 yn ei gwneud yn drosedd i dorri Rheoliadau 1986 ond nid yw'n gosod cosb. Mae Deddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988, yn enwedig Rhan 1 o'r Ddeddf honno ac Atodlen 1 iddi, yn rhestru'r drosedd o dan adran 42 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 fel un y gellir ei gwrando yn ddiannod a'i chosbi drwy roi dirwy ar lefel 3 (uchafswm o £1,000).

3.258. Mae adran 24(3) hefyd yn gwneud diwygiadau technegol i Atodlen 11 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

3.259. Mae'r newid i'r gyfraith a gyflwynir gan ddarpariaethau'r Ddeddf yn y maes hwn yn ymwneud yn unig â phwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â gosod swm cosb benodedig. Nid yw'n newid y gyfraith mewn unrhyw ffordd arall – gan gynnwys elfennau'r drosedd ei hun a'r esemptiadau sy'n gymwys i'r drosedd. Nid oes unrhyw newidiadau eraill yn ofynnol i fodloni'r amcanion polisi.

3.260. Gan ddefnyddio'r pŵer newydd yn y Bil, bwriedir gwneud Rheoliadau sy'n pennu ystod ariannol o gosbau y gallai awdurdodau lleol eu gosod. Y safbwynt ar hyn o bryd yw y gellid pennu'r ystod ar swm o ddim llai na £40 a dim mwy na £80. Bydd y Rheoliadau hynny yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn, a chynhelir gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol cyn yr ymgynghoriad, gan gynnwys awdurdodau lleol, i brofi'r symiau dangosol hyn.

3.261. Mae hefyd yn fwriad gan Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol gan ddefnyddio'r pwerau sydd eisoes yn bodoli o dan adran 88 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Nid yw'r canllawiau yn rhan o'r Ddeddf fel y cyfryw, ond byddant yn ategu ac yn cefnogi'r ddarpariaeth hon yn y Ddeddf. Yn yr un modd â'r Rheoliadau, bydd y Canllawiau yn destun ymgynghoriad, ond rhagwelir y byddai'r Canllawiau yn cwmpasu materion megis cyngor i awdurdodau lleol ynglŷn â gweinyddu'r gyfundrefn newydd. Rhagwelir y byddai awdurdodau lleol yn pennu swm ar gyfer yr Hysbysiad Cosb Benodedig ar ben uchaf y raddfa mewn achosion mwy difrifol, er enghraifft mewn perthynas â mannau a ddynodwyd yn rhai lle mae segura llonydd yn broblem yng nghyffiniau rhai sy'n agored i niwed (gerllaw ysgol, lleoliad gofal iechyd neu gartref gofal), neu mewn mannau lle mae ansawdd yr aer yn wael megis canolfannau trafnidiaeth mawr yng nghanol trefi neu ddinasoedd. Yn y pen draw, mater i awdurdodau lleol fydd penderfynu ar lefel Hysbysiadau Cosb Benodedig mewn amgylchiadau penodol, gan roi sylw i'r canllawiau a fydd yn sicrhau cysondeb ledled Cymru.

3.262. Bydd y canllawiau hefyd yn darparu cyngor mwy cyffredinol ar ddatblygu a rhoi ar waith strategaethau a dulliau gwrthsegura, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad.

3.263. Rydym yn disgwyl ymgynghori ynghylch rheoliadau a chanllawiau drafft yn ystod haf 2024, a chyhoeddi canllawiau wedyn yn gynnar yn 2025 i gyd-fynd â'r canllawiau'n dod i rym.

3.264. Yn unol â'r Ddyletswydd i Hyrwyddo Ymwybyddiaeth o Lygredd Aer, byddwn hefyd yn cyflwyno rhaglen o gyfathrebu, codi ymwybyddiaeth ac addysgu er mwyn sicrhau newid mewn ymddygiad i leihau achosion o segura llonydd diangen. Rhagwelir y bydd hyn yn lleihau'r angen am gamau gorfodi gweithredol, ac yn sbarduno gwelliannau mewn ansawdd aer ar yr un pryd.

v. Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithiol?

3.265. Gellir ymgorffori polisi gwrthsegura mewn ystod o bolisïau a chamau i newid ymddygiad megis: cynnwys ymyriadau gwrthsegura mewn pecyn ehangach o fesurau i fynd i'r afael ag ansawdd aer a sŵn, gan annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a dewisiadau teithio llesol; hyrwyddo'r defnydd o gerbydau ag allyriadau isel; hybu Parthau Dim Segura mewn ac wrth ymyl eiddo cyhoeddus lle mae segura yn broblem; creu seilwaith ar gyfer gwefru cerbydau trydan; hyrwyddo'r defnydd o danwyddau glanach; defnyddio polisi cynllunio gofodol fel dull o leihau allyriadau a lleihau cysylltiad â llygredd aer; ac annog newid mewn ymddygiad trwy gyfrwng ymgyrchoedd gwybodaeth i'r cyhoedd ac ati.

3.266. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall mesurau gwrthsegura penodol fod yn fwyaf effeithiol wrth eu cynnwys mewn pecyn o fesurau gwahanol sy'n ategu'i gilydd, oll â'r diben o atal neu leihau llygredd aer. Yn y cyd-destun hwn, gall fod potensial i gronni lleihad mewn allyriadau, dros gyfnod o amser, ar draws ystod o wahanol fesurau a roddir ar waith yn lleol ac yn genedlaethol ar yr un pryd.

3.267. Fel a nodwyd uchod, trwy gyflwyno ystod o symiau ariannol ar gyfer cosbau penodedig gellir sicrhau bod cyfundrefn wrthsegura yn gwneud mwy i atal pobl rhag troseddu. Byddai cyfundrefn o'r fath hefyd yn fwy costeffeithiol i'w gorfodi.

vi. Y risg os na wneir deddfwriaeth

3.268. Os na wneir deddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn ildio'r cyfle i wella, ailbwysleisio ac atgyfnerthu'r gyfundrefn wrthsegura bresennol. O ganlyniad, byddai cyfundrefn wrthsegura yn parhau mewn grym sy'n wannach ac yn llai cadarn. Byddai hyn yn gwanhau'r polisi o leihau i'r eithaf y risg i rai sy'n agored i niwed yn sgil effeithiau segura ar ansawdd aer a sŵn/y seinwedd mewn mannau lle mae segura yn broblem, ac yn enwedig plant ifanc mewn ysgolion; pobl mewn cartrefi preswyl/gofal; a phobl mewn lleoliadau gofal iechyd.

Strategaeth Seinweddau Genedlaethol, Mapiau Sŵn, Strategol a Chynlluniau Gweithredu ar Sŵn

i. Y Cefndir

3.269. Mae crynodiadau o sylweddau niweidiol a thonnau sain a gludir yn yr aer ill dau yn nodweddion o amgylchedd aer lleol pobl.

3.270. Ceir cysylltiad clos yn aml rhwng ansawdd aer lleol a phroblemau sŵn a gludir yn yr aer. Mae trafnidiaeth, gweithgareddau diwydiannol, gwaith adeiladu a gweithgareddau domestig a masnachol i gyd yn cynhyrchu'r ddau fath o lygredd a gludir yn yr aer, ac yn gyffredinol mae'r llygredd aer a'r sŵn a gynhyrchir yn y modd hwn yn cael effaith andwyol ar yr un bobl, sef y rhai sy'n byw fwyaf agos at ffynonellau'r llygredd. O'r herwydd maent yn cael effaith gyfunol acíwt a chronig ar iechyd a lles y bobl hynny.

3.271. Mae atebion a gynigir i ddatrys problemau ym maes ansawdd aer lleol a sŵn yn aml yr un fath neu yn gysylltiedig. Yn aml, bydd i ymyriadau fuddion o ran ansawdd aer a'r seinwedd, ond weithiau bydd yr hyn sy'n fuddiol i'r naill yn gwaethygu'r llall. Derbynnir yn fwy a mwy cyffredin felly y dylai polisïau a chynlluniau ar gyfer ansawdd aer a sŵn a gludir yn yr aer fod yn gydgysylltiedig, er mwyn cyflawni'r canlyniadau cyffredinol gorau o ran iechyd lleol. Mae hyn yn gyson â'r dulliau gweithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys integreiddio polisïau.

3.272. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi rhoi llygredd aer a sŵn yn gyntaf ac yn ail yn rhestr y ffactorau amgylcheddol sy'n cyfrannu at iechyd gwael yng ngorllewin Ewrop. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ym maes iechyd a deddfwriaeth yr UE (Cyfarwyddeb 2002/49/EC yn fwyaf nodedig) ym maes sŵn amgylcheddol a gludir yn yr aer yn hanesyddol sawl blwyddyn ar ôl y dystiolaeth a'r ddeddfwriaeth ar gyfer ansawdd aer (e.e. Cyfarwyddeb 96/62/EC). O ganlyniad ceir fframweithiau deddfwriaethol ar wahân gan yr UE nad ydynt yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd. Mae hyn yn cyferbynnu â'r modd y mae'r ffenomenau ffisegol ac ymyriadau posibl yn ymblethu â'i gilydd yn y byd go iawn.

3.273. Er gwaethaf y diffyg cyswllt rhwng fframweithiau deddfwriaethol yr UE, cydnabu Gweinidogion Cymru y berthynas agos rhwng llygredd aer a llygredd sŵn a gludir yn yr aer mewn polisi yn 2012, pan gyhoeddwyd canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol o dan Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (Adendwm i'r canllawiau polisi ar reoli ansawdd aer yn lleol: ansawdd aer a sŵn traffig). Cafodd y canllawiau hyn, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ystyried sŵn mewn cynlluniau

ansawdd aer lleol, eu hymgorffori yn y brif ddogfen ganllaw ar gyfer polisi rheoli ansawdd aer lleol yng Nghymru yn 2017.

3.274. Cafodd pennod ar integreiddio polisïau sŵn ac ansawdd aer ei chynnwys yng Nghynllun Gweithredu Cymru ynghylch Sŵn a Seinwedd 2018-2023. Mae'n datgan y dylid ystyried llygredd sŵn ac aer gyda'i gilydd, yn hytrach nag fel problemau ar wahân, pryd bynnag y bo'r ddau yn bresennol a bod eu ffynonellau yr un fath neu'n gysylltiedig. Mae llygredd aer a sŵn ill dau yn llygryddion sy'n cael eu cludo yn yr aer ac a all gael effaith gyfunol ar iechyd y cyhoedd. Mewn nifer o sefyllfaoedd gellir mynd i'r afael â nhw yn fwyaf effeithiol drwy ddod o hyd i atebion i'r ddau beth ar y cyd.

3.275. Roedd corff y Cynllun yn cynnwys yr ymrwymiad canlynol: "Drwy ddiffinio sŵn amgylcheddol fel llygrydd a gludir yn yr awyr o fewn ei Rhaglen Aer Glân, bydd Llywodraeth Cymru yn creu cyfleoedd, ac yn ceisio nodi unrhyw gyfleoedd, i gysoni polisïau a rheoliadau sŵn/seinwedd a pholisïau a rheoliadau ansawdd aer yng Nghymru ymhellach dros y pum mlynedd nesaf, er mwyn sicrhau bod nifer o fanteision yn deillio o'n camau gweithredu."

3.276. Ym Mholisi Cynllunio Cymru 2018, rhoddwyd polisïau cynllunio ansawdd aer, sŵn a seinwedd gyda'i gilydd mewn pennod ar y cyd am y tro cyntaf. Yn 2019 comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad allanol o'r synergeddau a'r pwyntiau gwrthdaro rhwng ansawdd aer a sŵn, ac un o'r argymhellion oedd y dylai cynlluniau gweithredu ansawdd aer a sŵn gydweddu'n well ac y dylid integreiddio rhagor arnynt. Roedd Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn a Seinwedd 2018-2023 a Chynllun Aer Glân Cymru 2020 ill dau yn cynnwys ymrwymiad i ddisodli Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn (1997) gan Nodyn Cyngor Technegol integredig yn ymdrin ag ansawdd aer, sŵn a seinweddau. Mae hwn bellach wedi'i gyhoeddi ar ffurf drafft.

3.277. Y diffiniad ffurfiol o seinwedd yn ôl BS ISO 12913-1:2014 yw: Seinwedd yw'r amgylchedd acwstig fel y mae'n cael ei ganfod neu ei brofi a/neu ei ddeall gan berson neu bobl, mewn cyd-destun. Yn y diffiniad hwn, mae'r amgylchedd acwstig yn golygu'r sain wrth y derbynnydd o'r holl ffynonellau fel y'i haddesir gan yr amgylchedd, ac mae ffynonellau sain yn cyfeirio at y seiniau a gynhyrchir gan natur neu weithgareddau pobl.

ii. Pam y mae angen newid?

3.278. Roedd y Papur Gwyn ar gyfer y Bil Aer Glân yn cynnig gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu a chyhoeddi'r Cynllun Aer Glân bob pum mlynedd. Mae dyletswydd eisoes ar Weinidogion Cymru i adolygu a chyhoeddi cynlluniau gweithredu ar sŵn ar gyfer

prif ffyrdd, prif reilffyrdd a chrynodrefi bob pum mlynedd o dan Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006, sy'n trosi Cyfarwyddeb 2002/49/EC. Wrth fireinio'r cynnig yn y Papur Gwyn yn unol â'r ymrwymiad yn 2018 i greu a cheisio nodi "unrhyw gyfleoedd, i gysoni polisïau a rheoliadau sŵn/seinwedd a pholisïau a rheoliadau ansawdd aer yng Nghymru", roedd cyfle i gadw cylchoedd adolygu pum mlynedd y Cynlluniau hyn ar adeg synhwyrol yng nghylch etholiadol y Senedd. Cyfunir hyn â disgwyliad y byddant yn rhoi sylw i elfennau eraill o lyfr statud Cymru sy'n dilyn cylchoedd pum mlynedd (fel arfer), megis yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a'r Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol.

3.279. Mae hefyd yn gyfle i ychwanegu at ddyletswyddau statudol presennol Gweinidogion Cymru o dan gyfraith yr UE a ddargedwir i lunio cynlluniau gweithredu cul a phenodol iawn ar sŵn, drwy gyflwyno dyletswydd ehangach i gyhoeddi un strategaeth neu gynllun pum mlynedd cynhwysfawr ar gyfer seinwedd. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull cyfannol a fabwysiadwyd yn wirfoddol gan Lywodraeth Cymru wrth gyflawni ei dyletswyddau penodol ym maes cynlluniau gweithredu ar sŵn yn 2013, 2018 a 2023.

iii. Amcanion polisi

3.280. Bydd y Ddeddf yn ychwanegu at ddyletswydd Gweinidogion Cymru o dan Reoliadau Amgylchedd Sŵn (Cymru) 2006 i lunio cynlluniau gweithredu ar sŵn ar gyfer prif ffyrdd, prif reilffyrdd a chrynodrefi drwy gyflwyno dyletswydd ehangach ar Lywodraeth Cymru, bob tro y caiff un ei hethol, i lunio strategaeth neu gynllun cynhwysfawr ar gyfer sŵn a seinwedd. Byddai'r mapiau sŵn strategol a lunnir o dan Reoliadau 2006 yn cyfrannu at y cynllun neu'r strategaeth, ond byddai hefyd yn cwmpasu mathau pwysig eraill o sŵn a gludir yn yr aer a Chymru gyfan. Byddai hyn yn gyson â'r modd y mae Gweinidogion Cymru wedi dewis cyflawni eu dyletswyddau ar gyfer cynlluniau gweithredu ar sŵn o dan ddeddfwriaeth yr UE yn 2013, 2018 a 2023. Byddai hefyd yn adlewyrchu'r gofynion a gynigir i lunio Cynllun Aer Glân pum mlynedd.

3.281. Mae'r pŵer gwneud rheoliadau a'r dyletswyddau canlynol yn adlewyrchu'n agos y rheini ar gyfer y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol:

- pŵer i wneud rheoliadau i addasu'r cylchoedd pum mlynedd ar gyfer mapiau sŵn strategol, cynlluniau gweithredu ar sŵn a'r cynllun neu'r strategaeth gyffredinol ar gyfer sŵn a seinwedd pe byddai etholiad eithriadol yn cael ei galw;
- dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r cyhoedd pryd bynnag y byddant yn adolygu'r cynllun neu'r strategaeth gyffredinol; a

- dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi sylw i'r cynllun neu'r strategaeth gyffredinol wrth gyflawni eu swyddogaethau.

3.282. Y bwriad yw:

- sicrhau y pennir blaenoriaethau a chyfleoedd eglur i gyflawni seinweddau priodol yng Nghymru ar lefel genedlaethol yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr. Dylai'r sylfaen hon gynnwys tystiolaeth ynghylch sŵn a seinwedd, ond hefyd ystyriaethau amgylcheddol ehangach megis data am ansawdd aer; yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016; ac Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- sicrhau bod polisïau ac ymrwymiadau Llywodraeth Cymru ar sŵn a seinwedd, bob tro y caiff ei hethol, yn cael eu datgan yn eglur ac yr ymgynghorir yn eu cylch, er mwyn bod yn fwy eglur ac atebol; a
- rhoi'r opsiwn i Weinidogion lunio cynllun neu strategaeth gyfunol sy'n ymdrin ag ansawdd aer, sŵn a seinwedd.

iv. Diben y ddeddfwriaeth

3.283. Diben y ddeddfwriaeth yw rhoi dyletswydd ar Weinidogion i nodi eu bwriadau a'u polisïau mewn perthynas â sŵn a seinwedd, gan gynnwys rheoli llygredd sŵn yn effeithiol, gan roi sylw i wybodaeth wyddonol a mapiau sŵn strategol. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru; awdurdodau lleol yng Nghymru; Byrddau Iechyd Lleol; Ymddiriedolaethau'r GIG (o fewn ystyr Rhan 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Trafndiaeth Cymru a'r cyhoedd.

3.284. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu'r strategaeth seinweddau genedlaethol bob pum mlynedd.

3.285. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus perthnasol ac awdurdodau lleol yng Nghymru roi sylw i'r strategaeth seinweddau genedlaethol wrth gyflawni swyddogaethau perthnasol yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau bod rhaid i'r cyrff priodol yng Nghymru roi sylw i'r strategaeth. Ceir hefyd ddiffiniadau o awdurdodau cyhoeddus perthnasol a phwerau i ychwanegu awdurdodau datganoledig Cymreig at y rhestr ar ôl cynnal ymgynghoriad.

3.286. Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r cyfnodau y mae rhaid iddynt adolygu'r strategaeth seinweddau genedlaethol oddi mewn iddynt. Diben hyn yw caniatáu hyblygrwydd i ymateb i etholiad eithriadol. Er mwyn sicrhau y bydd modd craffu'n briodol ar unrhyw newidiadau i'r cyfnod adolygu, rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r rheoliadau hyn.

3.287. Mae'r adran hon o'r Ddeddf, ochr yn ochr â'r adran o'r Ddeddf sy'n ymdrin â strategaeth ansawdd aer genedlaethol, yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion ystyried ansawdd aer a sŵn gyda'i gilydd ac, os ydynt yn dymuno, gyhoeddi un strategaeth sengl sy'n cwmpasu'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol a'r strategaeth seinweddau genedlaethol.

v. Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithiol?

3.288. Trwy roi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru, bob tro y caiff un newydd ei hethol, i nodi ei safbwynt a'i pholisïau o ran ansawdd aer, sŵn a seinweddau naill ai mewn cynlluniau cysylltiedig neu mewn un cynllun cyfunol ar lygredd a gludir yn yr aer, ac ymgynghori â'r cyhoedd arnynt, a hynny o fewn hanner cyntaf ei thymor, gellir sicrhau bod y polisi yn eglur i gyrff cyhoeddus sydd â chyfrifoldebau ym maes ansawdd aer a sŵn ac i randdeiliaid ehangach. Bydd hyn yn sicrhau effeithlonrwydd, a phrosesau cydgysylltiedig o lunio polisïau a fydd yn arwain at well canlyniadau, tryloywder ac atebolrwydd.

vi. Y risg os na wneir deddfwriaeth

3.289. Byddai rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru o ran llunio cynlluniau gweithredu ar sŵn yn dal i fod wedi'u cyfyngu i brif ffyrdd, prif reilffyrdd a chrynodrefi. Byddai eu cylch pum mlynedd yn dal i fod yn gysylltiedig ag amserlenni'r UE ar gyfer cyflwyno adroddiadau, yn hytrach na chylch etholiadau'r Senedd, ac ni fyddai unrhyw ofyniad ffurfiol i ystyried ansawdd aer, ffurfiau eraill ar sŵn, na'r cysyniad newydd o seinweddau priodol (sef un o ganlyniadau creu lleoedd cynaliadwy Cymru bellach o dan Bolisi Cynllunio Cymru).

4. Ymgynghori

Papur Gwyn ar Fil Aer Glân (Cymru)

4.1. Ymgynghorwyd ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil yn y Papur Gwyn ar Fil Aer Glân (Cymru), Gwneud Cymru yn lle gwell ac iachach i fyw ynddo. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 13 Ionawr a 7 Ebrill 2021. Gofynnwyd cyfanswm o 26 cwestiwn. Rhoddwyd y dewis i ymatebwyr ymateb yn ddwyieithog i gwestiynau ar lein, drwy gyflwyno ymatebion yn electronig i fewnflwch dynodedig neu ar ffurf copi caled drwy'r post.

4.2. Ar adeg yr ymgynghoriad, roedd Llywodraeth Cymru yn ceisio barn i benderfynu a oedd angen deddfwriaeth mewn sawl maes, gan gynnwys:

- gofyniad i adolygu Cynllun neu Strategaeth Aer Glân o leiaf bob pum mlynedd;
- pwerau cryfach i Weinidogion Cymru i bennu targedau ansawdd aer, gan gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu targed ar gyfer $PM_{2.5}$ mewn aer amgylchynol;
- cyfundrefn well a mwy eglur ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol;
- pwerau cyfunol i roi Parthau Aer Glân neu Barthau Allyriadau Isel ar waith;
- pwerau cryfach i fynd i'r afael â segura llonydd;
- gwella pwerau sydd eisoes yn bodoli yn maes rheoli mwg, yn gysylltiedig â mynd i'r afael â llygredd aer o losgi tanau domestig ($PM_{2.5}$); a
- dyletswydd ar weithluoedd ar draws gwahanol sectorau i gadw at ganllawiau i'w grymuso i fynd i'r afael â llygredd aer.

4.3. Oherwydd i'r ymgynghoriad gael ei gynnal yn ystod cyfnod o gyfyngiadau cenedlaethol yn sgil y pandemig COVID-19, ni fu modd cynnal sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb. Yn hytrach, manteisiwyd ar safbwyntiau a fynegwyd mewn digwyddiad rhithiol a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2021 i drafod yr ymgynghoriad ar y Bil Aer Glân a lleihau allyriadau a gynhyrchir wrth losgi tanwydd solet mewn lleoliadau domestig.

Crynodeb o'r ymatebion

4.4. Daeth cyfanswm o 73 o ymatebion i'r Papur Gwyn i law. Roedd 61 o'r rhain yn ysgrifenedig a 12 ar lein. Cafwyd cyfanswm o 119 o gyfraniadau at yr ymgynghoriad, gan inni hefyd ystyried safbwyntiau a fynegwyd mewn digwyddiad Papur Gwyn a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2021. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd, sefydliadau anllywodraethol a chyrff cyhoeddus.

4.5. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Chwefror 2023**.** Roedd yr ymatebion yn cynrychioli amrywiaeth o safbwyntiau ond, yn gyffredinol, roeddent yn cefnogi'r cynigion ar gyfer deddfwriaeth yn y Papur Gwyn, ac yn derbyn yr angen i gyflwyno deddfwriaeth i wella rhagor ar ansawdd yr aer yr ydym yn ei anadlu yng Nghymru.

Ymgysylltiad wedi'i dargedu yn 2022

4.6. Parhaodd trafodaethau â rhanddeiliaid ynghylch cynigion y Bil yn ystod 2022, mewn proses o ymgysylltu wedi'i dargedu. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â'r canlynol:

- Cynrychiolydd Comisiynydd Plant Cymru;
- Y Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant;
- Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Bil Aer Glân;
- Fforwm Ansawdd Aer Cymru;
- Healthy Air Cymru;
- Y Panel Cynghori ar Aer Glân;
- Awdurdodau lleol;
- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd; ac
- Academyddion â diddordeb mewn ansawdd aer.

4.7. Mae'r trafodaethau hyn, ochr yn ochr â'n hystyriaeth o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, wedi cyfrannu at ddatblygiad ein polisi.

4.8. Roedd y trafodaethau a gynhaliwyd â rhanddeiliaid yn bositif. Cafodd y cynigion yn y Bil eu croesawu. Yn aml, yn ystod trafodaethau am y Bil, roedd gan randdeiliaid fwy o ddiddordeb mewn gweld polisïau ehangach yn y Cynllun Aer Glân i Gymru i wella ansawdd aer. Er enghraifft, sicrhau bod opsiynau trafnidiaeth hygyrch, ddiogel a chyfleus ar gael. Nid oedd y materion a drafodwyd yn gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol.

4.9. Er enghraifft, o ganlyniad i drafodaethau â rhanddeiliaid ynghylch y Bil a'r Cynllun Aer Glân, rydym wedi adolygu ein Panel Cynghori ar Aer Glân ac wedi ehangu ei gylch gwaith i ystyried cyngor technegol, ac er mwyn ei gyfoethogi â chyngor economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig â dull gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

4.10. Tynnodd trafodaethau ag awdurdodau lleol sylw at y cyfyngiadau ariannol maent yn gweithio o danynt. Mae'r Grant Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol, gwerth £1 miliwn y flwyddyn, y caiff awdurdodau lleol wneud cais amdano, wedi'i gynllunio i ddarparu rhagor o gyllid i gefnogi'r cynigion yn y Bil.

4.11. Rydym wedi ymrwymo i barhau i weithio gyda rhanddeiliad yn ystod cam gweithredu'r Bil.

Datblygu polisïau yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn

4.12. Mae'r gwahaniaethau rhwng y cynigion yn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn a'r cynigion yn y Bil fel y'i cyflwynwyd yn cael eu hamlinellu isod.

Targedau cenedlaethol

4.13. I raddau helaeth, nid yw'r cynigion mewn perthynas â thargedau ansawdd aer wedi cael eu newid. Fodd bynnag, roedd y papur gwyn yn cynnig gosod rheoliadau'n pennu targedau ar gyfer $PM_{2.5}$ o fewn 24 mis i'r Ddeddf dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Yn dilyn cynllunio'r camau y mae angen eu cymryd cyn pennu targed o'r fath yn fwy manwl, dylid nodi bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau gael eu gosod o fewn tair blynedd i'r Ddeddf dderbyn Cydsyniad Brenhinol.

Strategaeth Ansawdd Awr Genedlaethol

4.14. Roedd y cynigion gwreiddiol yn y Papur Gwyn yn ceisio cyflwyno dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi Cynllun Aer Glân bob pum mlynedd. Fodd bynnag, yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, cafodd Gweinidogion Cymru y cyfle i roi cydsyniad i Ddeddf yr Amgylchedd 2021 a oedd yn mewnosod llinell amser o bum mlynedd yn adran 80 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Felly, mae'r Bil yn ystyried y fframwaith deddfwriaethol wedi'i ddiweddaru, ac yn gwneud diwygiadau i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn hytrach na chyflwyno dyletswydd newydd. Nid yw hyn yn newid y cynigion polisi, yn hytrach mae'n newid y ffordd maent yn cael eu cyflawni.

Rheoliadau ansawdd aer

4.15. Ni wnaethom ymgynghori ar gynigion i ddiwygio'r rhestr o bersonau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â nhw o dan adran 87(7) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, pan fyddant yn gwneud rheoliadau o dan Ran IV o'r Ddeddf honno. Gwnaethom sylwi bod y darpariaethau ar gyfer ymgynghori wedi dyddio pan oeddem yn drafftio'r darpariaethau mewn perthynas ag ymgynghori yn adrannau 12 a 24(6) o'r Bil. Penderfynwyd y byddai alinio'r darpariaethau mewn perthynas ag ymgynghori yn fuddiol ac, yn benodol, y byddai dyletswydd gyffredinol i ymgynghori â'r cyhoedd yn fuddiol.

Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol

4.16. Yn dilyn derbyn adborth o'r ymgynghoriad a'r digwyddiadau ymgysylltu, mae pedwar newid wedi cael eu gwneud i'r cynigion yn y Papur Gwyn.

4.17. Mae'r cynnig gwreiddiol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal adolygiad blynyddol o leoliadau eu hoffer monitro wedi esblygu'n ofyniad i gynnal adolygiad o ansawdd aer bob blwyddyn. Mae'r geiriad yn fwy cyffredinol ac mae'n adlewyrchu yn well y bwriad

y dylai awdurdodau lleol fod yn rhagweithiol wrth chwilio am broblemau mewn perthynas ag ansawdd aer lleol, a mynd i'r afael â nhw. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â'r gofynion adrodd blynyddol a amlinellir yn y canllawiau statudol. Yn y Papur Gwyn gwnaethom gynnig symud y gofyniad presennol i adolygu Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer o leiaf unwaith bob pum mlynedd o'r canllawiau statudol i'r fframwaith deddfwriaethol. Ar ôl adolygu'r adborth a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad, yn lle gwneud hynny rydym yn cynnig y dylai awdurdodau lleol gael adolygu Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Awr ar unrhyw adeg, a rhaid iddynt wneud hynny os oes angen cymryd camau newydd neu gamau pellach i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag amcanion ansawdd aer. Mae hyn yn sicrhau bod Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Awr yn dogfennau byw sy'n cael eu diweddaru ar sail cynnydd yn hytrach na dyddiad mympwyol.

4.18. Ymgynghorwyd ynghylch cyflwyno cynnig 'partneriaid' yn ystod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Bwriad y ddarpariaeth oedd creu mecanwaith i alluogi awdurdodau lleol i nodi partneriaid a allai eu helpu i ddatblygu atebion i broblemau ansawdd aer lleol. Er bod cefnogaeth i'r syniad yn ystod yr ymgynghoriad, lleisiwyd rhai pryderon ynghylch sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol, ac a fyddai gwneud trefniadau gyda nifer o sefydliadau y mae'n bosibl eu bod am gymryd rhan i raddau amrywiol, yn mynd yn rhy feichus ar gyfer awdurdodau lleol ac yn y pen draw yn lleihau effaith y cynnig. Yn lle hynny, byddwn yn defnyddio mecanweithiau presennol i sicrhau'r un canlyniadau mewn modd mwy effeithiol. Er enghraifft, bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a sefydlwyd o dan Lwybr Newydd, yn sicrhau bod ansawdd aer yn cael ei ystyried mewn perthynas â thrafnidiaeth a defnyddio tir ar lefel ranbarthol.

4.19. Yn y Papur Gwyn cynigiwyd y dylai'r darpariaethau ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol yn Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 gael eu trosi i ddeddfwriaeth Cymru drwy'r Bil. Wrth ddatblygu'r Bil, penderfynwyd nad oedd angen gwneud hyn, ac y byddai diwygio Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn cyflawni'r bwriad polisi. Nid oes gwahaniaeth yn y dull drafftio ac nid yw'n newid y polisi.

Rheoli mwg

4.20. Mae rhai meysydd yn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn mewn perthynas â rheoli mwg nad ydynt wedi cael eu newid nac wedi cael eu trafod yn y cynnig.

4.21. Nid yw Rhan III o Ddeddf Aer Glân 1993 wedi cael eu cydgrynhoi. Yn hytrach, mae atodlen newydd wedi cael ei chreu sy'n adlewyrchu'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth sydd ar gyfer Lloegr yn unig ar hyn o bryd, gan dargedu'r darpariaethau penodol sydd fwyaf perthnasol i Gymru. Mae gwneud hyn yn cyflawni ein bwriad polisi ac yn darparu cysondeb cyffredinol â'r darpariaethau sydd mewn grym yn Lloegr ar hyn o bryd.

4.22. Nid ydym wedi gwneud rhoi gorchmynion rheoli mwg ar waith yn orfodol, ac nid effeithiwyd ar ein pwerau i gyfarwyddo awdurdodau lleol i greu ardal rheoli mwg. Yn hytrach, byddwn yn datblygu canllawiau statudol i cefnogi awdurdodau lleol i weithredu eu pwerau newydd, a byddant yn gallu ystyried rôl ardaloedd rheoli mwg pan fyddant yn rheoli ansawdd aer yn lleol.

4.23. Rydym wedi cynnig gofyniad i awdurdodau lleol ystyried unrhyw ganllawiau rydym yn eu cyhoeddi ar Reoli Mwg. Bydd y canllawiau hyn yn destun rhagor o ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid

4.24. Ni fu digon o ymchwil i losgi yn yr awyr agored i'w gynnwys yn y Bil hwn, ac mae rhagor o dystiolaeth yn cael ei chasglu. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn nodi bod angen rhagor o dystiolaeth cyn deddfu mewn perthynas â llosgi yn yr awyr agored mewn ardaloedd rheoli mwg – e.e. a yw awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau casglu gwastraff gardd am ddim.

4.25. Yn ystod yr ymgynghoriad ar losgi gwastraff domestig, a gafodd ei gynnal ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Bil Aer Glân, roedd canran uwch o bobl yn anghytuno â'r cynnig i reoleiddio dyfeisiau llosgi a thanwyddau a ddefnyddir yn yr awyr agored. Disgwylir i'r Crynodeb o'r Ymatebion i'r ymgynghoriad ar wahân hwn gael ei gyhoeddi yn y gwanwyn

Codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd

4.26. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig creu cyfundrefn annibynnol ar gyfer codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd. Yn y pen draw, penderfynwyd bod diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol yn well na dechrau o'r dechrau un. Nid yw hyn yn newid y safbwynt o ran polisi, fel y mae wedi'i ddisgrifio yn y Papur Gwyn, o ran cychwyn pwerau awdurdodau lleol, galluogi Parthau Aer Glân ar gefnffyrdd ac ehangu'r ffordd y gellir defnyddio enillion net.

4.27. Yn ystod yr ymgynghoriad ni chynigiwyd y dylid cyhoeddi canllawiau ar ddatblygu Parthau Aer Glân. Mae hyn oherwydd bod y newidiadau deddfwriaethol yn canolbwyntio ar gynlluniau wedi'u creu gan Weinidogion Cymru, yn hytrach na chynlluniau codi tâl lleol. Fodd bynnag, cydnabyddir bod canllawiau ar gymhwyso cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd yng Nghymru yn bwysig, er mwyn helpu i lywio'r ffordd y mae pwerau'n cael eu defnyddio, ac i sefydlu lefel o gysondeb wrth eu defnyddio.

4.28. Bydd canllawiau ar gymhwyso Parthau Aer Glân yn cael eu cynnwys o fewn y fframwaith ar gyfer codi tâl teg a chyfartal ar ddefnyddwyr ffyrdd a gynigir yn ein Strategaeth Drafnidiaeth, Llwybr Newydd.

4.29. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn cynnwys cynnig i ehangu'r ffordd y gellir defnyddio enillion net sy'n deillio o godi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd, fel y gellir eu defnyddio ar gyfer polisïau a chynigion trafnidiaeth. Roedd rhai ymatebwyr o blaid y cynnig hwn a rhai yn ei erbyn – gyda thua hanner yn dweud y byddai'n well ganddynt pe bai'r arian yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer polisïau trafnidiaeth.

4.30. O ganlyniad rydym wedi gadael y trefniadau neilltuo presennol ar waith yn y ddeddfwriaeth ar gyfer cynlluniau a grëwyd o dan amgylchiadau sydd eisoes yn bodoli, e.e. cynlluniau ar bontydd a thwneli dros 600 metr o hyd, neu pan fydd awdurdod traffig arall wedi gofyn am gynllun mewn cyswllt ag un o'u cynlluniau nhw. Fodd bynnag, pan fydd cynllun yn cael ei greu o dan yr amgylchiadau newydd (ar gyfer lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer), yna bydd y trefniadau neilltuo presennol ar gyfer trafnidiaeth yn cael eu datgymhwyso, gan roi rhagor o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru i ariannu amrediad ehangach o weithgareddau.

Gadael i injan cerbyd segura

4.31. Mewn perthynas â'r drosedd o adael i injan cerbyd segura, yn wreiddiol gwnaethom ymgynghori ar ddau gynnig penodol: rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi'r sylw dyledus i ganllawiau ar ddatblygu a gweithredu mesurau gwrthsegura, gan gynnwys gorfodi; a rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol i gynyddu maint y gosb am adael i injan cerbyd segura (i gynyddu'r effaith atal)

4.32. Mewn perthynas â'r canllawiau, mae eisoes gan Weinidogion Cymru bŵer o dan adran 88(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i gyflwyno canllawiau i awdurdodau lleol ynglŷn â'u swyddogaethau rheoli ansawdd aer o dan Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (sy'n cynnwys pwerau i fynd i'r afael â'r drosedd o adael i injan cerbyd segura). O ganlyniad, ni chafodd y cynnig a oedd yn gysylltiedig â chyhoeddi canllawiau ei gynnwys yn y Bil er mwyn osgoi dyblygu pwerau. Fodd bynnag, y tu allan i'r bil, byddwn yn llunio canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ar ddatblygu a gweithredu mesurau gwrthsegura. Felly, bydd y canllawiau hyn yn cefnogi ac yn ategu'r ddarpariaeth yn y Bil.

4.33. Mewn perthynas â'r cynnig i roi'r pŵer i awdurdodau lleol i gynyddu cosbau penodedig, rydym wedi rhoi effaith i hwn drwy roi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu ystod o gosbau ariannol y gall awdurdodau lleol ddewis ohoni i bennu swm pob cosb benodedig fesul achos

Canllawiau ar gyfer y Gweithlu

4.34. Roedd y Papur Gwyn yn cynnwys cynigion ar gyfer datblygu canllawiau traws-sector i'r gweithlu ar ansawdd aer. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at bryderon ynghylch sut byddai'r canllawiau'n cael eu gorfodi ac ehangder eu cyrhaeddiad. Fodd

bynnag, roedd cefnogaeth glir dros hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r camau y gellir eu cymryd i wella a lleihau cysylltiad â llygredd aer.

4.35. Yn ngoleuni'r adborth a dderbyniwyd, rydym wedi datblygu ein cynigion gwreiddiol i fod yn ddarpariaeth ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth. Mae hyn yn ehangach na'r cynnig gwreiddiol, a bydd yn parhau i alluogi gwybodaeth sy'n berthnasol i weithluoedd gael ei datblygu a'i chyhoeddi ar y cyd, wrth hefyd sicrhau bod ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o lygredd yn parhau.

Sŵn a Seinweddau

4.36. Nid oedd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn cynnwys y cynigion sydd bellach yn y Bil sy'n rhoi ein strategaeth seinweddau genedlaethol ar sail statudol wedi'i halinio â'n strategaeth ansawdd aer genedlaethol. Cafodd y cynigion hyn eu datblygu wedyn, wrth i waith fynd rhagddo i ddatblygu Cynllun Sŵn a Seinweddau 2023–2028, yr ydym yn disgwyl ymgynghori yn ei gylch cyn bo hir.

4.37. Mae'r cynigion yn gyson â'r ymrwymiad cyhoeddus a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn y Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd presennol ar gyfer 2018–2023 i 'greu a cheisio datblygu unrhyw gyfleoedd i gysoni polisïau a rheoliadau sŵn/seinwedd a pholisïau a rheoliadau ansawdd aer yng Nghymru ymhellach dros y pum mlynedd nesaf, er mwyn sicrhau bod nifer o fanteision yn deillio o'n camau gweithredu'.

4.38. Nid ydynt yn mynd y tu hwnt i'r hyn mae'r Bil yn ceisio ei gyflawni mewn perthynas â'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol. Maent yn ffurfioli arferion presennol Llywodraeth Cymru yn y maes polisi hwn.

Rhesymau dros beidio ag ymgynghori ar Fil drafft

4.39. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar Fil drafft. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r darpariaethau a nodwyd yn y Papur Gwyn, a lle y gwnaed newidiadau, mae'r rhain yn cynrychioli datblygiadau mewn syniadaeth, yn hytrach na chefnu ar y bwriad polisi gwreiddiol.

4.40. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, canlyniadau'r sesiynau ymgysylltu a digwyddiadau arwyddocaol megis yr argyfyngau costau byw ac ynni, gwnaed rhai newidiadau i'r hyn yr ymgynghorwyd yn ei gylch yn wreiddiol yn y Papur Gwyn. Amlinellir y rhain uchod.

4.41. O ystyried yr ymgynghori helaeth ar y Cynllun Aer Glân i Gymru, yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, nifer yr ymatebion a ddaeth i law a'r gwaith ymgysylltu dilynol, ni ystyriwyd bod angen ymgynghori ar Fil drafft.

5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a chyhoeddi penderfyniadau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) a Thabl 5.2 (cyfarwyddydau a chanllawiau) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r rhain:

(i). y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
(ii). ar ba ffurf y mae'r pŵer i gael ei arfer;
(iii). pa mor briodol yw'r pŵer a ddirprwywyd; a
(iv). y weithdrefn a ddilynir; hynny yw, ai'r weithdrefn "gadarnhaol", "negyddol" ynteu "dim gweithdrefn", ynghyd â'r rhesymau pam yr ystyrir y weithdrefn honno'n briodol.

5.2. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth pan ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir ar union natur yr ymgynghoriad ar ôl ffurfioli'r cynigion.

Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

Adran	Rhoddwyd y pŵer i	Dull	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
1(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i bennu targedau tymor hir mewn perthynas ag ansawdd aer yng Nghymru. Rhaid i dargedau tymor hir ymateb i newidiadau i'r dystiolaeth yng Nghymru. Mae eu cynnwys mewn rheoliadau yn ein galluogi i'w diweddaru.	Cadarnhaol drafft	Mae prif sylwedd adran 1 (h.y. lefel y targed) yn y Rheoliadau.
1(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i osod targed ansawdd aer tymor hir ar gyfer un o'r llygryddion canlynol: amonia; PM_{10}; osôn ar lefel y ddaear, sylffwr deuocsid; nitrogen deuocsid neu garbon monocsid. Mae'n briodol ar gyfer Rheoliadau gan y bydd angen i unrhyw dargedau a osodir o dan y ddyletswyddau gael eu cadw'n gyfoes.	Cadarnhaol drafft	Mae prif sylwedd adran 1(2) (h.y. lefel y targed) yn y Rheoliadau.
2(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu o leiaf un targed mewn perthynas â'r lefel gymedrig	Cadarnhaol drafft	Mae prif sylwedd adran 2 (h.y. lefel y targed) yn y Rheoliadau.

Adran	Rhoddwyd y pŵer i	Dull	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
			flynyddol o $PM_{2.5}$ yn aer yr amgylchedd yng Nghymru. Mae angen i'r gofyniad i bennu targed mewn perthynas â'r lefel gymedrig flynyddol o $PM_{2.5}$ yn aer yr amgylchedd yng Nghymru fod yn seiliedig ar dystiolaeth a chael ei ddiweddaru.		
11	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae adran 11 yn mewnosod nifer o adrannau newydd yn Neddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'n mewnosod adran 10B newydd sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi dyletswydd ar "unrhyw awdurdod yng Nghymru' a enwir yn y Rheoliadau i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer ac i gyhoeddi adroddiad. Mae'n briodol galluogi enwi awdurdod datganoledig yng Nghymru mewn rheoliadau gan ei bod yn bosib y bydd angen newid yr awdurdodau a enwir o dro i dro.	Cadarnhaol drafft	Bydd y pŵer gwneud rheoliad, o'i arfer, yn rhoi awdurdodau datganoledig yng Nghymru a wneir o dan ddyletswyddau cyfreithiol.

Adran	Rhoddwyd y pŵer i	Dull	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
12(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae adran 80 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn pennu'r terfynau amser y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â nhw wrth adolygu'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol y mae'n ofynnol iddynt ei chynhyrchu o dan yr adran honno. Mae'n briodol defnyddio pŵer i wneud rheoliadau er mwyn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i newid y terfynau amser ar gyfer adolygu'r strategaeth er mwyn, os bydd angen, sicrhau bod amseriad yr adolygiad yn parhau i fod yn gynnar yn ystod tymor Llywodraethau dilynol yng Nghymru.	Cadarnhaol drafft	Galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol (Deddf yr Amgylchedd 1995).

Adran	Rhoddwyd y pŵer i	Dull	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
14(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae adran 14(1) yn mewnosod adran 81B yn Neddf yr Amgylchedd 1995. Mae adran 81B(3) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ddynodi Awdurdodau Cyhoeddus perthnasol yng Nghymru at ddiben adran 81(B)(1) – personau y mae'n rhaid iddynt roi sylw i'r polisïau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol. Mae'n briodol galluogi dynodi Awdurdodau Cyhoeddus yng Nghymru drwy reoliadau, gan ei bod yn bosibl y bydd angen i'r awdurdodau sydd i'w dynodi gael eu diwygio o bryd i'w gilydd.	Cadarnhaol drafft	Byddai'r pŵer i wneud rheoliad, pe bai'n cael ei arfer, yn rhoi dyletswydd gyfreithiol sylweddol ar yr Awdurdodau Cyhoeddus yng Nghymru sy'n cael eu dynodi.

Adran	Rhoddwyd y pŵer i	Dull	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
19(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae adran 19(2) yn mewnosod adran 19H i Ddeddf Aer Glân 1993. Mae adran 19H(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i atal dros dro neu lacio Atodlen 1A i'r Ddeddf honno (cosb am allyrru mwg); neu adran 19H(1) o'r Ddeddf honno (troseddau mewn perthynas â phrynu a gwerthu tanwydd). Mae'n briodol i'r pŵer hwn gael ei gynnwys yn y Rheoliadau, am fod angen i Weinidogion Cymru fod â'r disgresiwn ynghylch gwneud darpariaeth o'r fath neu beidio. Dim ond pan fydd yn angenrheidiol neu'n hwylus yn eu barn nhw y dylent wneud hynny.	Negyddol	Gweithdrefn a reolir gan adran 63 o'r Ddeddf Aer Glân.

Adran	Rhoddwyd y pŵer i	Dull	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
22	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae adran 167 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 yn amlinellu'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn o dan adran 168 o'r Ddeddf honno ar gyfer cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd. Mae Adran 22 o'r Ddeddf yn diwygio'r darpariaethau presennol yn adran 167 i estyn yr amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru wneud Gorchymyn o'r fath.	Dim gweithdrefn	Gweithdrefn a reolir gan ddarpariaethau presennol yn Neddf Trafnidiaeth 2000 (adran 169)
24(2)(a)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n diwygio adran 87 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu cosb benodedig neu ystod o gosbau ariannol am drosedd segura llonydd. Mae rheoliadau'n addas am y bydd angen parhau i adolygu a diwygio lefel y gosb benodedig honno.	Cadarnhaol drafft	Yn unol ag adran 87, mae rheoliadau a wneir o dan adran 87 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.
25(7)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n darparu pŵer i newid y terfynau amser y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â nhw wrth adolygu'r strategaeth sŵn	Cadarnhaol drafft	Mae'r pŵer yn galluogi gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol

Adran	Rhoddwyd y pŵer i	Dull	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
			a seinwedd o dan yr adran hon. Mae'n briodol i hwn fod yn bŵer i wneud rheoliadau gan fod angen hyblygrwydd i sicrhau bod y terfynau amser ar gyfer adolygu yn parhau i fod ar adeg synhwyrol mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd. Mae hyn yn sicrhau atebolrwydd democrataidd drwy ei gwneud yn ofynnol i bob Llywodraeth yng Nghymru gynnal adolygiad yn ystod ei dymor llywodraeth.		
26(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddynodi person fel Awdurdod Cyhoeddus perthnasol yng Nghymru y mae'n rhaid iddo roi sylw i'r polisïau yn strategaeth seinweddau genedlaethol Gweinidogion Cymru wrth gyflawni unrhyw swyddogaeth gyhoeddus a allai gael effaith ar seinweddau yng Nghymru. Mae'n briodol i'r pŵer hwn fod yn bŵer i wneud rheoliadau am ei bod yn bosibl y bydd angen newid yr awdurodau	Cadarnhaol drafft	Mae'n rhoi Awdurdodau Cyhoeddus perthnasol a ddynodir yng Nghymru o dan ddyletswydd gyfreithiol sylweddol.

Adran	Rhoddwyd y pŵer i	Dull	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
			sydd i'w dynodi o bryd i'w gilydd.		
27(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pwerau i weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio adran 7 o Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006, gan newid y terfynau amser sy'n gysylltiedig â gwneud a mabwysiadu mapiau sŵn strategol. Mae rheoliadau'n addas am ei fod yn pŵer i ddiwygio rheoliadau presennol.	Negyddol	Diwygio rheoliadau presennol.
27(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio Rheoliad 17 o Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006, gan newid y terfynau amser ar gyfer adolygu cynllun gweithredu, fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau hynny. Mae rheoliadau'n addas am ei fod yn pŵer i ddiwygio rheoliadau presennol.	Negyddol	Diwygio rheoliadau presennol.
28(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae angen pŵer i wneud darpariaethau canlyniadol, trosiannol ac ati, am fod y Ddeddf yn gwneud diwygiadau cymhleth i ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol o fewn rhwydwaith cymhleth o is-	Cadarnhaol drafft yn gymaint ac y mae'r Rheoliadau'n addasu	Mae'r pŵer yn galluogi gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol

Adran	Rhoddwyd y pŵer i	Dull	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
			ddeddfwriaeth a chyfraith yr UE a ddargedwir. Yn y dyfodol mae'n bosibl y bydd angen gwneud newidiadau i sicrhau y gall y Bil barhau i weithredu yn unol â'r bwriad polisi a ddatganwyd.	deddfwriaeth sylfaenol Negyddol fel arall	
30(3)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Addas i'w gychwyn drwy orchymyn gan y bydd angen sicrhau bod trefniadau cyflawni ar waith cyn i'r pŵer ddod i rym.	Dim gweithdrefn	Mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â chychwyn darpariaethau penodol yn y Ddeddf.
Atodlen 1 paragraff 4	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i wneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r gosb uchaf a'r gosb isaf y gellir eu rhoi o dan baragraffau 3(1) a 3(2) o Atodlen 1A i Ddeddf Aer Glân 1993. Mae rheoliadau yn addas am y bydd angen parhau i adolygu a diweddaru maint y cosbau.	Cadarnhaol drafft	Mae'r pŵer yn galluogi gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol
Atodlen 1 paragraff 5	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i wneud rheoliad sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r sail ar gyfer gwrthwynebu'r cosbau ariannol a amlinellir yn Atodlen 1A, paragraff 4. Mae rheoliadau'n addas gan y gall fod angen diwygio'r sail ar gyfer gwrthwynebu yn seiliedig ar brofiadau.	Cadarnhaol drafft	Mae'r pŵer yn galluogi gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol

Adran	Rhoddwyd y pŵer i	Dull	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
Atodlen 2 paragraff 6	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pwerau i wneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch pryd y dylid ystyried bod yr un cynllun yn parhau i fod mewn grym, neu pryd y dylid ystyried bod cynllun gwahanol yn dod i rym, neu heb fod, at ddibenion penderfynu pryd mae'r cyfnod o ddeng mlynedd a nodir yn is-baragraff (2) o baragraff 6 yn dechrau neu'n dod i ben. Mae hefyd yn darparu ar gyfer rheoliadau i benderfynu sut y bydd enillion net yn cael eu defnyddio ar ôl i'r cyfnod o ddeng mlynedd ddod i ben, ynghyd â phŵer i gynyddu'r cyfnod o ddeng mlynedd drwy reoliadau.	Cadarnhaol drafft	Mae'r pŵer yn galluogi gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol

Tabl 5.2: Crynodeb o'r pwerau i wneud cyfarwyddydau a chanllawiau yn narpariaethau Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

Adran	Rhoddwyd y pŵer i	Dull	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
Adran 11	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Mae Adran 11 y Ddeddf yn mewnosod adran newydd 10C yn Neddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi canllaw i awdurdodau lleol ynghylch cynnal eu swyddogaethau o dan adran 10B o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru). Mae Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd hefyd i roi canllaw i unrhyw awdurdod cyhoeddus arall y gallent ei enwi mewn rheoliadau, y mae gofyn iddynt gyflawni swyddogaethau o dan adran 10B. Mae hyn yn addas ar gyfer pŵer rhoi Canllaw gan fod y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn pennu telerau'r Canllaw. Hefyd, adolygir cynnwys y Canllaw yn rheolaidd, felly bydd angen iddo allu cael ei ddiweddaru i adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau sy'n newid.	Dim gweithdrefn	Ystyrir bod canllawiau'n briodol gan mai'r bwriad yw hwyluso'r gwaith o gymhwyso deddfwriaeth sylfaenol.

14(3)(b)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i roi Canllawiau i Awdurdodau Cyhoeddus perthnasol yng Nghymru mewn perthynas ag arfer pwerau a roddwyd o dan adran 81B o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 neu mewn rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ran IV o'r Ddeddf honno. Mae canllawiau'n addas gan y bydd y prif ddarpariaethau'n cael eu hamlinellu ar wyneb Deddf yr Amgylchedd 1995, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf, neu mewn Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru. Bydd y canllawiau'n darparu rhagor o wybodaeth a chymorth i Awdurdodau Cyhoeddus perthnasol yng Nghymru. Dim ond darparu manylion ategol y bydd y canllawiau.	Dim gweithdrefn	Ystyrir bod canllawiau'n briodol gan mai'r bwriad yw hwyluso'r gwaith o gymhwyso deddfwriaeth sylfaenol.

18	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddydau	Mae'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau i bŵer cyfarwyddo presennol a roddwyd i Weinidogion Cymru, sydd yn adran 85 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Mae pŵer cyfarwyddo'n addas gan mai holl bwrpas y ddarpariaeth yw galluogi Gweinidogion Cymru i ddweud wrth awdurdodau lleol am gymryd camau os ydynt wedi methu cydymffurfio â chynlluniau gweithredu neu wedi methu cyflawni safon neu amcan ansawdd aer o fewn y dyddiad a nodwyd mewn cynllun gweithredu.	Dim gweithdrefn	Ystyrir bod pwerau cyfarwyddo'n briodol ac yn gymesur os bydd Gweinidogion Cymru am i awdurdodau lleol gymryd camau i gyflawni dyletswyddau cyfreithiol penodedig. Y cyfan maent yn ei wneud yw ychwanegu pŵer cyfarwyddo sydd eisoes yn adran 85 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.
20	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Mae canllawiau'n addas am fod y prif darpariaethau wedi'u hamlinellu yn Rhan III o Ddeddf Aer Glân 1993. Dim ond darparu manylion ategol y bydd y canllawiau.	Dim gweithdrefn	Ystyrir bod canllawiau'n briodol gan mai'r bwriad yw hwyluso'r gwaith o gymhwyso deddfwriaeth sylfaenol.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Er bod rhannau eraill y Memorandwm Esboniadol wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r ffaith bod y Bil bellach yn Ddeddf, mae'r rhan hon am yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) ac adrannau 7 ac 8 yn cyfeirio at Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Sweinweddau), y "Bil" drwyddi draw. Hynny am y cafodd y dadansoddiad o gostau a manteision y system ei ddefnyddio i'n helpu i graffu ar y Bil yn ystod y broses ddeddfwriaethol. Cafodd yr RIA hwn ei adolygu ddiwethaf ar ôl cael cytundeb ar nifer o ddiwygiadau Cam 2 ond barnwyd nad oedd angen newidiadau arwyddocaol. Bydd yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a gynhyrchir ar gyfer pob is-ddeddfwriaeth a ddaw o'r Ddeddf wedi iddi gael ei rhoi ar waith yn parhau i fireinio ymhellach y dadansoddiad o'r costau a'r manteision. Yn ystod Cam 3, cafodd diwygiadau eu gwneud i gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â Theithio Llesol sydd â goblygiadau ariannol. Gwwelir dadansoddiad o gostau a manteision y darpariaethau hyn ar ddiwedd yr RIA ym mharagraffau 7.323 i 7.240 ac fe'i cynhwysir yn Nhabl A isod.

6. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

6.1. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei gynnal ar gyfer y Bil. Mae'r manylion isod.

6.2. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n arwain at wariant o Gronfa Gyfunol Cymru

Tabl A

6.3. Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno crynodeb o gostau a manteision y Bil yn ei gyfanrwydd. Lluniwyd y tabl i gyflwyno'r wybodaeth sydd ei hangen o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

Yr opsiwn a ffefrir: Cyflwyno Bil sy'n darparu fframwaith deddfwriaethol priodol ar gyfer ansawdd aer a seinweddau.		
Cam: Introduction	**Cyfnod arfarnu:** 2023/24 – 2032/33	**Blwyddyn sylfaen prisiau**: 2022/23
Cyfanswm y Gost **Cyfanswm: £64,366,400 – 81,475,000Gwerth presennol: ££52,277,900– 66,027,600**	**Cyfanswm y Manteision** **Cyfanswm: £0** **Gwerth presennol: £0**	**Gwerth Presennol Net: £-52,277,900 i £-66,027,600**

Cost weinyddol

Costau: Disgwylir mai Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o gostau uniongyrchol y Bil. Mae'r costau hyn yn cynnwys costau staff ar gyfer gweithredu'r darpariaethau yn y Bil, costau sy'n gysylltiedig â sefydlu set o dargedau ansawdd aer, costau parhaus i fonitro ansawdd aer a chronfa i helpu awdurdodau lleol i ddarparu cyfundrefn ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol. Yn ogystal â'r costau refeniw hyn, mae costau cyfalaf rhwng £10.4 miliwn a £14.9 miliwn mewn perthynas â threfniadau gwell ar gyfer monitro ansawdd aer.

Trosiannol: £11,189,600 – 15,698,200	**Ailadroddus: £52,624,000 – 65,224,000**	**Cyfanswm: £63,813,600 – 80,922,200**	**Gwerth presennol: £51,832,100 – 65,581,800**
Arbedion cost: Ni nodwyd unrhyw arbedion cost.			
Trosiannol: £0	**Ailadroddus: £0**	**Cyfanswm: £0**	**Gwerth presennol: £0**
Cost weinyddol net: £63,813,600 – 80,922,200			

Costau cydymffurfio

Gall gweithgareddau gorfodi mewn Ardaloedd Rheoli Mwg arwain at gostau ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol – amcangyfrifir mai £165,600 fydd y costau hyn. Mae awdurdodau lleol hefyd yn debygol o ysgwyddo rhai costau ychwanegol o ganlyniad i'r darpariaethau teithio llesol, yn fras £48,400 y flwyddyn. Mae hefyd yn bosibl y bydd Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol a darpariaethau gwrthsegura yn arwain at gostau ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol, er y bydd cymorth ar gael drwy'r Gronfa Cefnogi Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol (sydd eisoes wedi'i gynnwys yng nghostau Llywodraeth Cymru uchod) .

Trosiannol: £0	**Ailadroddus £552,800**	**Cyfanswm: £552,800**	**Gwerth presennol: £445,800**

Costau eraill

Nid oes unrhyw gostau eraill wedi cael eu nodi

Trosiannol: £	**Ailadroddus: £**	**Cyfanswm: £**	**Gwerth presennol: £**

Costau ac anfanteision heb eu meintioli

Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd costau ychwanegol i gyrff cyhoeddus, busnesau a'r gymdeithas yn gyffredinol mewn perthynas â chydymffurfio, o ganlyniad i'r darpariaethau ar gyfer Targedau Cenedlaethol a Pharthau Aer Glân / Parthau Allyriadau Isel. Bydd maint a digwyddedd y costau hyn yn dibynnu ar y targedau penodol a gyflwynir a lleoliadau unrhyw Barthau Ael Glân / Parthau Allyriadau Isel, felly nid ydynt yn hysbys ar hyn o bryd. Bydd rhagor o waith i amcangyfrif costau a manteision yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses pennu targedau ac wrth fodelu Parthau Aer Glân / Parthau Allyriadau Isel posibl.

Manteision

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (a Rhan 1 o'r Memorandwm Esboniadol hwn) yn cyflwyno tystiolaeth mewn perthynas â'r costau a'r anfanteision sy'n gysylltiedig â'r lefelau presennol o lygredd aer a sŵn. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn rhoi ar waith fframwaith deddfwriaethol a fydd yn helpu i fynd i'r afael â llygredd aer a sŵn, a disgwylir iddynt sicrhau manteision iechyd, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Er nad ydym wedi llwyddo i feintioli'r manteision hyd yn hyn, bydd rhagor o waith er mwyn nodi gwerth ariannol y manteision yn cael ei gynnal wrth bennu'r Targedau Cenedlaethol ac wrth ystyried cyflwyno Parthau Aer Glân / Parthau Allyriadau Isel.	
Cyfanswm: £0	**Gwerth presennol: £0**

Tystiolaeth, rhagdybiaethau a ffactorau ansicr allweddol

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi cael ei lywio gan Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft blaenorol a gwaith ymgynghori ynghylch y Bil. Mae amrediad eang o ddata gweinyddol, ymchwil a thystiolaeth o Gymru a'r tu hwnt wedi cael eu defnyddio i arwain y dadansoddiad.

7. Opsiynau, Costau a Manteision

7.1. Bydd yr adran hon yn archwilio costau a manteision pob cynnig deddfwriaethol yn y Bil yn ei dro, gyda nifer o opsiynau'n cael eu hystyried i benderfynu ar y ffordd orau posibl o wella ansawdd aer yng Nghymru.

7.2. Mae cyfnod arfarnu o ddeg mlynedd wedi cael ei ddefnyddio yn y dadansoddiad, sy'n cynnwys 2023–24 i 2032–33. Mae pob cost yn cael ei chyflwyno mewn prisiau blwyddyn sylfaen 'real' gydag effeithiau chwyddiant cyffredinol wedi cael eu tynnu. Mae hyn yn unol â'r canllawiau yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Fawrhydi. Mae gostyngiad wedi cael ei gymhwyso i'r costau gan ddefnyddio cyfradd ostwng o 3.5%.

7.3. Mae costau wedi cael eu talgrynnu i'r £100 agosaf oni nodir yn wahanol. Efallai na fydd rhai cyfansymiau’n fanwl gywir oherwydd y talgrynnu hwn.

Targedau Cenedlaethol

7.4. Nod yr adran hon o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw cefnogi'r cynnig i gyflwyno fframwaith pennu targedau yng Nghymru.

7.5. Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried i gyflawni amcan Llywodraeth Cymru i ddatblygu deddfwriaeth effeithiol ar sail tystiolaeth ar gyfer pennu targedau, er budd cenedlaethau heddiw a'r dyfodol:

- **Opsiwn un** – Gwneud dim (y llinell sylfaen);
- **Opsiwn dau** – Atgyfnerthu'r dull polisi presennol;
- **Opsiwn tri** – Cyflwyno fframwaith deddfwriaethol newydd i Gymru ar gyfer ansawdd aer sy'n addas i'r diben.

Opsiwn un – Gwneud dim

Disgrifiad

7.6. O dan yr opsiwn hwn, y bwriad fyddai cynnal y dull presennol ar gyfer rheoli ansawdd aer yr amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys cadw'r amcanion presennol ar gyfer ansawdd aer yr amgylchedd, y mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio tuag atynt, a gwerthoedd targedau cenedlaethol sy'n deillio o Gyfarwyddeb Ansawdd Aer yr Amgylchedd yr UE ar gyfer diogelu iechyd pobl a'r amgylchedd. Ni fyddai unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd yng Nghymru y tu hwnt i'r camau sy'n rhan o'r ymrwymiad i ostwng allyriadau pum llygrydd pwysig i'r lefelau y mae'n ofynnol i'r DU eu cyrraedd erbyn 2030 o dan Reoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018 (NECR). Rhoddir opsiwn un fel llinell sylfaen er mwyn cymharu â manteision posibl atgyfnerthu'r dull presennol, ac mae'n cyflwyno fframwaith er mwyn i Weinidogion Cymru gyflwyno targedau ansawdd aer newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y dyfodol.

Costau

7.7. Y bwriad o dan yr opsiwn hwn fyddai cynnal cyllideb bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli ansawdd aer. Er na fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gostau newydd i Lywodraeth Cymru i ddechrau, byddai costau'n cynyddu gydag amser wrth i broblemau iechyd o ganlyniad i ansawdd aer gwael ddod yn fwy amlwg, pan fydd tystiolaeth well ar gael, ac nid yw problemau sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer gwael, iechyd gwael ac anghydraddoldebau yn derbyn sylw. Yn seiliedig ar lefelau cyfartalog o ddeunydd gronynnol mân ($PM_{2.5}$) lle mae pobl mewn cysylltiad ag ef (yn 2016), amcangyfrifir bod 3.16 miliwn o bobl yng Nghymru yn dod i gysylltiad â chrynodiadau cyfartalog o 6µg/m^3 o $PM_{2.5}$, sy'n cyfateb i gost o £950 miliwn y flwyddyn (amcangyfrif canolog). Mae'r amcangyfrif hwn yn cynnwys costau uniongyrchol, er enghraifft, marwolaethau dros y tymor hir, derbyniadau i'r ysbyty am broblemau anadlol, clefyd coronaidd y galon, strociau, asthma mewn plant a chanser; a chostau

anuniongyrchol fel cynhyrchiant ac adeiladau budr. Byddai adnoddau presennol i reoli ansawdd aer yn parhau i gael eu darparu, er ei bod yn bosibl y byddai angen rhagor o gyllid i ymateb i'r costau iechyd a chymdeithasol cysylltiedig.

7.8. Yn dibynnu ar y llwybr penodol a ddefnyddir wrth i Gymru gyflawni cyfran dybiannol o ymrwymiadau'r DU i leihau allyriadau o dan yr NECR a lleihau cysylltiad y cyhoedd â llygredd, yn ôl amcangyfrifon blaenorol y costau cysylltiedig ar draws pob sector fyddai tua £10 miliwn y flwyddyn (cyfanswm costau blynyddol yn ôl prisiau 2017). O ystyried y synergedd â pholisïau datgarboneiddio sero net, byddwn eisoes wedi cyfrif am ran o'r costau hyn, wrth inni gyflawni ein huchelgeisiau â'n targedau newid hinsawdd. Bydd canlyniadau cadarnhaol allweddol ar gyfer targedau ansawdd aer yn deillio o'r cynnydd tuag at ddatgarboneiddio diwydiant, ynni a thrafnidiaeth. O'i chymharu â'r costau iechyd a achosir gan ansawdd aer gwael, mae cost gymharol gweithredu yn fach iawn.

7.9. Er bod y Cynllun Aer Glân i Gymru yn amlinellu camau gweithredu i leihau ffynonellau llygredd yn gyffredinol, gan gynnwys $PM_{2.5}$, mae cysylltiad â $PM_{2.5}$ yn parhau i beri risg sylweddol i iechyd. Hefyd, mae tystiolaeth o effeithiau anghymesur dod i gysylltiad ag ansawdd aer gwael ar grwpiau sensitif yn parhau i ddod i'r amlwg. Felly, ni fyddai gwneud dim yn mynd i'r afael â'r broblem hon. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cost hirdymor peidio â chymryd camau pellach i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac i leihau'r cysylltiad â chrynodiadau $PM_{2.5}$, yn enwedig ar gyfer grwpiau sensitif, yn rhy uchel.

7.10. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol i awdurodau lleol neu gyrff cyhoeddus neu breifat eraill.

Manteision

7.11. Mantais bosibl gwneud dim fydd arbed cost i ddechrau, gan fod opsiynau eraill yn cynnwys costau gweithredu i'r trethdalwr ac i asiantiaid cyflawni statudol.

Crynodeb

7.12. O dan opsiwn un byddai ansawdd aer yr amgylchedd yn parhau i gael ei reoli yn yr un ffordd ag y mae ar hyn o bryd, yn unol â thargedau ansawdd aer statudol presennol ac ymrwymiadau i leihau allyriadau. Ni fydd unrhyw gostau gweithredu newydd ar gyfer awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y costau sy'n ymwneud â chysylltiad ag ansawdd aer gwael i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, am ymdrin ag effeithiau ansawdd aer gwael, yn parhau am flynyddoedd maith yn y dyfodol. Byddai gwneud dim yn effeithio'n benodol ar grwpiau mwy agored i niwed, fel plant ifanc, yr henoed a'r rheini sydd â chyflyrau iechyd sydd eisoes yn bodoli.

Opsiwn dau – Atgyfnerthu'r polisïau presennol

Disgrifiad

7.13. Byddai'r opsiwn hwn yn cadw'r lefelau presennol o ddiogelu'r amgylchedd a roddir gan safonau ansawdd aer yr amgylchedd presennol sy'n deillio o gyfarwyddebau Ewrop (a ddargedwir yn dilyn gadael yr UE), a byddai'n eu diwygio i sicrhau y gallwn efelychu safonau mwy llym a bennir gan yr UE yn y dyfodol. Er enghraifft, ym mis Hydref 2022 cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion ar gyfer safonau ansawdd aer newydd, o fewn diwygiadau i Gyfarwyddebau Ansawdd Aer yr Amgylchedd. Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gymryd camau rhagweithiol i wella ansawdd aer yng Nghymru er budd iechyd y cyhoedd, yr amgylchedd a bioamrywiaeth, a'r economi. Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau bod targedau'n cael eu datblygu'n raddol, er ei bod yn bosibl na fydd targedau'r dyfodol yn cael eu cyflwyno ar adeg neu mewn ffordd lle mae camau'n cael eu targedu i wneud y gwelliannau mwyaf effeithiol yng Nghymru. Fel y cydnabyddir gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), mae angen i'r broses o bennu safonau geisio sicrhau'r crynodiadau isaf posibl yng nghyd-destun cyfyngiadau, galluoedd a blaenoriaethau iechyd y cyhoedd lleol. Byddai pennu targedau newydd sy'n dibynnu ar ddigwyddiadau y tu allan i Gymru a'r DU yn ei gwneud yn fwy anodd eu hintegreiddio â pholisïau cenedlaethol a lleol eraill er budd dinasyddion Cymru yn y tymor hir. Mae'r opsiwn hwn yn adweithiol a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymateb pan wneir newidiadau yn Ewrop, yn hytrach na bod yn rhagweithiol fel opsiwn tri, lle mae gan Lywodraeth Cymru fframwaith ar gyfer pennu ei thargedau ei hun.

Costau

7.14. Byddem yn disgwyl i gostau mewn perthynas ag ansawdd aer barhau i fod ar lefelau presennol, yn unol â'r ymrwymiadau presennol yn y Cynllun Aer Glân i Gymru a'r Cynllun NO_2. Byddai angen cynnal y lefelau presennol o wario ar reoli ansawdd aer, er ei bod yn debygol y bydd angen golygu hyn a chynyddu lefelau gwario yn dilyn cyflwyno targedau a all fod yn fwy llym yn y dyfodol. Mae'r opsiwn hwn yn adweithiol ac felly nid oes modd rhagweld pan fydd y costau'n codi na lefelau'r costau hynny. Byddai costau i adrannau y tu allan i Lywodraeth Cymru yn dibynnu ar natur y targedau a bennir.

Manteision

7.15. Bydd targedau mwy llym a rhagor ohonynt, gan gynnwys targedau sy'n efelychu neu'n rhagori ar safonau'r UE yn y dyfodol, yn helpu i ganolbwyntio camau gweithredu i leihau'r difrod a achosir gan ansawdd aer gwael. Mae'n bosibl y bydd hyn yn lleihau costau i'r gwasanaethau iechyd os yw'r camau a gymerir i wella ansawdd aer yn arwain at iechyd gwell ar gyfer dinasyddion Cymru, yn osgoi

gwaethygu cyflyrau iechyd sydd eisoes yn bodoli ac yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd o ganlyniad i ansawdd aer gwell. Mae'n anodd mesur manteision targedau amhenodol yn y dyfodol heb wybodaeth mewn perthynas â'r llygrydd, lefel y llygrydd, a'r metrig neu'r dyddiad ar gyfer cydymffurfio.

Crynodeb

7.16. Gallai opsiwn dau atgyfnerthu'r polisi presennol drwy gyflwyno targedau newydd yn unol â'r newidiadau i safonau'r UE yn y dyfodol. Mae hwn yn opsiwn adweithiol ac ni fyddai'n cael ei ddatblygu yng nghyd-destun sy'n benodol i Gymru. Felly mae'n anodd rhagweld y costau neu'r manteision a welir drwy ddilyn yr opsiwn hwn. Mae'n debyg mai dim ond os bydd safonau uwch ar gyfer ansawdd aer yn cael eu cyflwyno a'u gweithredu'n effeithiol y gwelir manteision iechyd. Ni wyddys yr amserlenni ar gyfer opsiwn dau. Nid ystyrir mai dyma'r opsiwn gorau ar gyfer gwella iechyd a llesiant dinasyddion Cymru, achos nad yw'n cynnwys pwysau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd penodol mewn perthynas â Chymru. Byddai hyn yn arwain at fframweithiau ar gyfer targedau'n cael eu mabwysiadu nad ydynt wedi cael eu cynllunio o fewn cyd-destun cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru, gan gynnwys y polisïau a'r egwyddorion manwl sy'n gysylltiedig.

Opsiwn tri – Gweithredu fframwaith deddfwriaeth ar gyfer ansawdd aer yng Nghymru

Disgrifiad

7.17. Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno fframwaith ar gyfer pennu targedau ansawdd aer. Byddai Gweinidogion Cymru yn gallu pennu targedau tymor hir a byddai'n ofynnol iddynt bennu targed penodol mewn perthynas â $PM_{2.5}$ yn aer yr amgylchedd o fewn 36 mis i'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol.

7.18. Bydd ein safonau ansawdd aer presennol yn parhau i fod mewn grym yng Nghymru, gan ddarparu dilyniant ac yn sicrhau y cynhelir safonau wrth i dargedau newydd gael eu datblygu. Mae hefyd cyfleoedd i fod yn fwy uchelgeisiol a mynd y tu hwn i'r safonau hyn i leihau effeithiau niweidiol ansawdd aer gwael. Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd WHO ganllawiau wedi'u diweddaru mewn perthynas â chwe llygrydd, gan gynnwys $PM_{2.5}$ ac NO_2. Cafodd y lefel ganllaw ar gyfer $PM_{2.5}$ ei lleihau o 10 $\mu g/m^3$ i 5 $\mu g/m^3$ a chafodd y lefel ganllaw ar gyfer NO_2 ei lleihau o 40 $\mu g/m^3$ i 10 $\mu g/m^3$. Ar hyn o bryd nid oes tystiolaeth glir o grynodiad trothwy ar gyfer $PM_{2.5}$ nac NO_2 nad oes unrhyw effeithiau niweidiol ar iechyd pobl o dano. Felly, mae'n debyg y bydd lleihau crynodiadau'n is na'r trothwy presennol, a hyd yn oed yn is na'r lefel ganllaw, yn arwain at fanteision iechyd ychwanegol. Mae llygryddion eraill hefyd yn effeithio ar iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd, ac rydym yn gwybod mai llygredd aer sy'n peri'r risg amgylcheddol sengl fwyaf i iechyd pobl.

7.19. Bydd fframwaith pennu targedau yn galluogi pennu targedau ychwanegol yn y dyfodol er mwyn sicrhau canlyniadau effeithiol a hirdymor ar gyfer yr oes sydd ohoni a chenedlaethau'r dyfodol. Drwy Ddeddf yr Amgylchedd 2021, cyflwynodd Llywodraeth y DU bwerau a dyletswyddau i bennu targedau amgylcheddol yn Lloegr, ac i gynllunio, monitro ac adrodd ar gynnydd tuag atynt er mwyn diogelu a gwella'r amgylchedd, gan gynnwys ansawdd aer. Mewn modd tebyg, gall y pwerau a'r dyletswyddau i bennu targedau ansawdd aer newydd sy'n rhwymo mewn cyfraith helpu i greu'r sicrwydd tymor byr a hirdymor sydd ei angen i alluogi buddsoddi parhaus mewn polisïau a chamau gweithredu yng Nghymru, gan wella'r aer rydym yn ei anadlu ac yn gwireddu manteision uniongyrchol ar gyfer iechyd y cyhoedd, cynefinoedd a bioamrywiaeth, yn y tymor byr a'r hirdymor.

7.20. Bydd gallu Gweinidogion Cymru i benderfynu ynghylch graddfa, lefelau a dyddiadau ar gyfer targedau ansawdd aer yn y dyfodol yn galluogi pennu targedau yng nghyd-destun y sail dystiolaeth a'r uchelgais polisi yng Nghymru, gan gynnwys ystyried synergedd â pholisïau datgarboneiddio lleol a llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y tymor hir. Ar ôl i dargedau gael eu pennu, bydd y

fframwaith yn cyflwyno cylch ar gyfer eu mesur, eu hasesu ac adrodd amdanynt. Ochr yn ochr â darparu lefel ofynnol ar gyfer ansawdd aer ledled Cymru, hoffem weld targedau i ysgogi gwelliannau parhaus o ran lleihau cysylltiad â llygredd, gan gynyddu'r manteision cysylltiedig cymaint ag y bo modd.

7.21. Bydd yn bwysig deall a yw'r targedau newydd a bennir o dan y fframwaith wedi cael eu cyflawni ac, os nad ydynt, beth yw achosion y broblem a beth y gellir ei wneud i fynd i'r afael â nhw. Mae asesu'r risgiau a'r pwysau sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer yn gallu bod yn broses gymhleth. Dangosodd ein dadansoddiad blaenorol ei bod yn debygol y bydd cryn gynnydd yn cael ei wneud tuag at leihau $PM_{2.5}$ erbyn 2030, ac y bydd rhagor o gynnydd yn cael ei wneud drwy ddefnyddio'r mesurau mwyaf effeithiol ar gyfer lleihau nifer o lygryddion ar draws nifer o sectorau (gan gyfrif am ddatblygiadau deddfwriaethol a thechnegol. Fodd bynnag, nid oedd yn amlinellu llwybr o fesurau polisi y cytunwyd arnynt sy'n ystyried hyfywedd economaidd llawn, nac ymarferoldeb o ran gweithredu'r mesurau hyn. Mae angen seilio targedau newydd ar dystiolaeth gadarn i sicrhau eu bod yn heriol ond yn realistig, ac yn debygol o gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Mae'r broses o bennu targedau ansawdd aer newydd sy'n effeithiol, yn gymesur ac yn ymarferol yn gymhleth ac yn cymryd amser, a bydd angen rhagor o ddadansoddi a chyngor wrth i'r broses ddatblygu.

7.22. Mae dadansoddiad cychwynnol o effeithiau pennu targedau yn yr adran nesaf. Fodd bynnag, bydd dadansoddiad manwl o effeithiau'r is-ddeddfwriaeth yn cael ei gynnal wrth iddi gael ei datblygu, pan fydd manylion y targedau penodol terfynol wedi cael eu nodi.

Costau

7.23. Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am gost gweithredu'r fframwaith pennu targedau, a'r asesu parhaus. Mae'n debygol y bydd hyn yn gofyn am 30% o amser swyddog Gradd 7 (G7) ar gost o £26,000, 75% o amser un Uwch-swyddog Gweithredol (SEO) ar gost o £49,800, 30% o amser un Swyddog Gweithredol Uwch (HEO) ar gost o £15,800 ac 80% o amser un Swyddog Gweithredol (EO) ar gost o £32,400[1]. Bydd y costau'n codi yn ystod y gwaith o ddatblygu a rhoi'r fframwaith ar waith yn ystod y blynyddoedd ariannol 2023/24 i 2032/33. Byddai'r costau ymgysylltu sy'n gysylltiedig â datblygu'r fframwaith rhwng £1.4k a £10k, yn dibynnu ar lefel a maint y digwyddiadau rhithwir a wyneb yn wyneb. Ni fyddai'r darpariaethau hyn yn cael unrhyw effeithiau uniongyrchol ar y gymdeithas. Bydd gwaith ymgynghori hefyd â

[1]Mae'r holl ffigurau ar gyfer costau staff Llywodraeth Cymru yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn seiliedig ar gyfartaleddau 2022–23 (y diweddaraf sydd ar gael). Mae argostau cyflogwyr wedi'u cynnwys yn y ffigurau.

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a rhanddeiliaid eraill, ond disgwylir i'r costau i'r asiantiaid allanol hyn mewn perthynas â'r broses ymgynghori fod yn fach iawn.

7.24. Yn ogystal â chostau sefydlu'r fframwaith bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â phennu targedau o fewn y fframwaith. Byddai defnyddio'r pwerau hyn i newid rheoliadau'n ddarostyngedig i broses ymgynghori a gweithdrefnau priodol y Senedd. Bydd angen cynnal gwaith i nodi'r camau gweithredu y bydd angen eu cymryd i gyrraedd unrhyw dargedau posibl i sicrhau eu bod yn ymarferol ac yn effeithiol o fewn unrhyw amserlenni a nodir. Bydd hyn yn nodi'r lefel bosibl o welliannau y gellir ei chyflawni, ac erbyn pryd. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys nodi'r capasiti priodol ar gyfer monitro, modelu ac adrodd ar ansawdd aer sydd ei angen i fesur, asesu ac adrodd ar gydymffurfio â thargedau penodol. Yn seiliedig ar gomisiynau cymorth technegol tebyg yn y gorffennol, amcangyfrifir y bydd angen hyd at £540k i ddarparu cymorth ymgynghori technegol, a disgwylir y bydd y costau hyn yn codi yn ystod y blynyddoedd ariannol 2023/24 i 2024/25.

7.25. Mae'n debygol y bydd angen camau y tu hwnt i'r mesurau i gyflawni cyfran dybiannol Cymru o ymrwymiad y DU i leihau o dan yr NECR erbyn 2020 a 2030 er mwyn cyrraedd y targedau newydd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes modd amcangyfrif cost gweithredu rheoliad newydd, gan nad yw cwmpas y gweithredu sydd ei angen wedi cael ei ddiffinio. Felly nid yw'r costau penodol hyn yn hysbys ar yr adeg hon. Bydd costau i fusnesau ac aelwydydd os yw'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyrraedd targed mwy llym ar gyfer $PM_{2.5}$. Bydd y costau hyn yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar nifer o ffactorau fel lefel y targed a bennir, y dyddiad cau ar gyfer cyrraedd y targed, y mesurau a ddewisir ar gyfer cyrraedd y targed, newidiadau ym maes technoleg ac effeithiau gweithredu eraill gan y llywodraeth ar ansawdd aer, newid hinsawdd er enghraifft. Bydd y penderfyniad ynghylch pryd a sut i gyflawni targedau a bennir gan Weinidogion Cymru mewn ffordd gosteffeithiol yn seiliedig ar gyngor arbenigol annibynnol. Yn ei dro bydd hyn yn effeithio ar y costau i fusnesau ac aelwydydd, a phryd bydd y costau hyn yn codi. Mae'n bosibl y bydd unrhyw gostau i fusnesau ac aelwydydd yn cael eu lliniaru gan arloesi ym maes technoleg, a gall y maes hwn gael ei gymell ymhellach drwy dargedau llywodraeth.

7.26. Bydd y fframwaith yn ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi trefniadau ar waith ar gyfer casglu data er mwyn asesu'r cynnydd a wnaed tuag at dargedau, ar ôl iddynt gael eu pennu o dan y fframwaith, ac i sicrhau bod data'n cael ei gyhoeddi. Mae'r Cynllun Aer Glân yn gysylltiedig yn agos â'r ddyletswydd i gasglu a chyhoeddi data, ac mae'n cynnwys ymrwymiad i ddatblygu a gweithredu Gwasanaeth Monitro ac Asesu Ansawdd Aer i Gymru, ac mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i estyn y monitro ansawdd aer sy'n cael ei ddarparu. Yn ddarostyngedig i ystyriaeth lawn a fforddiadwyedd, mae gan Weinidogion Cymru bwerau

presennol i weithredu swyddogaeth adrodd a chynghori i ddehongli'r data a gesglir, gan asesu pwysau a risgiau ansawdd aer ledled Cymru a'r cynnydd a wnaed wrth gyrraedd targedau neu dargedau dros dro a bennir o dan y fframwaith gan ddefnyddio pwerau presennol. Gallai'r swyddogaeth, os yw'n cael ei gweithredu'n iawn, roi grym i'r Gwasanaeth Monitro ac Asesu Ansawdd Aer. Byddai'r capasiti monitro ac adrodd posibl y byddai gwasanaeth o'r fath yn ei ddarparu'n sail ar gyfer asesu cydymffurfedd â thargedau newydd ac yn ysgogi gweithredu cydweithredol, cenedlaethol gyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ledled Cymru ar y lefel briodol, er budd iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd yn y tymor hir. Yn seiliedig ar drafodaethau manwl â rheoleiddwyr amgylcheddol, costau dangosol parhaus darparu gwasanaeth gweithredol yw tuag £1.96 miliwn y flwyddyn.

7.27. Comisiynodd Llywodraeth Cymru ymgynghorwyr technegol i gynnal y gwaith o ddatblygu dyluniadau posibl ar gyfer rhwydweithiau monitro ansawdd aer estynedig, ynghyd â'r costau cysylltiedig. Mae'n debyg y byddai cost gyfalaf untro o hyd at £10.4 miliwn (gan gynnwys TAW) ar gyfer prynu a gosod offer yn gysylltiedig â dadansoddiad dangosol i estyn y capasiti cenedlaethol ar gyfer monitro ansawdd aer am $PM_{2.5}$, i ategu targed neu dargedau newydd ar gyfer $PM_{2.5}$ (yn dibynnu ar fath a maint y rhwydwaith monitro). Mae'n debygol y byddai costau refeniw parhaus blynyddol ar gyfer gwaith cynnal a chadw wrth fonitro $PM_{2.5}$, gan gynnwys TAW, hyd at £3.6 miliwn (yn dibynnu ar fath a maint y rhwydwaith monitro).

7.28. Mae gofynion monitro ar gyfer y dyfodol yn ddarostyngedig i ddatblygu'r cynigion penodol ar gyfer targedau ansawdd aer, fforddiadwyedd yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw presennol ac ystyriaeth gan Weinidogion. Mae targedau ansawdd aer yn cael eu datblygu ar hyn o bryd drwy fodelu llwybrau polisi ar gyfer y dyfodol, ochr yn ochr â cheisiadau am gyngor arbenigol gan y Panel Cynghori ar Aer Glân a chyrff cynghorol eraill y llywodraeth. Yn dilyn cyngor a dderbyniwyd gan yr ymgynghoriad Papur Gwyn ar y Bil Aer Glân, canllawiau wedi'u diweddaru'n cael eu cyhoeddi gan WHO a'u cyngor eu hun wrthym, mae'r Panel yn ein cynghori ynghylch cyflwyno targedau newydd yn ogystal â rhai ar gyfer $PM_{2.5}$. Os bydd targedau yn cael eu pennu yn y dyfodol ar gyfer llygryddion eraill, fel PM_{10}, NO_2 ac amonia (NH_3), amcangyfrifir y byddai costau prynu a sefydlu, gan gynnwys $PM_{2.5}$, hyd at £14.9 miliwn, ac amcangyfrifir y byddai'r costau cynnal a chadw parhaus cysylltiedig hyd at £5.7 miliwn (yn dibynnu ar fath a maint y rhwydwaith monitro). Disgwylir y bydd costau ar gyfer gwella'r rhwydwaith ansawdd aer cenedlaethol yn codi yn y blynyddoedd ariannol 2025/26 a 2026/2027, gyda chostau parhaus yn dechrau yn ystod 2027/2028, ar ôl i'r Gweinidogion ystyried y cynigion ar gyfer targedau ansawdd aer.

Tabl 1 – Crynodeb o gostau sy'n gysylltiedig â Thargedau Cenedlaethol: Opsiwn tri – rhoi fframwaith deddfwriaethol ar gyfer ansawdd aer ar waith yng Nghymru

	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
Costau Staff Llywodraeth Cymru	£124k	£124k	£124k	£124k	£124k	£124k	£124k	£124k	£124k	£124k
Costau Ymgysylltu	£1.4k – £10k		-	-	-	-	-	-	-	-
Gwaith Pennu Targedau yn y Dyfodol	£540k		-	-	-	-	-	-	-	-
Y Gwasanaeth Asesu a Monitro Aer Glân	-	£500k	£1.08 miliwn	£1.96 miliwn	£1.96 miliwn	£1.96 miliwn	£1.96 miliwn	£1.96 miliwn	£1.96 miliwn	£1.96 miliwn
Capasiti Monitro $PM_{2.5}$ (Amcangyfrif isaf o gost monitro)	-	£30k	£5.2 miliwn	£5.2 miliwn	£3.6 miliwn	£3.6 miliwn	£3.6 miliwn	£3.6 miliwn	£3.6 miliwn	£3.6 miliwn
$PM_{2.5}$, PM_{10}, NO_2 ac Amonia (NH_3) (Amcangyfrif uchaf o gost monitro)	-	£30k	£7.45 miliwn	£7.45 miliwn	£5.7 miliwn	£5.7 miliwn	£5.7 miliwn	£5.7 miliwn	£5.7 miliwn	£5.7 miliwn

Cyfanswm costau trosiannol	£270.7k -£275k	£300.7k - £305k	£5.2 miliwn - £7.45 miliwn	£5.2 miliwn – £7.45 miliwn						
Cyfanswm costau ailadroddus	£124k	£624k	£1.204 miliwn	£2.084 miliwn	£5.684 miliwn - £7.784 miliwn	£5.684 miliwn - £7.784 miliwn	£5.684 miliwn - £7.784 miliwn	£5.684 miliwn - £7.784 miliwn	£5.684 miliwn - £7.784 miliwn	£5.684 miliwn - £7.784 miliwn
Cyfanswm cost	**£394.7k - £399k**	**£924.7k- £929k**	**£6.404 miliwn - £8.654 miliwn**	**£7.284 miliwn - £9.534 miliwn**	**£5.684 miliwn - £7.784 miliwn**	**£5.684 miliwn - £7.784 miliwn**	**£5.684 miliwn - £7.784 miliwn**	**£5.684 miliwn - £7.784 miliwn**	**£5.684 miliwn - £7.784 miliwn**	**£5.684 miliwn - £7.784 miliwn**

Manteision

7.29. Prif manteision fframwaith pennu targedau yw ei fod yn galluogi Llywodraeth Cymru i ymateb i dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, pwysau a risgiau er budd tymor hir y cyhoedd a'r amgylchedd. Mae Llywodraeth Cymru yn gallu sicrhau y defnyddir dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth bennu unrhyw dargedau ansawdd aer, a bydd yn gallu nodi'r camau y bydd angen eu cymryd cyn pennu unrhyw dargedau newydd. Byddwn yn gallu gwireddu manteision i iechyd yn gynt o lawer, gan y bydd yn haws cyflwyno targedau newydd. Bydd hyn yn ei dro yn lleihau costau iechyd a gofal cymdeithasol.

7.30. Bydd manteision ansawdd aer gwell hefyd yn gwella bioamrywiaeth a mannau awyr agored, sydd yn eu tro yn gwella iechyd a llesiant pobl ac yn gwneud treulio amser yn yr awyr agored a bod yn gorfforol weithgar yn fwy deniadol.

7.31. Yn ôl dadansoddiadau cychwynnol o grynodiadau cyfartalog genedlaethol o $PM_{2.5}$ ac NO_2 ar draws grwpiau economaidd-gymdeithasol, mae crynodiadau ar eu huchaf ar gyfer y grwpiau mwyaf difreintiedig sy'n tueddu i fyw mewn dinasoedd lle mae ansawdd aer ar ei waethaf. Mae asesiadau i amcangyfrif effeithiau mesurau traws-sector i gyflawni cyfran dybiannol Cymru o dargedau'r NECR yn dangos mai ar gyfer y grwpiau mwyaf difreintiedig y mae'r gwelliannau mwyaf i grynodiadau, a bod llai o anghydraddoldeb ar draws pob senario a lefel uchelgais.

7.32. Y tu hwnt i'r manteision sy'n gysylltiedig ag ymrwymiadau presennol i leihau allyriadau o dan yr NECR, mae manteision cyrraedd lefelau mwy llym ar gyfer llygryddion aer blynyddol cyfartalog yn cael eu hamcangyfrif ar sail y costau i'r gymdeithas sy'n cael eu hosgoi os yw allyriadau yn cael eu lleihau. Mae costau difrod yn ffordd seml o werthuso newidiadau i lygryddion aer. Mae'r gost ariannol i'r gymdeithas yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio costau difrod (gweler y tabl isod, gydag amcangyfrifon uchel, isel a chanolig), sydd yn bennaf yn nodi manteision iechyd allyriadau llai neu grynodiadau wedi'u pwysoli yn ôl y boblogaeth. Mae holl fanteision yr ymyrryd yn cael eu hamcangyfrif drwy luosi'r costau difrod â'r boblogaeth sydd mewn cysylltiad â llygryddion. Oherwydd y lefelau targed a dyddiadau ar gyfer cyrraedd targedau nad ydynt wedi cael eu pennu hyd yn hyn, ar hyd o bryd nid oes modd amcangyfrif y manteision cysylltiedig posibl. Pan fydd targed a'r flwyddyn ar gyfer cydymffurfio ag ef wedi cael ei nodi, wedyn gellir amcangyfrif y manteision. Bydd effeithiau ariannol yn cael eu hamcangyfrif drwy'r ddadansoddiad costau-manteision o fewn asesiad o'r effaith, gan amlinellu'r targed arfaethedig.

Tabl 2 – Gwerth newidiadau i grynodiadau o lygryddion aer wedi'u pwysoli yn ôl y boblogaeth – ystod costau difrod fesul uned o lygredd

Effeithiau uniongyrchol – (Fesul person yn 2017 – newid cyfartalog o 1 µg/m^3 wedi'i bwysoli)			
Llygrydd	**Isel**	**Canolog**	**Mawr**
Ocsidau nitrogen (NO_x)	£0.6	£6.3	£19.1
Sylffwr deuocsid (SO_2)	£0.1	£0.1	£0.1
Deunydd gronynnol mân ($PM_{2.5}$)	£13.8	£50.1	£119.7

Crynodeb

7.33. Opsiwn tri yw'r opsiwn a ffefrir, am ei fod yn galluogi Llywodraeth Cymru i ymateb i dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru, pwysau a risgiau er budd hirdymor y cyhoedd a'r amgylchedd, drwy dargedau ansawdd aer pwrpasol. Mae cost sefydlu'r fframwaith yn fach iawn o'i chymharu â chostau iechyd o ganlyniad i ansawdd aer gwael. Bydd y fframwaith pennu targedau'n defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau nad yw unrhyw gamau mae angen eu cymryd i gyrraedd targedau a bennir o dano'n cael effaith niweidiol ar bobl Cymru, yn enwedig y rhai mewn grwpiau difreintiedig. Mae'n debyg mai ar blant, y rhai sy'n byw mewn tlodi a'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd â'r lefelau uchaf o lygredd aer y bydd gwelliannau i ansawdd aer yn cael yr effaith fwyaf.

Hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer

7.34. Mae'r adran hon yn cefnogi cynigion mewn perthynas â'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer, ac mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried yn fanwl:

- **Opsiwn un** – Gwneud dim;
- **Opsiwn dau** – Cyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer.

Opsiwn un – Gwneud dim

Disgrifiad

7.35. Byddai'r opsiwn hwn yn cynnwys cyflawni'r camau gweithredu perthnasol yn y Cynllun Aer Glân i Gymru: Aer Iach, Cymru Iach ('y Cynllun Aer Glân' hyd at 2026. Yn y cynllun ymrwymodd Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- Gwella gwybodaeth am ansawdd aer;
- Cynyddu ymwybyddiaeth drwy ymgyrchoedd fel y Diwrnod Aer Glân;
- Hyrwyddo a chefnogi mentrau lleol.

Costau

7.36. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac i unrhyw sector / sefydliad arall o dan yr opsiwn hwn. Fodd bynnag, mae risg y bydd gweithredu yn y maes hwn yn lleihau ar ôl 2026 os yw ymrwymiadau polisi yn cael eu lleihau neu'n mynd yn flaenoriaeth is gydag amser. Roedd adroddiad y Crwner ar Atal Marwolaethau yn y Dyfodol, a gyhoeddwyd yn dilyn ymchwiliad i farwolaeth plentyn naw mlwydd oed o'r enw Ella Adoo-Kissi-Debrah, yn amlinellu pwysigrwydd ymwybyddiaeth y cyhoedd o ffynonellau llygredd a chamau i leihau cysylltiad â llygredd. Gallai diffyg polisïau i helpu i hyrwyddo ymwybyddiaeth yn y dyfodol arwain at oblygiadau sylweddol ar gyfer iechyd ac at gostau uwch i'r gymdeithas (fel yr amlinellir yn yr adran Targedau Cenedlaethol) o ganlyniad i ddod i gysylltiad â llygredd aer.

Manteision

7.37. Un o fanteision yr opsiwn hwn yw na fyddai unrhyw wariant ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac unrhyw sector / sefydliad arall y tu hwnt i'r ymrwymiadau yn y Cynllun Aer Glân. Fodd bynnag, mae'r potensial i'r ymrwymiad polisi i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd gael ei lastwreiddio neu fod â llai o flaenoriaeth gydag amser, fel y nodir uchod, yn un o anfanteision yr opsiwn hwn. Er bod ymgyrchoedd cenedlaethol a byd-eang a fyddai'n helpu i gadw ymwybyddiaeth o lygredd ar yr agenda, profwyd bod dulliau penodol, wedi'u targedu ac wedi'u cysylltu â chamau gweithredu neu ymddygiadau'n fwy effeithiol.

Crynodeb

7.38. Mae'r opsiwn hwn yn cadw'r status quo ac yn cefnogi cyflawni camau gweithredu i hyrwyddo ymwybyddiaeth hyd at 2026, fel yr amlinellir yn y Cynllun Aer Glân. Fodd bynnag, mae risg y gallai fod llai o weithredu i godi ymwybyddiaeth o lygredd aer yn y dyfodol, neu gallai'r weithredu hwnnw fod â llai o flaenoriaeth, ac mae hyn yn peri risg o'r costau uwch i iechyd a'r gymdeithas o ganlyniad i ddiffyg ymwybyddiaeth o ffynonellau llygredd aer a'r camau y gellir eu cymryd i leihau cysylltiad â llygredd.

Opsiwn dau – Cyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer

Disgrifiad

7.39. Byddai'r opsiwn hwn yn cefnogi gweithredu ar bolisïau i hyrwyddo ymwybyddiaeth yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor, drwy roi dyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer.

Costau

7.40. Byddai'r gwaith o ddatblygu cynllun cyflawni i weithredu'r ddeddfwriaeth yn arwain at gostau gweinyddol i Lywodraeth Cymru. Gallai datblygu cynllun cyflawni a chynnal y gwaith ymgysylltu ac ymgynghori gymryd 12 mis, ac mae'n debyg y byddai angen amser un HEO ar gost o hyd at £52,800, a 25% o amser un SEO ar gost o hyd at £16,600 (0.25 x £66,400) yn y flwyddyn ariannol 2024/25. Gan ddefnyddio cynllun Codi Ymwybyddiaeth o Hawliau Plant Llywodraeth Cymru yn enghraifft, gallai cyfieithu gostio tua £90 (amcangyfrif o £90 fesul 1,000 gair). Y cyfanswm cost fyddai tua £69,500. Yn y dyfodol, gellid lleihau'r costau hyn drwy ymgorffori'r cynllun cyflawni mewn cynlluniau neu strategaethau aer glân yn y dyfodol.

7.41. Amcangyfrifir y byddai angen cyllideb o hyd at £500k y flwyddyn i weithredu'r ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys costau fel datblygu deunyddiau (costau tebygol rhwng £5k a £80k), costau cyfathrebu digidol (costau tebygol rhwng £15k a £120k yn dibynnu ar faint yr ymgyrch) a chefnogi mentrau lleol (mae'n debygol y bydd hyn yn amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn, ond gallai fod rhwng £5k a £300k). Byddai dyraniad y swm hwn rhwng cyfalaf a refeniw yn amrywio a byddai'n dibynnu ar natur y gwaith a wneir; gwneir penderfyniad ynghylch y gwaith hwn yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid. Byddai'r gost hon yn ailadroddus ac yn codi yn dilyn cychwyn y ddeddfwriaeth, sef ddau fis ar ôl iddi dderbyn Cydsyniad Brenhinol – felly byddai'r gost yn dechrau bod yn berthnasol ym mlwyddyn ariannol 2024/25. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rydym wedi defnyddio amcangyfrif uchaf o 500k i sicrhau cymaint o hyblygrwydd ag y bo modd pan fyddwn yn cynllunio camau i'w cymryd gyda rhanddeiliaid.

7.42. Mae'r Gronfa Cefnogi Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol (fel yr amlinellir yn yr Adran Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol isod) wedi dangos gwerth cymorth ariannol ar gyfer awdurdodau lleol i gyflawni mentrau lleol penodol wedi'u targedu, gan gynnwys y rhai sy'n annog ac yn galluogi'r gymuned i gymryd rhan mewn gweithredu ar ansawdd aer. Felly, byddai'r Cynllun Cefnogi Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol yn rhoi cymorth ariannol ychwanegol i alluogi'r ddarpariaeth hon.

Tabl 3 – Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig â Hyrwyddo Ymwybyddiaeth: Opsiwn dau – cyflwyno deddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer

	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
Costau Staff Llywodraeth Cymru	-	£69.5k	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyllideb	-	£500k	£500k	£500k	£500k	£500k	£500k	£500k	£500k	£500k
Cyfanswm costau trosiannol	-	£69.5k	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm costau ailadroddus	-	£500k	£500k	£500k	£500k	£500k	£500k	£500k	£500k	£500k
Cyfanswm cost	**-**	**£569.5k**	**£500k**	**£500k**	**£500k**	**£500k**	**£500k**	**£500k**	**£500k**	**£500k**

Manteision

7.43. Mae'r dull hwn yn goresgyn cyfyngiadau'r opsiwn blaenorol drwy sicrhau y bydd ymrwymiad i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer yn cael ei gynnal. Mae'n anodd mesur manteision yr opsiwn hwn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallai'r costau llai i iechyd a'r gymdeithas, wedi'u cyflawni drwy ymwybyddiaeth uwch ymhlith y cyhoedd o ffynonellau llygredd, a ffyrdd o leihau cysylltiad â llygredd, yn gwneud iawn am y costau uwch sy'n gysylltiedig â gweithredu'r ddeddfwriaeth.

Crynodeb

7.44. Mae opsiwn dau yn ddull sy'n cyfuno polisi a deddfwriaeth sy'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer. Dyma'r opsiwn a ffefrir achos ei fod yn goresgyn y risg sy'n gysylltiedig ag opsiwn un y gallai'r ymrwymiad polisi gael ei lastwreiddio gydag amser, ac yn sicrhau ymdrech gyson a pharhaus i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer. Llywodraeth Cymru yn unig a fydd yn gyfrifol am y costau, gyda chost weinyddol o tua £69,500 i weithredu cynllun cyflawni, a chyllideb barhaus o tua £500k y flwyddyn.

Adolygu a Chyhoeddi Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol i Gymru

7.45. Bydd yr adran hon o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cefnogi darpariaethau mewn perthynas ag adolygu a chyhoeddi strategaeth ansawdd aer genedlaethol i Gymru.

7.46. Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried ar gyfer adolygu a chyhoeddi strategaeth ansawdd aer genedlaethol i Gymru, i sicrhau bod y camau sydd eu angen yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â llygredd aer i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol:

- **Opsiwn un** – Gwneud dim (y llinell sylfaen);
- **Opsiwn dau** – Atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth bresennol.

Opsiwn un – Gwneud dim

Disgrifiad

7.47. Mae Adran 80 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU a Llywodraethau Datganoledig yr Alban a Chymru lunio strategaeth ansawdd aer genedlaethol sy'n cynnwys safonau, amcanion a mesurau ar gyfer gwella ansawdd aer yr amgylchedd ac i barhau i adolygu'r polisïau hyn. Mae deddfwriaeth gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon. Mabwysiadwyd y Strategaeth Ansawdd Aer gyntaf yn 1997. Cafodd hon ei disodli ym mis Ionawr 2000 gan y Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a sefydlodd y fframwaith ar gyfer sicrhau rhagor o welliannau i ansawdd aer yr amgylchedd. Nododd y Strategaeth gamau gweithredu ar lefel leol, lefel genedlaethol a lefel ryngwladol i wella ansawdd aer. Cafodd y strategaeth ei diweddaru ymhellach yn 2003. Arweiniodd adolygiad llawn at strategaeth wedi'i diweddaru a gyhoeddwyd yn 2007.

7.48. Mae gwaith o fewn pob gweinyddiaeth i wella ansawdd aer wedi parhau i wneud cynnydd, ac yn Awst 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y fersiwn gynhwysfawr gyntaf o'r Cynllun Aer Glân i Gymru. At ddibenion adran 80, mae'r Cynllun Aer Glân i Gymru yn strategaeth ansawdd aer genedlaethol.

7.49. Gwnaeth paragraff 2 o Atodlen 11 i Ddeddf Amgylchedd (y DU) 2021 ddiwygio Deddf yr Amgylchedd 1995. Mae mewnosodiad mewn perthynas â'r strategaeth ansawdd aer yn ei gwneud yn ofynnol adolygu'r Ddeddf hon bob pum mlynedd, a'i diwygio os yw hynny'n briodol.

7.50. O ganlyniad, mae bellach ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol bob pum mlynedd. Fodd bynnag, yn wahanol i amcanion llesiant a'r Polisi Adnoddau

Naturiol Cenedlaethol, nid yw'r cylch pum mlynedd hwn wedi'i gysylltu ag etholiadau'r Senedd, ac nid yw'n gyfystyr â dyletswydd glir ar bob Llywodraeth newydd yng Nghymru i gyhoeddi strategaeth ansawdd aer genedlaethol yn amlinellu, yn gynnar yn ei thymor llywodraeth, y camau o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru y maen nhw a chyrff cyhoeddus eraill yn bwriadu eu cymryd yn ystod y pum mlynedd nesaf, y gallan nhw gael eu dwyn i gyfrif yn eu cylch.

7.51. Hefyd, gwnaeth adran 81A o Ddeddf 1995 ddiwygiedig greu dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yn Lloegr i ystyried y Strategaeth wrth arfer unrhyw swyddogaeth gyhoeddus a allai effeithio ar ansawdd aer. Nid oes dyletswydd o'r fath ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru ar hyn o bryd.

Costau

7.52. Gan y byddai'n parhau â'r statws quo, ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac i unrhyw sector / sefydliad arall o dan yr opsiwn hwn.

Manteision

7.53. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac i unrhyw sector / sefydliad arall o dan yr opsiwn hwn.

Crynodeb

7.54. Byddai opsiwn un yn parhau â'r status quo, ac ni fyddai unrhyw gost ychwanegol i unrhyw sector neu sefydliad, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Byddai'r ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r strategaeth ansawdd aer bob pum mlynedd, a'i diwygio os ystyrir bod angen, yn parhau. Fodd bynnag, ni fydd yr adolygiad o reidrwydd yn arwain at rywbeth newydd yn cael ei gyhoeddi. Ni fyddai angen i awdurdodau lleol na chyrff cyhoeddus eraill ystyried y strategaeth i'r graddau y mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yn Lloegr wneud. Byddai'r cylch adolygu pum mlynedd yn cael ei bennu gan ddeddfwriaeth, a allai olygu nad yw'n cyd-fynd â thymhorau Seneddol.

Opsiwn dau – Atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth bresennol

Disgrifiad

7.55. O dan opsiwn dau, byddai'r ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â'r Strategaeth Ansawdd Aer yng Nghymru yn cael ei diwygio mewn tair ffordd:

- Byddai Gweinidogion Cymru yn cael newid y dyddiad ar gyfer yr adolygiad pum mlynedd drwy reoliadau pe bai etholiad Senedd eithriadol, neu pe bai'n ddymunol newid y dyddiad cau yn ystod y cylch etholiadol am unrhyw reswm arall. Byddai rheoliadau o'r fath yn cael eu gwneud dan y weithdrefn gadarnhaol.

- Byddai dyletswydd debyg i adran 80A o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, ac unrhyw awdurdodau cyhoeddus perthnasol a enwir o dan y pwerau yn y Bil, ystyried y strategaeth pan fyddant yn arfer swyddogaethau a allai effeithio ar ansawdd aer.
- Byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi ymgynghoriad pryd bynnag maent yn adolygu'r strategaeth. At ddibenion adran 80, y Cynllun Aer Glân i Gymru yw'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol a fydd yn cael ei hadolygu bob pum mlynedd.

Costau

7.56. Bydd opsiwn dau yn arwain at gostau gweinyddol i Lywodraeth Cymru wrth gynnal ymgynghoriad cyhoeddus bob pum mlynedd (o dan opsiwn un roedd ymgynghori yn ôl disgresiwn). Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai'r costau hyn yn fach ac wedi'u cyfyngu i amser staff, os bydd ymgynghoriadau'n cael eu cynnal yn rhithwir yn y dyfodol. Gall fod hefyd gostau i gyrff cyhoeddus, fel awdurdodau lleol, sy'n codi o'r ddyletswydd i ystyried y strategaeth wrth gyflawni swyddogaethau a allai effeithio ar ansawdd aer. Fodd bynnag, dim ond i gyrff cyhoeddus nad ydynt yn ystyried y strategaeth ar hyn o bryd, ac na fyddent yn gwneud hynny heb ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol, y byddai hyn yn berthnasol. Byddai unrhyw gostau yn y dyfodol yn dibynnu ar gynnwys strategaethau yn y dyfodol ar ôl iddynt gael eu diwygio, a byddai'r strategaethau hyn yn cael eu datblygu drwy'r ymgynghori cyhoeddus statudol sy'n cyd-fynd â phob adolygiad. Byddai unrhyw faich newydd ar awdurdodau lleol yn destun ymgynghoriad llawn â nhw, ac asesiad o unrhyw faich ychwanegol arnynt. Felly, ni wyddys y gost i gyrff cyhoeddus ar hyn o bryd.

Tabl 4 – Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag Adolygu a Chyhoeddi Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol i Gymru: Opsiwn dau – Atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth bresennol

	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
Costau Staff Llywodraeth Cymru	~0	-	-	-	~0	~0	-	-	-	~0

Sylwer: Yr un peth yw'r amcangyfrifon gorau o gostau staff ar gyfer dyletswyddau presennol a'r dyletswyddau wedi'u diwygio gan gynigion y Bil.

Manteision

7.57. O dan yr opsiwn hwn byddai'n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru roi'r un flaenoriaeth i Strategaeth Cymru ag y mae cyrff cyhoeddus yn Lloegr yn ei rhoi i Strategaeth Lloegr, gan alluogi gweithredu cryfach ar ansawdd aer ledled Cymru. Byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi ymgynghoriad ar y strategaeth bob pum mlynedd o leiaf, gan alluogi pobl i ddweud eu dweud ar bolisïau Llywodraeth Cymru ar ansawdd aer. Yn ogystal, gallai'r cylch adolygu pum mlynedd gael ei newid i sicrhau bod y dyddiad cau yn digwydd ar adeg briodol yng nghylch etholiadau'r Senedd, heb yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol.

Crynodeb

7.58. Mae'r opsiwn hwn yn gwneud tri newid allweddol i alluogi'r Strategaeth Ansawdd Aer i wireddu ein huchelgeisiau ar gyfer Cynllun Aer Glân pum mlynedd i Gymru, drwy sicrhau rhagor o dryloywder ac atebolrwydd.

7.59. Opsiwn dau yw'r opsiwn a ffefrir, gan ei fod yn adeiladu ar y status quo drwy gynyddu atebolrwydd, tryloywder a chyfranogiad mewn polisïau i wella ansawdd aer.

Rheoliadau Ansawdd Aer

7.60. Mae'r adran hon o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ategu'r ddarpariaeth mewn perthynas â Rheoliadau Ansawdd Aer.

7.61. Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried i fod yn destun ymgynghoriad ar reoliadau ansawdd aer, at ddibenion Rhan IV o Ddeddf 1995:

- Opsiwn un – Gwneud dim (y llinell sylfaen);
- Opsiwn dau – atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth bresennol.

Opsiwn un – Gwneud dim

Disgrifiad

7.62. Mae Rhan IV o Ddeddf 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth ansawdd aer cenedlaethol a sefydlu system ar gyfer rheoli ansawdd aer yn lleol a dynodi ardaloedd rheoli ansawdd aer.

7.63. Mae adran 87 o Ddeddf 1995 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol sy'n berthnasol i reoliadau a wneir at ddibenion Rhan IV o'r Ddeddf honno.

7.64. Mae adran 87(7) yn amlinellu'r gofynion ar gyfer ymgynghori mewn perthynas â'r rheoliadau a wneir at ddibenion Rhan IV.

7.65. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol:

a) yr asiantaeth briodol sydd, yn unol ag adran 91(1) o Ddeddf 1995, yn golygu Cyfoeth Naturiol Cymru.
b) cyrff neu unigolion sydd yn eu barn nhw yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol, fel y maent yn ei hystyried yn briodol;
c) cyrff neu unigolion sydd yn eu barn nhw yn cynrychioli buddiannau diwydiant, fel y maent yn ei hystyried yn briodol;
d) cyrff neu unigolion eraill fel y maent yn ei hystyried yn briodol.

Costau

7.66. Gan y byddai'n parhau â'r statws quo, ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac i unrhyw sector / sefydliad arall o dan yr opsiwn hwn.

Manteision

7.67. Ni fyddai unrhyw gost ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac i unrhyw sector / sefydliad arall o dan yr opsiwn hwn.

Crynodeb

7.68. Byddai opsiwn un yn cadw'r status quo o ran y ffordd mae Deddf 1995 wedi'i drafftio, ac ni fyddai unrhyw gost ychwanegol i unrhyw sector neu sefydliad, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Ni fyddai unrhyw newid o ran yr unigolion / cyrff a mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â nhw pan fyddant yn gwneud rheoliadau at ddibenion Rhan IV.

Opsiwn dau – Atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth bresennol

Disgrifiad

7.69. O dan opsiwn dau, byddai'r gofynion ynghylch ymgynghori yn adran 87(7) o Ddeddf 1995 yn cael eu hatgyfnerthu.

7.70. Byddai'r adran 87(7) bresennol yn cael ei datgymhwyso mewn perthynas â Chymru, a byddai is-adran newydd (7B) yn cael ei mewnosod mewn perthynas â Chymru, pan fydd Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ynghylch rheoliadau at ddibenion Rhan 1V o Ddeddf 1995.

7.71. Mae'r adran newydd (7B) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol:

a) Corff Adnoddau Naturiol Cymru;
b) pob awdurdod lleol yng Nghymru;
c) Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru;
d) pob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru;
e) y cyhoedd

Costau

7.72. I bob pwrpas nid yw adran 87(7) wedi cael ei diwygio ers i Ddeddf 1995 dderbyn Cydsyniad Brenhinol. O ystyried pwnc y rheoliadau y gellir eu gwneud o dan adran 87, byddai Gweinidogion Cymru, yn unol â'r arferion gorau presennol mewn perthynas ag ymgynghori, yn ymgynghori â'r cyhoedd a'r cyrff penodol a enwir wrth wneud rheoliadau at ddibenion adran 87 – hyd yn oed pe na bai adran 87(7) yn cael ei diwygio i'w wneud yn ofyniad caeth. Felly mae'r diwygiad yn rhoi statws ffurfiol i'r hyn a fyddai'n cael ei wneud fel mater o arfer da beth bynnag.

7.73. Felly, ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac i unrhyw sector neu sefydliad arall o dan yr opsiwn hwn, gan ei fod yn rhoi statws ffurfiol i'r hyn sydd eisoes yn cael ei wneud mewn gwirionedd beth bynnag.

Tabl 5 – Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig â Rheoliadau Ansawdd Aer: Opsiwn dau – Atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth bresennol

	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
Costau Staff Llywodraeth Cymru	~0	-	-	-	~0	~0	-	-	-	~0

Sylwer: Yr un peth yw'r amcangyfrifon gorau o gostau staff ar gyfer y ddyletswydd bresennol i ymgynghori a'r ddyletswydd i ymgynghori wedi'i diwygio gan gynigion y Bil.

Manteision

7.74. Mantais diwygio adran 87 o Ddeddf 1995 yn y ffordd a gynigiwyd fyddai atgyfnerthu'r gofynion ymgynghori ac adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd beth bynnag pan wneir rheoliadau o dan adran 87.

Crynodeb

7.75. Mae'r opsiwn hwn yn diwygio'r gofynion ymgynghori yn adran 87 o Ddeddf 1995.

7.76. Opsiwn dau yw'r opsiwn a ffefrir oherwydd ei fod yn atgyfnerthu'r trefniadau presennol ar gyfer ymgynghori, ac yn adlewyrchu'r hyd sy'n digwydd mewn gwirionedd beth bynnag pan wneir rheoliadau at ddibenion Rhan IV o Ddeddf 1995.

Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol

7.77. Mae'r adran hon yn cefnogi'r cynigion deddfwriaethol ar gyfer Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol. Mae ymchwil academaidd (gan Brunt et al 2016, Barnes et al 2018, Brunt a Jones 2019 er enghraifft), ac ymchwil nas cyhoeddwyd a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan Brifysgol Caerdydd (Seller 2019) wedi nodi nad yw'r system Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol yng Nghymru yn gweithio mor effeithiol ag y gallai fe wneud, ac yn tynnu sylw at yr angen am ddull mwy rhagweithiol ac ataliol sy'n canolbwyntio ar iechyd y cyhoedd. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag asesiadau diweddar o drefniadau Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â materion a godwyd gyda Llywodraeth Cymru gan awdurdodau lleol, sefydliadau trydydd sector a'r cyhoedd ar lafar a thrwy ymatebion i ymgynghoriadau.

7.78. Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried i gyflawni amcan Llywodraeth Cymru o wella'r fframwaith Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol presennol er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol:

- Opsiwn un – Gwneud dim, senario busnes fel arfer;
- Opsiwn dau – Atgyfnerthu'r dull presennol drwy ddiweddariadau i'r canllawiau statudol a thechnegol;
- Opsiwn tri – Egluro ac atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth ar Reoli Ansawdd Aer yn Lleol, wedi'i hategu gan ganllawiau statudol.

Opsiwn un – Gwneud dim, senario busnes fel arfer

Disgrifiad

7.79. O dan yr opsiwn hwn byddwn yn parhau â'r dull presennol ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol. Nid yw hyn yn cynnwys egluro dyletswyddau presennol na chynigion ar gyfer dyletswyddau ychwanegol. Rhoddir Opsiwn un yn llinell sylfaen i'w chymharu â manteision posibl opsiynau eraill.

Costau

7.80. Y bwriad o dan yr opsiwn hwn fyddai cadw'r system Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol fel y mae, heb newid adnoddau ar gyfer awdurdodau lleol, a heb unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y dull presennol yn arwain at fesurau adweithiol yn parhau, yn hytrach na mesurau ataliol. Felly, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo costau o ganlyniad i gysylltiad parhaus â lefelau uchel o lygredd aer a'r anghydraddoldebau cysylltiedig (fel yr amlinellir uchod yn yr adran Targedau Cenedlaethol). Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol ymlaen llaw i awdurdodau lleol nac i gyrff cyhoeddus neu breifat eraill o dan yr opsiwn hwn.

Manteision

7.81. Ni ellir nodi unrhyw fanteision i'r opsiwn busnes fel arfer hwn. Mae'n cynnal y status quo ac nid yw'n arwain at unrhyw gostau ymlaen llaw i Lywodraeth Cymru nac i unrhyw gorff arall. Fodd bynnag, mae anfanteision i'r opsiwn hwn oherwydd bydd y costau i iechyd y gymdeithas ac iechyd yr amgylchedd o ganlyniad i lygredd aer a amlinellir uchod yn parhau.

Crynodeb

7.82. Mae opsiwn un yn parhau â'r trefniadau presennol ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol, fel y'u hamlinellir yn Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Ni fydd unrhyw gostau newydd ar gyfer gweithredu i Lywodraeth Cymru nac i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd costau iechyd a chymdeithasol eraill yn codi os nad yw'r trefniadau Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol yn cael eu gwella fel eu bod yn gweithredu'n fwy effeithiol.

Opsiwn dau – Atgyfnerthu'r dull presennol drwy ddiweddariadau i'r canllawiau statudol a chanllawiau

Disgrifiad

7.83. Byddai'r opsiwn hwn yn cadw'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol, ond yn ceisio gwneud gwelliannau drwy ddiweddaru'r canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol. Gallai'r canllawiau gynnwys dulliau wedi'u diweddaru ar gyfer blaenoriaethu camau gweithredu a darparu cyngor ar fesurau ataliol sy'n gallu sicrhau manteision ar gyfer iechyd a'r amgylchedd. Byddai'r templedi adrodd ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol yn cael ei ddiweddaru hefyd i adlewyrchu a hwyluso'r arferion gorau a amlinellir yn y canllawiau newydd.

Costau

7.84. Llywodraeth Cymru fyddai'n gyfrifol am gost diweddaru canllawiau statudol a thechnegol a hyfforddi awdurdodau lleol. Byddai hyn yn gofyn am amser un HEO ar gost o hyd at £52,800, 25% o amser un SEO ar gost o £16,600 (0.25 x £66,400) a £576 ar gyfer costau cyfieithu (cyfanswm o 6400 o eiriau yng nghanllawiau statudol Llywodraeth Cymru x uchafswm cost cyfieithu o £90 fesul mil o eiriau). Felly, y cyfanswm cost fyddai tua £69,900, a byddai'r gost hwn yn codi yn y flwyddyn ariannol 2024 – 2025.

7.85. Mae'r bosibl y gallai'r costau a amlinellir yn opsiwn tri, sy'n gysylltiedig â chynnal y camau gweithredu, astudiaethau dichonoldeb ac asesiadau modelu, godi, yn dibynnu ar amgylchiadau pob awdurdod lleol. Mae'n annhebyg y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at gostau i unrhyw gyrff chyhoeddus neu breifat eraill.

Tabl 6 – Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig â Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol: Opsiwn dau – Atgyfnerthu'r dull presennol drwy ddiweddaru canllawiau statudol a thechnegol

	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2031/32
Costau i Lywodraeth Cymru	Amherthnasol	£69.9k	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm cost (pob cost yn drosiannol	Amherthnasol	**£69.9k**	-	-	-	-	-	-	-	-

Manteision

7.86. Bydd canllawiau gwell a mwy eglur yn gwneud yr angen i awdurdodau lleol gymryd camau ataliol yn gliriach, gyda'r nod o leihau'r achosion o dorri trothwyon a faint o amser mae cymunedau'n dod i gysylltiad â chrynodiadau uwch o lygredd. Gallai hyn arwain at gostau llai i wasanaethau iechyd ac i Lywodraeth Cymru os yw'r camau a gymerir yn arwain at ansawdd aer gwell yng Nghymru. Mae'r manteision a gafodd eu costio yn adran y Fframwaith Pennu Targedau yn rhoi syniad o'r manteision y gellid eu gwireddu. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau'r fframwaith deddfwriaethol presennol, mae'n anodd gweld i ba raddau y byddai'r manteision hynny'n cael eu gwireddu drwy'r opsiwn hwn.

Crynodeb

7.87. Byddai opsiwn dau yn atgyfnerthu'r system bresennol drwy ddiweddaru canllawiau i roi syniad cliriach o'r ffordd y dylai awdurdodau lleol fynd ati i Reoli Ansawdd Aer yn Lleol yn eu hardal nhw. Mae'r opsiwn hwn yn tueddu i annog camau ataliol ar draws ardal i leihau'r tebygolrwydd o achosion o dorri trothwyon. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yr opsiwn hwn yn llai effeithiol oherwydd, er y dylid dilyn a chydymffurfio â'r canllawiau, bydd ei effeitholrwydd yn cael ei rwystro gan y fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol.

Opsiwn tri – Egluro ac atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol drwy Fil yr Amgylchedd (Cymru) (Ansawdd Aer a Seinweddau)

Disgrifiad

7.88. Bwriad yr opsiwn hwn yw diweddaru'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol drwy ganllawiau statudol diwygiedig a chymorth cyllid ar gyfer awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys diwygio ac egluro'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol a amlinellir yn Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno gofyniad cliriach i awdurdodau lleol gynnal adolygiad blynyddol, sy'n cyd-fynd â'r broses bresennol ar gyfer Adroddiadau Cynnydd Blynyddol. Bydd y fframwaith deddfwriaethol newydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys y dyddiad cydymffurfio a nodir ar gyfer yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru. Bydd opsiwn tri yn cael ei ategu gan ganllawiau ar Reoli Ansawdd Aer yn Lleol wedi'u diweddaru a thempledi adrodd wedi'u diweddaru ar gyfer awdurdodau lleol.

Costau

7.89. Mae'n debygol y bydd y gost weinyddol o £69,900 i Lywodraeth Cymru, a gafodd ei hamcangyfrif a'i hamlinellu yn opsiwn dau, yn codi wrth iddi ddiweddaru canllawiau a thempledi adrodd a hyfforddi awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol eisoes yn gyfrifol am gyfieithu templedi adrodd felly na fyddai unrhyw gostau newydd iddyn nhw.

7.90. Mae'n debygol y bydd y costau ychwanegol i awdurdodau lleol am amser swyddogion, asesiad modelu, astudiaeth ddichonoldeb a chynnal y camau sy'n codi ar ôl nodi'r dyddiad ar gyfer cydymffurfio. Mae'r diwygiadau eraill a gynigir yn diwygio'r fframwaith deddfwriaethol presennol ac nid ydynt yn rhoi unrhyw ofynion newydd i awdurdodau lleol, gan gynnwys y diwygiad i adolygiadau blynyddol, sy'n cyd-fyd â'r broses ar gyfer Adroddiadau Cynnydd Blynyddol.

a) Dyddiadau cydymffurfio a nodir ar gyfer Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer:

7.91. Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu mesurau ar gyfer Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, ond rydym wedi gweld ei bod yn debygol y bydd nodi dyddiadau cydymffurfio ar gyfer Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn arwain at gostau uwch i awdurdodau lleol, am astudiaethau dichonoldeb a chynnal camau gweithredu.

7.92. Bydd angen astudiaethau dichonoldeb er mwyn asesu hyfywedd dyddiad cydymffurfio ac i ystyried sut y bydd cydymffurfedd yn cael ei sicrhau o fewn yr amser hwn.

7.93. Mae tystiolaeth gan awdurdodau lleol yn dangos y gall astudiaethau dichonoldeb o'r fath gostio rhwng £20k a £150k, a bydd costau gweithredu yn gysylltiedig â'r camau gweithredu a nodir ar gyfer Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. Mae amrediad eang o gamau gweithredu y gall awdurdodau lleol ddewis eu cymryd, ac iddynt gostau amrywiol, felly mae'n anodd amcangyfrif yn union faint fydd y costau gweithredu. Fodd bynnag, mae enghreifftiau a gasglwyd o Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer presennol yn cynnwys gweithgareddau ymgysylltu sy'n costio £10 – 50k, prosiectau seilwaith bach i ganolig sy'n costio £10k – £750k a prosiectau seilwaith mawr a allai gostio dros £750k – fodd bynnag, dylid nodi ei bod yn debygol bod prosiectau seilwaith yn cael eu hariannu drwy gynlluniau eraill Llywodraeth Cymru, fel cronfeydd trafnidiaeth leol a chronfeydd teithiol llesol.

7.94. Fel enghraifft o gostau posibl, rydym yn amcangyfrif, os yw pob awdurdod lleol sydd ag Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ar hyn o bryd (12) yn gwneud cais am y cyfanswm cyllid refeniw (£150), a chost ganolrif ar gyfer gweithredu o £380k (£10k + £750k/2), mai'r cyfanswm cost fyddai £6.36 miliwn (12 x £150k + £380k). Fodd bynnag, ni fyddai'r holl gostau hyn yn codi yn ystod un flwyddyn, ac ni fyddent yn cyd-fynd yn union â blynyddoedd ariannol cyfan gan fod cylchoedd cynlluniau gweithredu'n seiliedig ar yr adeg y cafodd yr ardal ei dynodi yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer.

b) Cynnig ariannu:

7.95. I ariannu'r costau ychwanegol posibl hyn i awdurdodau lleol, rydym wedi lansio Cronfa Cefnogi Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol, ac wedi'i threialu drwy gynllun peilot dau gam i nodi'r manteision ac unrhyw broblemau posibl. Cynhaliwyd y cam cyntaf rhwng Hydref 2021 a Mawrth 2022 ac roedd yn ariannu amrediad eang o brosiectau ansawdd aer gwerth dros £355k ar draws tri awdurdod lleol. Cafodd ail gam ei gynnal rhwng Hydref 2022 a Mawrth 2023 a fydd, ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, yn ariannu prosiectau gwerth £100k. Disgwylir i rowndiau eraill o'r cynllun hwn weithredu ar draws blynyddoedd ariannol llawn, i roi cymaint o amser ag y bo modd i awdurdodau eu cyflawni, a bydd cyllideb o hyd at £1 miliwn (gall y gymhareb rhwng cyfalaf a refeniw amrywio). Mae meini prawf y cynllun yn annog cynigion gan awdurdodau lleol sy'n bodloni un neu fwy o'r canlynol:

- **Atal** – camau sy'n ceisio gwella ansawdd aer ac atal crynodiadau rhag mynd yn waeth / neu'n mynd yn uwch na'r trothwyon cyfreithlon;
- **Lliniaru** – camau sy'n ceisio gwella problemau ansawdd aer presennol a / neu wella ansawdd aer mewn Ardal Rheoli Ansawdd Aer;
- **Arloesi** – defnyddio dulliau neu dechnolegau arloesol i wella ansawdd aer a / neu leihau cysylltiad â llygredd aer.

7.96. Bydd y gronfa’n galluogi awdurdodau lleol i wneud cynnig am gyllid i gefnogi amrediad eang o weithgareddau ar gyfer Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, gan gynnwys costau newydd sy'n codi wrth weithredu deddfwriaeth newydd neu ganllawiau statudol.

7.97. Mae awdurdodau lleol wedi parhau i ddweud y bydd staffio'n broblem wrth weithredu'r cynigion newydd. I ddatrys hyn, bydd awdurdodau lleol yn cael gwneud cynnig am staff ychwanegol am gyfnod penodol i gynnal prosiectau penodol drwy'r prosiect. O ran y costau uchaf, byddai ariannu un aelod llawn amser o staff, ar radd sy'n cyfateb i radd SEO yn Llywodraeth Cymru, ar gyfer pob awdurdod lleol yn costio £1,460,000 (£66,400 x 22). Fodd bynnag, byddai costau staff yn amrywio dros y blynyddoedd yn dibynnu ar nifer yr awdurdodau lleol y mae angen staff ychwanegol arnynt ar gyfer prosiectau, gradd y staff sydd eu hangen a hyd y prosiect.

7.98. Yn dilyn adolygiad o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer staff drwy'r grant, bydd gofynion staff tymor hwy yn cael eu hystyried a'u harchwilio gydag awdurdodau lleol os bydd angen.

7.99. Amcangyfrifir mai'r cyfanswm cyllid sydd ei angen i gynnwys dyddiadau cydymffurfio posibl a nodir ar gyfer Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, a chynigion posibl ar gyfer staff ychwanegol, yw £7.82 miliwn (£6.36 miliwn + £1.46 miliwn). Ni fydd y costau hyn yn cyd-fynd yn union â blynyddoedd ariannol.

7.100. Crynodeb: Gan ystyried y costau a amlinellir uchod a blaenoriaethau gwahanol pob awdurdod lleol o ran ansawdd aer, mae cronfa o £1 miliwn y flwyddyn wedi cael ei chreu i gefnogi'r amrediad eang o weithgareddau y mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol eu cynnal i sicrhau trefniadau mwy effeithiol ar gyfer Ardaloedd Rheol Ansawdd Aer. I osgoi unrhyw ddyblygu, y gost i Lywodraeth Cymru am ddarparu cronfa gymorth ar gyfer Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer sy’n cael ei chyflwyno yn y tabl isod, nid y costau i'r awdurdodau lleol.

7.101. Mae'n debygol y bydd gweinyddu'r grant yn costio amser un HEO ar gost o hyd at £52,800, a 25% o amser un SEO ar gost o £16,600 (0.25 x £66,400). Mae'n debygol y bydd y costau hyn yn berthnasol am yr holl gyfnod arfarnu.

Tabl 7 – Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig â Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol – Egluro ac atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol drwy Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
Costau Staff Llywodraeth Cymru	£69.4k	£139.3k	£69.4k	£69.4k	£69.4k	£69.4k	£69.4k	£69.4k	£69.4k	£69.4k
Costau cyfieithu		£0.6k								
Cronfa Cefnogi Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (mae'n debygol y bydd y gymhareb rhwng refeniw a chyfalaf yn amrywio)	£1 miliwn	£1 miliwn	£1 miliwn	£1 miliwn	£1 miliwn	£1 miliwn	£1 miliwn	£1 miliwn	£1 miliwn	£1 miliwn
Cyfanswm costau trosiannol		**£70.5k**								
Cyfanswm costau ailadroddus	**£1.0694 miliwn**	**£1.0694 miliwn**	**£1.0694 miliwn**	**£1.0694 miliwn**	**£1.0694 miliwn**	**£1.0694 miliwn**	**£1.0694 miliwn**	**£1.0694 miliwn**	**£1.0694 miliwn**	**£1.0694 miliwn**
Cyfanswm cost	**£1.0694 miliwn**	**£1.0694 miliwn**	**£1.0694 miliwn**	**£1.0694 miliwn**	**£1.0694 miliwn**	**£1.0694 miliwn**	**£1.0694 miliwn**	**£1.0694 miliwn**	**£1.0694 miliwn**	**£1.0694 miliwn**

Manteision

7.102. Bydd angen trefniadau Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol mwy effeithiol er mwyn gweithredu'r cynigion deddfwriaethol hyn yn briodol. Bydd hyn yn arwain at leihau cysylltiad â llygredd, diogelu aelodau mwyaf agored i niwedd ein cymdeithas a cheisio sicrhau lefelau llygredd aer sydd mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol. Bydd hyn yn diogelu iechyd y cyhoedd yn fwy effeithiol, ac felly mae'n debygol o leihau'r costau i iechyd a'r gymdeithas sy'n cael eu hysgwyddo ar hyn o bryd. Gall costau sy'n gysylltiedig â chamau ataliol fod yn is na'r rhai sy'n gysylltiedig â mesurau adweithiol o ganlyniad i gynllunio mwy effeithiol. Felly, mae'n debygol y bydd dull ataliol yn cynyddu gwerth am arian prosiectau. Er ei bod yn anodd amcangyfrif yn fanwl y manteision hyn, oherwydd yr amrediad o weithgareddau y gallai awdurdodau lleol eu cynnal, mae manteision ariannol mynd i'r afael â llygredd aer a roddir yn yr adran Targedau Cenedlaethol yn rhoi syniad o'r manteision posibl.

Crynodeb

7.103. Opsiwn tri yw'r opsiwn a ffefrir gan y bydd yn hwyluso cyfundrefn fwy effeithiol ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol. Mae'n debygol y bydd cost gwella'r gyfundrefn ddeddfwriaethol gryn dipyn yn llai na'r costau i iechyd a'r gymdeithas sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer gwael. Rydym wedi archwilio'r costau uwch posibl i awdurdodau lleol wrth weithredu opsiwn tri, ac mae hyn wedi arwain at y Gronfa Cefnogi Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol a fydd yn darparu cymorth a chyllid parhaus.

Rheoli Mwg

7.104. Mae'r adran hon o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ymdrin â chynnwys darpariaethau posibl ar gyfer rheoli mwg yn y Bil. Bydd y Bil yn cynnwys cosbau sifil ariannol a fydd yn disodli'r sancsiynau troseddol presennol mewn perthynas ag allyriadau mwg mewn ardal rheoli mwg, y gellir eu rhoi gan awdurdodau lleol. Mae'n anodd gweinyddu'r sancsiynau troseddol presennol yn Neddf Aer Glân 1993, ac yn anaml y maent yn arwain at erlyniad. Bydd sancsiynau sifil yn darparu sancsiwn mwy cymesur ac effeithiol na'r un troseddol sy'n bodoli ar hyn o bryd, i nodi a mynd i'r afael â phroblemau ansawdd aer cyn gynted ag y bod modd.

7.105. Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried i gyflawni amcan Llywodraeth Cymru i wella'r ffordd mae deddfwriaeth rheoli mwg yn cael ei defnyddio a'i gorfodi i wella ansawdd aer:

- **Opsiwn un** – Gwneud dim, senario busnes fel arfer;
- **Opsiwn dau** – Atgyfnerthu'r dull presennol drwy gyhoeddi canllawiau;
- **Opsiwn tri** – Diweddaru deddfwriaeth rheoli mwg drwy Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) a chyhoeddi canllawiau.

Opsiwn un – Gwneud dim, senario busnes fel arfer

Disgrifiad

7.106. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r dull presennol ar gyfer rheoli mwg fel y'i hamlinellir yn Rhan 3 o Ddeddf Aer Glân 1993 yn cael ei gynnal. Ni fyddai hyn yn arwain at unrhyw newidiadau i ddyletswyddau presennol awdurdodau lleol.

Costau

7.107. Byddai'r opsiwn hwn yn cadw'r gyfundrefn bresennol ar gyfer rheoli mwg. Ni fyddai adnoddau ar gyfer awdurdodau lleol yn newid, ac ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Mae'n debygol y byddai cadw'r dull presennol o weithredu yn golygu y byddai'r lefelau isel o ddefnyddio gorchmynion rheoli mwg yn parhau.

7.108. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol i awdurodau lleol na chyrff cyhoeddus neu breifat o dan yr opsiwn.

Manteision

7.109. Ni ellir nodi unrhyw fanteision i'r opsiwn busnes fel arfer hwn. Mae'n cynnal y statws quo ac nid yw'n arwain at unrhyw gost i Lywodraeth Cymru nac i unrhyw gorff cyhoeddus arall. Gellid ystyried hyn yn fantais, ond mae'n bosibl y bydd y fantais hon yn cael ei thanseilio gan

y costau posibl i iechyd a'r gymdeithas (fel y'u hamlinellir yn yr adran Targedau Cenedlaethol) sy'n codi o ganlyniad i golli'r cyfle i wella'r gyfundrefn rheoli mwg a lleihau llygredd aer.

Crynodeb

7.110. O dan opsiwn un byddem yn parhau â'r gyfundrefn rheoli mwg bresennol fel y'u hamlinellir yn Rhan 3 o Ddeddf Aer Glân 1993. Ni fyddai unrhyw gostau newydd ar gyfer gweithredu i Lywodraeth Cymru nac i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd costau i iechyd a'r gymdeithas yn codi os nad yw'r gyfundrefn rheoli mwg yn cael ei gwella.

Opsiwn dau – Atgyfnerthu'r dull presennol drwy gyhoeddi canllawiau

Disgrifiad

7.111. Mae'r opsiwn hwn yn ceisio gwella'r ffordd mae deddfwriaeth rheoli mwg bresennol yn cael ei gweithredu a'i gorfodi drwy gyhoeddi canllawiau statudol newydd i awdurdodau lleol. Gallai'r canllawiau statudol gynnwys codi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth ag effeithiau arferion llosgi gwael, ac annog ymddygiad gwell.

Costau

7.112. Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am gost creu a chyhoeddi canllawiau ar reoli mwg ar gyfer awdurdodau lleol. Disgwylir y bydd y gwaith o ddrafftio'r canllawiau, cynnal ymgynghoriadau â rhanddeiliaid a chyhoeddi ymatebion a'r dogfennau terfynol gymryd 24 mis yn ystod 2023–2024 a 2024–2025, a bydd angen 30% o amser un aelod o staff ar radd HEO. Gydag argostau mae hyn yn £15,800 y flwyddyn.

7.113. Mae'n bosibl y bydd costau i awdurdodau lleol os ydynt yn dewis gweithredu camau a amlinellir yn y canllawiau, er nad oes modd mesur y costau hyn gan nad oes modd rhagweld i ba raddau y bydd pob awdurdod lleol unigol yn defnyddio'r canllawiau newydd. Fodd bynnag, gallai awdurdodau lleol gael mynediad at gymorth ariannol i weithredu camau a amlinellir yn y canllawiau drwy'r Gronfa Cefnogi Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol a amlinellir uchod ym mharagraff 7.100 a Thabl 7 (cyllideb o hyd at £1 miliwn y flwyddyn) a'r gyllided codi ymwybyddiaeth a amlinellir uchod (cyllideb o £500k y flwyddyn).

7.114. O dan yr opsiwn hwn, bydd y gyfundrefn droseddol bresennol yn parhau i fod yn berthnasol i unrhyw fwg sy'n cael ei allyrru o simnai mewn Ardal Rheoli Mwg, felly, mae'n debygol y byddai'r lefel o gamau gorfodi gan awdurdodau lleol yn parhau i fod yn isel oherwydd y tebygolrwydd isel o sicrhau euogfarn. Mae'n golygu y bydd mwg o fusnesau ac aelwydydd yn parhau i gael ei hallyrru o fewn Ardaloedd Rheoli Mwg yn ddi-rwystr, gan gyfrannu at ansawdd aer gwael yn yr ardal leol.

Tabl 8 – Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig â Rheoli Mwg: Opsiwn dau – Atgyfnerthu'r dull presennol drwy gyhoeddi canllawiau

	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
Costau Staff Llywodraeth Cymru	£15.8k	£15.8k	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfieithu'r canllawiau	-	£600	-	-	-	-	-	-	-	-
Bydd costau awdurdodau lleol yn dilyn y canllawiau	-	-	*	*	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm cost (pob cost yn drosiannol)	**£15.8k**	**£16.4k**								

*Ni ellir ei mesur. Bydd yn dibynnu ar lefel o gyfranogiad pob awdurdod lleol ond bydd cymorth ar gael gan y Gronfa Cefnogi Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol.

Manteision

7.115. Mae corff cryf o dystiolaeth sy'n cysylltu lefelau uwch o farwolaethau â chysylltiad tymor hir â deunydd gronynnol, a gallai'r llygrydd hwn gael ei allyrru o simneiau wrth losgi tanwydd solet. Bydd canllawiau gwell a chliriach yn gwneud yr angen i awdurdodau lleol weithredu i reoli mwg yn fwy eglur. Gall defnydd uwch o'r gyfundrefn rheoli mwg, a rhagor o weithredu a gorfodi, leihau llygredd aer, ac o ganlyniad arwain at gostau is i wasanaethau iechyd.

Crynodeb

7.116. Bwriad yr opsiwn hwn yw darparu canllawiau i awdurdodau lleol i annog camau gweithredu ataliol ar draws ardal i leihau baich ac effaith $PM_{2.5}$ yn yr aer.

Opsiwn tri – diweddaru deddfwriaeth Rheoli Mwg drwy'r Bil Ansawdd Aer a Seinweddau a chyflwyno canllawiau ar reoli mwg

Disgrifiad

7.117. Bwriad yr opsiwn hwn yw ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol fynd i'r afael ag achosion o fwg yn cael ei allyrru o simneiau mewn Ardaloedd Rheoli Mwg. Bydd y Bil yn cyflwyno cosbau ariannol sifil i ddisodli'r sancsiynau sifil presennol mewn perthynas ag allyrru mwg mewn Ardal Rheoli Mwg, y gellir eu rhoi gan awdurdodau lleol. Rydym hefyd yn cynnig dileu amddiffyniadau (h.y. defnyddio trwydded esemptio neu danwydd awdurdodedig) sy'n atal awdurdodau lleol rhag mynd i'r afael â llosgi domestig. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd y gyfundrefn sancsiynau sifil yn darparu sancsiwn mwy cymesur ac effeithiol na'r un presennol, i nodi a mynd i'r afael â phroblemau ansawdd aer cyn gynted ag y bo modd. O dan y gyfundrefn sancsiynau sifil rhoddir pwyslais ar amrediad o opsiynau sydd ar gael i awdurdodau lleol, gan gynnwys addysg, rhannu'r arferion gorau ac offerynnau newid ymddygiad eraill.

7.118. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn cynnwys dileu'r ddarpariaeth ar gyfer ad-dalu costau addasu ar gyfer cartrefi a adeiladwyd cyn 1964 pan fydd ardal rheoli mwg newydd yn cael ei chreu neu pan fydd ardal rheoli mwg bresennol yn cael ei haddasu.

7.119. Gellid darparu cyngor ar ddarpariaethau'r Bil ac offerynnau a thechnegau ar gyfer gwella ansawdd aer drwy'r Canllawiau Statudol a Thechnegol. Byddai angen i awdurdodau lleol ddiweddaru eu strategaethau rheoli mwg drwy ystyried y canllawiau hyn

7.120. Un o fwriadau'r opsiwn hwn yw diweddaru Deddf Aer Glân 1993 i gynnwys y darpariaethau uchod.

Costau

7.121. Byddai'r trefniadau ar gyfer costau rheoli mwg yn parhau fel y maent o dan darpariaethau presennol Deddf Aer Glân 1993, lle mae awdurdodau lleol yn cyfrannu at gost addasiadau pan fyddant yn nodi Ardal Rheoli Mwg newydd, ac mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y costau gwella hyn os yw'n dweud wrth awdurdod lleol am ddynodi Ardal Rheoli Mwg. Fodd bynnag, rydym wedi dileu'r ddarpariaeth bod awdurodau lleol yn ad-dalu costau addasu ar gyfer cartrefi a adeiladwyd cyn 1964 pan fydd ardal rheoli mwg newydd yn cael ei chreu neu pan fydd ardal rheoli mwg bresennol yn cael ei haddasu. Ni fydd unrhyw gostau i gartrefi na busnesau (fel tafarnau a gwestai) o fewn Ardaloedd Rheoli Mwg sydd eisoes yn llosgi tanwyddau awdurdodedig (e.e. tanwydd solet di-fwg) neu ddyfeisiau esempt (e.e. stofiau wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio mewn Ardal Rheoli Mwg) priodol gan na ddylent allyrru mwg o'u simneiau. Mae cartrefi a

busnesau sy'n allyrru mwg o'u simneiau, drwy losgi tanwyddau solet a reolir (a elwir yn danwyddau anawdurdodedig ar hyn o bryd) mewn dyfeisiau nad ydynt wedi'u hesemptio (e.e. lle tân agored) eisoes yn cyflawni trosedd o dan y ddeddfwriaeth bresennol, ac felly ni fydd y newidiadau arfaethedig hyn yn arwain at gostau uwch.

7.122. Mae'n bosibl nad yw rhai aelwydydd yn gwybod eu bod mewn Ardal Rheoli Mwg, a'u bod yn defnyddio'r tanwydd anghywir heb wybod, yn llosgi tanwydd yn y ffordd anghywir a / neu ei ddefnyddio mewn dyfeisiau nad ydynt yn cydymffurfio. O'r pedwar awdurdod lleol sydd ag Ardaloedd Rheoli Mwg, dim ond Casnewydd sy'n rhestru'r strydoedd sy'n dod o fewn ffiniau'r Ardal ar ei wefan, nid yw'r tri arall yn gwneud hyn. Mae'r opsiwn hyn yn cynnwys canllawiau i awdurdodau lleol y mae'n bosibl y gallent gynnwys argymell strategaethau ar gyfer codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ofynion Ardaloedd Rheoli Mwg, ac ymgyrch newid ymddygiad i annog a hyrwyddo'r arferion gorau mewn perthynas â llosgi tanwydd solet. Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am gost llunio a chyhoeddi canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ar reoli mwg. Disgwylir i'r gwaith o ddrafftio'r canllawiau, ymgynghoriadau â rhanddeiliaid a chyhoeddi'r ymatebion a'r dogfennau terfynol gael eu cynnal yn y 24 mis rhwng 2023–2024 a 2024–2025, a'r gost fydd 30% o amser un HEO. Gydag argostau mae hyn yn £15,800 y flwyddyn.

7.123. Bydd cyfieithu'r canllawiau'n costio hyd at tua £630 (amcangyfrif yn seiliedig ar 7,000 gair ar gost o £90 fesul mil o eiriau)

7.124. Mae'n bosibl y bydd darparu'r canllawiau a chyflwyno cosbau sifil yn arwain at faich ychwanegol i'r awdurdodau lleol hynny sydd ag Ardal Rheoli Mwg. Dim ond un o'r awdurdodau lleol sydd ag Ardal Rheoli Mwg ymatebodd i'n cais am wybodaeth am gostau sy'n codi wrth fynd i'r afael ag allyriadau mwg. Mae 13 cwyn am fwg wedi cael eu derbyn yn ystod y pum mlynedd diwethaf, er nad yw un o'r rhain wedi arwain at erlyniad. Fel amcangyfrif hael, nid ydym yn credu y byddai'r newidiadau ar gynigir yn arwain at fwy na 10% o amser ychwanegol swyddog gorfodi yn yr awdurdodau lleol sydd ag Ardaloedd Rheoli Mwg. Gan ddefnyddio cyflog cyfartalog swyddog gorfodi o £35,400, ac ychwanegu 30% mewn argostau, rydym yn amcangyfrif y byddai cynnydd o 10% i amser swyddog gorfodi yn costio £4,600 y flwyddyn ar gyfartaledd i bob awdurdod lleol, gan arwain at gost flynyddol o £18,400 ar gyfer Cymru gyfan, gan ddechrau yn 2024–25.

7.125. Mae'n bosibl y bydd costau i awdurdodau lleol os ydynt yn dewis gweithredu camau a amlinellir yn y canllawiau, er nad oes modd mesur y costau hyn gan nad oes modd rhagweld i ba raddau y bydd pob awdurdod lleol unigol yn defnyddio'r canllawiau newydd. Fodd bynnag, gallai awdurdodau lleol gael mynediad at gymorth ariannol i weithredu camau a amlinellir yn y canllawiau drwy'r Gronfa Cefnogi Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol a amlinellir uchod ym mharagraff 7.100 a

Thabl 7 (cyllideb o hyd at £1 miliwn y flwyddyn) a'r gyllided codi ymwybyddiaeth a amlinellir uchod (cyllideb o £500k y flwyddyn). Gallai Llywodraeth Cymru hefyd ddatblygu deunydd cyfathrebu i'w ddefnyddio ledled Cymru drwy'r gyllideb codi ymwybyddiaeth.

7.126. Mae'n bosibl y bydd awdurdodau lleol o'r farn nad yw'r cyllid presennol yn ddigon i ddarparu'r cymorth a roddir i wella dyfeisiau a ganiateir o dan Ddeddf Aer Glân 1993, ond ni fydd modd mesur hyn nes i'r canllawiau gael eu cyhoeddi, a bydd yn dibynnu ar gynnwys Strategaethau Rheoli Mwg diwygiedig yr awdurdodau lleol.

7.127. Nid ydym o'r farn y bydd effaith sylweddol ar y System Gyfiawnder o dan opsiwn tri, ac mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder yn adlewyrchu hyn.

Tabl 9 – Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig â Rheoli Mwg: Opsiwn Tri – diweddaru deddfwriaeth Rheoli Mwg drwy'r Bil Ansawdd Aer a Seinweddau a chyhoeddi canllawiau ar Reoli Mwg

	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
Costau Staff Llywodraeth Cymru	£15.8k	£15.8k	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfieithu'r canllawiau	-	£630	-	-	-	-	-	-	-	-
Costau awdurdodau lleol ar gyfer gorfodi'r gyfundrefn newydd	-	£18.4k	£18.4k	£18.4k	£18.4k	£18.4k	£18.4k	£18.4k	£18.4k	£18.4k
Bydd costau awdurdodau lleol yn dilyn y canllawiau	-	-	*	*	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm costau trosiannol	£15.8k	£16.43k								

Cyfanswm costau ailadroddus		£18.4k	£18.4k	£18.4k	£18.4k	£18.4k	£18.4k	£18.4k	£18.4k	£18.4k
Cyfanswm cost	**£15.8k**	**£34.83k**	**£18.4k**	**£18.4k**	**£18.4k**	**£18.4k**	**£18.4k**	**£18.4k**	**£18.4k**	**£18.4k**

*Ni ellir ei mesur. Bydd yn dibynnu ar lefel o gyfranogiad pob awdurdod lleol ond bydd cymorth ar gael gan y Gronfa Cefnogi Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol

Manteision

7.128. Bydd cosbau ariannol sifil yn darparu sancsiwn mwy cymesur ac effeithiol na'r gyfundrefn droseddol bresennol, a bydd problemau ansawdd aer yn cael eu nodi ac yn derbyn sylw cyn gynted ag y bo modd. Nododd adolygiad gan Lywodraeth Cymru o sancsiynau sifil ar gyfer troseddau yn 2015 fod defnyddio sancsiynau sifil yn atal diffyg cydymffurfio ac yn darparu ffordd effeithiol a theg o orfodi, gan leihau'r risg o niwed i'r amgylchedd ac atal niwed rhag digwydd neu rhag parhau.

7.129. Byddai cyflwyno'r cynigion deddfwriaethol hyn yn galluogi cyfundrefn rheoli mwg i gefnogi dull ataliol sy'n canolbwyntio ar iechyd. O dan y gyfundrefn newydd, bydd camau gweithredu'n canolbwyntio ar yr arferion gorau ac ar fanteision i iechyd y cyhoedd.

7.130. Er y bydd yr opsiwn hwn yn arwain at gostau uwch i Lywodraeth Cymru, mae manteision i'r amgylchedd, natur ac iechyd pobl drwy leihau'r risg o broblemau ar gyfer yr ecosystem, yr hinsawdd ac iechyd pobl o ganlyniad i lygredd mwg wedi cael eu cofnodi yn dda

7.131. Er bod ansicrwydd ynghylch ei union gyfraniad, ystyrir mai llosgi tanwydd solet domestig a masnachol yw'r ffynhonnell fwyaf o $PM_{2.5}$ yng Nghymru, yn ôl adroddiad a gafodd ei gomisiynu gan DEFRA. Bydd lleihau cysylltiad â $PM_{2.5}$ a all gael ei allyrru o simneiau wrth losgi rhai mathau o danwydd solet, yn diogelu'r aelodau mwyaf agored i niwed o'n cymdeithas ac yn helpu i sicrhau bod lefelau o $PM_{2.5}$ mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

7.132. Mae'n bosibl y bydd y ddarpariaeth ar gyfer ad-dalu costau addasu ar gyfer cartrefi a adeiladwyd cyn 1964 pan fydd ardal rheoli mwg newydd yn cael ei chreu, neu pan fydd ardal rheoli mwg bresennol yn cael ei haddasu, yn annog awdurodau lleol i ddefnyddio'r ddeddfwriaeth hon i fynd i'r afael ag ardaloedd lle mae llygredd aer yn arbennig o uchel a gwella ansawdd aer yn eu hardaloedd.

7.133. Yn yr un modd ag opsiwn dau, bydd canllawiau gwell a chliriach yn galluogi awdurdodau lleol i leihau lygredd aer. Gall canllawiau hefyd arwain at gostau llai i wasanaethau iechyd os yw'r camau a gymerir yn arwain at ansawdd aer gwell yng Nghymru.

Crynodeb

7.134. Y gwahaniaeth rhwng opsiwn dau a thri yw ychwanegu cyfundrefn sancsiynau sifil i'w gwneud yn haws mynd i'r afael ag allyriadau mwg o simneiau mewn Ardaloedd Rheoli Mwg, a dileu costau addasu penodol i annog creu ardaloedd rheoli mwg newydd. Dyma'r opsiwn a ffefrir am ei fod yn edrych ar ddull ehangach ar gyfer mynd i'r afael ag allyriadau mwg drwy codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a rhannu'r arferion gorau i hyrwyddo newid ymddygiad, gyda chosb ariannol yn

cael ei defnyddio fel yr opsiwn olaf. Gallai'r dull cyfannol hwn o fynd i'r afael ag allyriadau mwg mewn Ardaloedd Rheoli Mwg leihau lefel y costau iechyd a chymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer gwael.

Allyriadau o Gerbydau: Cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd

7.135. Mae'r adran hon o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cefnogi cynigion yn y Bil mewn perthynas â phwerau i greu Parth Aer Glân / Parth Allyriadau Isel (CAZ / LEZ) drwy:

- greu pwerau i gyflwyno cynlluniau Parth Aer Glân neilltuedig ar gyfer cefnffyrdd;
- adolygiadau i'r darpariaethau presennol ynghylch defnyddio'r enillion net o gynlluniau cefnffyrdd;
- cychwyn pwerau presennol mewn perthynas â chynlluniau codi tâl awdurdodau lleol.

7.136. Nod y ddeddfwriaeth ddiwygiedig yw galluogi, pan fydd angen, gyflwyno Parthau Aer Glân effeithiol i hwyluso cydymffurfio â deddfwriaeth ansawdd aer, a gwelliannau yn ardal cefnffyrdd lle mae angen gweithredu i fynd i'r afael ag ardaloedd lle mae lefelau uchel o lygredd.

7.137. Mae'r Fframwaith Parthau Aer Glân drafft ar gyfer Cymru yn disgrifio Parthau Aer Glân fel: 'Ardal darged lle caiff amrywiaeth o gamau gweithredu cydgysylltiedig eu cymryd gyda'r bwriad o sicrhau, yn yr amser byrraf posibl, lleihad sylweddol yng nghysylltiad y cyhoedd a'r amgylchedd â llygryddion niweidiol a gludir yn yr aer o bob ffynhonnell.' Mae codi tâl o fewn Parth Aer Glân yn cynnwys strwythur ffioedd sy'n berthnasol i yrwyr cerbydau nad ydynt yn cydymffurfio o fewn yr ardal dan sylw.

7.138. Isod mae'r opsiynau sy'n cael eu hystyried mewn perthynas â'r adran hon, sydd â'r nod o wneud cyflwyno Parthau Aer Glân yn haws pan fydd y dystiolaeth yn dangos y byddai Parth o'r fath yn mynd i'r afael ag ardal lle mae llygredd yn broblem ddifrifol:

- **Opsiwn un** – Gwneud dim, senario busnes fel arfer;
- **Opsiwn dau** – Datblygu Fframwaith Parthau Aer Glân a chychwyn pwerau i awdurdodau lleol godi tâl o dan Ran III o Ddeddf Trafnidiaeth 2000;
- **Opsiwn tri** – Creu pwerau i gyflwyno cynlluniau Parth Aer Glân neilltuedig ar gyfer cefnffyrdd o dan Ran III o'r Ddeddf Trafnidiaeth drwy'r Bil Aer Glân, datblygu Fframwaith Parthau Aer Glân a chychwyn pwerau i awdurdodau lleol godi tâl.

Opsiwn un – Gwneud dim (y llinell sylfaen)

Disgrifiad

7.139. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r ddeddfwriaeth bresennol o dan Ran III o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (Codi Tâl ar Ddefnyddwyr Ffyrdd ac Ardollau Parcio yn y Gweithle) yn cael ei chadw. Er bod y Ddeddf yn darparu ar gyfer creu cynlluniau codi tâl lleol, nid yw'r pwerau hyn wedi cael eu cychwyn yn llawn yng Nghymru. Mae hyn yn golygu ar hyn o bryd nad yw awdurdod lleol yn gallu creu cynllun codi tâl lleol naill ar ei ben ei hun neu mewn partneriaeth ranbarthol ag awdurdodau cyfagos. O dan y senario 'gwneud dim' ni fyddai'r pwerau hyn yn cael eu cychwyn ochr yn ochr â phwerau'r Bil. Byddai darpariaethau ar gyfer cefnffyrdd yn parhau i gael eu cyfyngu i codi tâl i ddefnyddio pontydd a thwneli yn unig (lle maent o leiaf 600 metr o hyd), ac ni ellid defnyddio enillion net o gynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd ond ar gyfer polisïau neu gynigion trafnidiaeth, gan gyfyngu hyblygrwydd o ran buddsoddi. Rhoddir yr opsiwn hwn er mwyn cymharu â'r llinell sylfaen.

Costau

7.140. Nid yw unrhyw gostau gweinyddol neu gostau cydymffurfio'n codi o'r opsiwn hwn, gan na fydd unrhyw newidiadau i'r amgylchiadau presennol. Fodd bynnag, mae costau o ran colli'r cyfle i ddefnyddio Cynlluniau Codi Tâl ar Ddefnyddwyr Ffyrdd i sicrhau gostyngiadau sylweddol i lygredd o allyriadau cerbydau.

7.141. O dan Ran III o Ddeddf Trafnidiaeth 2000, caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd os yw'r ffordd yn mynd dros bont neu o dan dwnnel o leiaf 600 metr o hyd (Adran 167). Y bwriad o dan yr opsiwn hwn fyddai cadw'r gyfundrefn bresennol, felly ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i fusnesau, y sector cyhoeddus, elusennau na'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai costau o ganlyniad i'r cyhoedd yn dal i ddod i gysylltiad â llygredd aer yn parhau, ac y byddem yn parhau i fethu cyrraedd targedau ansawdd aer neu drothwyon statudol, heb gyfundrefn codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd effeithiol er mwyn galluogi cynlluniau i wella ansawdd aer.

7.142. Heb y ddeddfwriaeth arfaethedig, a chychwyn pwerau i awdurdodau lleol o dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000, ni ellid cynnwys elfen codi tâl ar gyfer unrhyw Barth Aer Glân yn y dyfodol, naill ar ffyrdd lleol neu gefnffyrdd, ac felly ni fyddai mor effeithiol o ran lleihau llygredd o allyriadau. Yn ôl Adolygiad Annibynnol o Godi Tâl ar Ddefnyddwyr Ffyrdd yng Nghymru: 'Mae gan ddyluniad cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd botensial gwirioneddol i ddylanwadu ar ansawdd aer.' Byddai gorfodi llai effeithiol drwy gynlluniau lle nad yw tâl yn cael ei godi yn arwain at yr angen i fabwysiadu mesurau lliniaru eraill a all fod yn llai effeithiol. Byddai hyn yn golygu y gwelir lefelau uwch o lygredd aer mewn mannau problemus dros gyfnod hwy, ac

felly gall fod methiant mwy parhaus i gadw o fewn trothwyon statudol presennol ar gyfer llygredd nitrogen deuocsid (NO_2). Hefyd byddai'r cyfle yn cael ei golli i greu refeniw drwy godi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd a allai gael ei ailfuddsoddi mewn cynlluniau i ategu cynaliadwyedd a gwella ansawdd aer ymhellach.

7.143. Yn 2018, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Fframwaith Parthau Aer Glân drafft i Gymru sy'n diffinio sut y dylid datblygu cynlluniau, gan gynnwys y rhai sy'n codi tâl. Heb gynigion y Bil, byddai cwmpas unrhyw ganllawiau terfynol sy'n cael eu cyhoeddi'n cael ei gyfyngu, gan na fyddai'r cyngor yn cynnwys defnyddio senarios codi tâl wrth ddatblygu Parthau Aer Glân ar Gefnffyrdd.

7.144. Nid oes modd mesur y costau i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i beidio â chreu pwerau a fyddai'n galluogi Parthau Aer Glân yng Nghymru, gan na fydd unrhyw gynllunio penodol yn codi yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae sawl enghraifft o Barthau Aer Glân yn Lloegr sy'n gallu dangos i raddau pa mor effeithiol yw cynlluniau o'r fath wrth leihau llygredd aer. Enghraifft gyfagos yw Birmingham, lle y daeth Parth Aer Glân i rym yng nghanol y dref ym mis Mehefin 2021. Yn y chwe mis cyntaf o weithredu'r parth cafwyd bod y cynllun wedi cyfrannu at ostyngiad o 13% mewn lefelau cyffredinol o NO_2, gostyngiad sylweddol. Mae tystiolaeth yn dangos cysylltiad rhwng crynodiadau is o lygryddion aer a risgiau iechyd is.

Manteision

7.145. Mae'r opsiwn 'gwneud dim' hwn yn parhau â'r status quo. Felly, bydd y gofyniad posibl i gydymffurfio â safonau ar gyfer allyriadau cerbydau a'r angen i uwchraddio fflydoedd cerbydau a'r tarfu cysylltiedig er mwyn bodloni gofynion Parthau Aer Glân yn cael eu dileu. Bydd hyn yn rhywfaint o fudd i rai defnyddwyr ceir (y rhai sy'n defnyddio cerbydau hŷn sy'n llygru mwy) o ran osgoi costau sy'n codi o Barthau Aer Glân, e.e. o ganlyniad i daliadau neu ddirwyon, costau uwchraddio cerbydau neu gost defnyddio ffyrdd eraill lle nad yw taliadau Parth Aer Glân yn berthnasol.

Crynodeb

7.146. Ni fydd opsiwn un yn arwain at unrhyw gostau gweithredu newydd i Lywodraeth Cymru nac i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae Parthau Aer Glân â thâl yn darparu offeryn cryf ar gyfer mynd i'r afael ag allyriadau cerbydau, a byddai'r opsiwn hwn yn golygu na ellid eu cyflwyno ar y rhwydwaith cefnffyrdd (oni bai eu bod yn rhan o gynllun codi tâl i ddefnyddio pont neu dwnnel), nac ar ffyrdd lleol, gan na fyddai pwerau i awdurdodau lleol gyflwyno cynlluniau yn gael eu cychwyn yn llawn ochr yn ochr â'r Bil (ond gallent gael eu cyflwyno o hyd fel rhan o waith ar wahân ac i amserlen wahanol). Rhaid ystyried costau'r opsiwn hwn mewn perthynas â'r cyfyngiadau mae'n eu rhoi ar yr hyblygrwydd i gyflwyno Parthau Aer Glân i gefnogi gweithredu

sylweddol ar lygredd o allyriadau cerbydau, gan olygu y bydd y potensial ar gyfer costau i iechyd a'r gymdeithas o ganlyniad i ansawdd aer gwael yn parhau.

Opsiwn dau – datblygu Fframwaith Parthau Aer Glân a chychwyn pwerau i awdurdodau lleol godi tâl o dan Ran III o Ddeddf Trafnidiaeth 2000

Disgrifiad

7.147. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer Codi Tâl ar Ddefnyddwyr Ffyrdd o dan Ran III o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (fel mae'n berthnasol i bontydd a thwneli) yn cael ei chadw, a byddai pwerau awdurdodau lleol yn cael eu cychwyn drwy is-ddeddfwriaeth. Byddai Llywodraeth Cymru yn diweddaru ac yn cyhoeddi Fframwaith Parthau Aer Glân terfynol ar gyfer Cymru i reoli'r gwaith o ddatblygu Parthau Aer Glân lleol, gan sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl i gynyddu'r manteision i ansawdd aer cymaint ag y bo modd a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu mewn modd teg a chyfiawn. Ni fyddai'r opsiwn hwn, fodd bynnag, yn galluogi cyflwyno Parthau Aer Glân sy'n codi tâl ar y rhwydwaith cefnffyrdd, ac o ganlyniad bydd yn cyfyngu ar opsiynau i fynd i'r afael ac ardaloedd lle mae lefelau uchel o NO_2 lle mae trothwyon statudol yn cael eu torri.

Costau

7.148. Bydd costau cychwyn pwerau i awdurdodau lleol godi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd a datblygu Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru yn weinyddol (canllawiau) a Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am y costau hyn. Gellir cychwyn pwerau ar unrhyw adeg drwy orchymyn, yn dibynnu ar gapasiti adnoddau. Byddai costau cychwyn y gorchymyn tua £1,500, gan adlewyrchu cyn lleied o amser ar gyfer drafftio a gweinyddu a fyddai ei angen. Gan gymryd y byddai hyn yn cael ei wneud cyn gynted ag y bo modd (heb gael ei gysylltu ag amserlen y Bil), gellid gwneud y gorchymyn yn ystod blwyddyn ariannol 2024–25, ochr yn ochr â chyhoeddi'r fframwaith canllawiau. Byddai costau datblygu'r canllawiau tua £30,000, gan adlewyrchu amser staff ar gyfer drafftio'r ddogfen ynghyd ag unrhyw ymgysylltu a / neu ymgynghori sydd eu angen.

7.149. Ni fyddai'r naill fesur na'r llall o dan yr opsiwn hwn yn arwain yn uniongyrchol at gyflwyno cynlluniau codi tâl, gan na fyddai awdurdodau lleol o dan unrhyw ddyletswydd i ystyried eu cyflwyno. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddant yn dewis gwneud hynny fel ffordd effeithiol o fynd i'r afael â phroblemau ansawdd aer parhaus ar bwys ffyrdd, lle mai nhw yw'r awdurdod lleol perthnasol.

7.150. Byddai costau i awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig ag unrhyw cynllun codi tâl yn y dyfodol yn codi ar ffurf gwaith modelu, asesiadau ac astudiaethau dichonoldeb ar gyfer gweithredu a chostau dilynol sy'n gysylltiedig â'r seilwaith codi tâl sydd ei angen a sefydlu swyddogaethau swyddfa. Byddai hefyd ddisgwyliad i gyllid fod ar gael i gefnogi mesurau lliniaru ar gyfer y rhai mae Parth Aer Glân

Arfaethedig yn effeithio arnynt. Gallai hyn, enghraifft, gynnwys grantiau i uwchraddio trafnidiaeth gyhoeddus i gydymffurfio â safonau allyriadau, neu helpu gyda chostau teithio drwy gynllun credydau symudedd. Byddai'r costau cyffredinol i awdurdodau lleol yn dibynnu yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar faint daearyddol y Parth Aer Glân, y lleoliad, y cerbydau sy'n ddarostyngedig i'r Parth, unrhyw fesurau lliniaru a roddir ar waith ac ati.

7.151. Byddai rhai defnyddwyr ffyrdd yn wynebu costau uwch, os nad yw eu cerbydau'n cydymffurfio â'r safonau allyriadau a amlinellir yn y Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl y bydd defnyddwyr ffyrdd yn dewis osgoi'r Parth, o bosibl drwy ddefnyddio ffordd arall, er enghraifft, neu efallai byddant yn dewis uwchraddio eu cerbydau er mwyn cydymffurfio â'r safonau.

7.152. Byddai'r holl gostau hyn yn unigryw i gynllun penodol, ac nid oes modd mesur yn fanwl y costau hyn gan nad oes unrhyw gynlluniau penodol wedi cael eu cynnig ar hyn o bryd. Os bydd cynlluniau codi tâl lleol yn cael eu cyflwyno o ganlyniad i gychwyn pwerau i awdurdodau lleol drwy'r opsiwn hwn, bydd asesiad llawn o gostau a manteision yn cael eu cynnal drwy'r Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y cynllun.

7.153. Er nad yw nodi cost arferol yn realistig, ar gyfer Parth Aer Glân Birmingham, darparodd Llywodraeth y DU Gronfa Weithredu o £17.845 miliwn ar gyfer costau seilwaith, a Chronfa Aer Glân gwerth £50.861 miliwn i gyflwyno mesurau i liniaru effaith y Parth ar grwpiau economaidd-gymdeithasol penodol. Mae'r Parth Aer Glân yn cynnwys yr ardal o fewn (ond heb gynnwys) ffordd gylchol Middleway yr A4540, sydd tua milltir o ganol y ddinas. Yn yr Achos Busnes Llawn, rhagwelir y byddai'r incwm gweithredu ar gyfer 2022/23 yn £23.052 miliwn, a'r gwariant yn £4.230 miliwn (incwm net o £18.822 miliwn). Nododd yr Achos Busnes Llawn ar gyfer Parth Ael Glân Caerfaddon gost gyfalaf o £24.3 miliwn i weithredu'r cynllun, a'r angen am £14.2 miliwn arall o gyfalaf i gefnogi gwariant ar fesurau lliniaru. Nododd Achos Llawn Parth Aer Glân Bryste gostau cyfalaf o £44.3 miliwn i weithredu'r cynllun.

7.154. Ni fydd yr opsiwn hwn yn creu pwerau i ddynodi Parthau Aer Glân ar gefnffyrdd drwy'r Bil, a bydd hyn yn golygu y byddwn yn parhau i fod yn ddibynnol ar amrediad o fesurau sy'n fwy cyfyngedig ac o bosibl yn llai effeithiol, a all fod yn ddrutach ac yn arwain at darfu wrth eu rhoi ar waith. Er enghraifft, gallai cost darparu rhwystrau ansawdd aer ar hyd darn o gefnffordd fod yn uchel iawn, o ystyried yr uchder o naw metr a all fod ei angen ar gyfer rhwystrau o'r fath, a'r angen am sylfeini sylweddol. Nid oes gan rwystrau y potensial i wneud ond newidiadau bach i gysylltiad â llygryddion wrth ochr cefnffyrdd prysur, a byddai mesurau llai effeithiol o'r fath yn golygu cysylltiad parhaus â lefelau uwch o lygryddion.

7.155. Amcangyfrifir y byddai cyflenwi a gosod rhwystr sain yn costio tua £500 fesul metr llinellol, yn seiliedig ar gynllun lliniaru sain ar yr A40 yn 2019. Mae ymgynghorwyr wedi cynghori y gallai rhwystr ansawdd aer o'r un fath gostio rhwng 30–50% mwy, h.y. hyd at £750 fesul metr llinellol. Nid yw'r costau hyn yn cynnwys dylunio, archwiliadau tir, rheoli traffig ac ati, gan y bydd y rhain yn amrywio'n sylweddol o gynllun i gynllun.

7.156. Rhwng 2015 a 2016, cafodd rhwystrau ansawdd aer eu treialu ar bwys Cyffordd 18 o'r M62 ym Manceinion Fwyaf. Roedd hyn yn cynnwys gosod pâr o rwystrau 100 metr o hyd, gydag uchder o bedwar metr – cafodd yr uchder i gynyddu i chwe metr yn nes ymlaen. Ar y dechrau rhagwelir y byddai'r prosiect hwn yn costio £2.5 miliwn. Cafodd nifer fawr o orsafoedd monitro ansawdd aer eu gosod ar bwys y rhwystrau ac ar safleoedd rheoli. Roedd y canlyniadau'n gwrthdaro, ac nid oeddent yn cefnogi'r casgliad pendant bod naill ai rwystrau pedwar metr neu rwystrau chwe metr yn arwain at grynodiadau is o NO_2.

Manteision

7.157. Mae cychwyn pwerau i awdurdodau lleol gyflwyno cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd drwy is-ddeddfwriaeth yn darparu offeryn sy'n gallu rhoi dull ar gyfer rheoli lefelau traffig. Gellir lleihau allyriadau'n uniongyrchol drwy leihau faint rydym yn dibynnu ar geir, a thrwy weithgareddau i gefnogi teithio llesol yn lle gyrru. Mae gan gynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd gryn botensial i leihau'r costau o ganlyniad i'r cyhoedd yn dod i gysylltiad ag ansawdd aer gwael. Yn ôl astudiaeth a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr yn Lloegr amcangyfrifir mai'r cyfanswm y costau i'r GIG a gofal cymdeithasol o ganlyniad fydd £60.8 miliwm erbyn 2025, a £230 miliwn erbyn 2035.

7.158. Canfu Adolygiad Annibynnol o Godi Tâl ar Ddefnyddwyr Ffyrdd yng Nghymru y gallai codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd fod yn offeryn gwych i helpu Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ddarparu system drafnidiaeth fwy teg, effeithlon a chynaliadwy yn uniongyrchol ar gyfer pob defnyddwyr ffyrdd ac ar gyfer eraill ar draws y system drafnidiaeth ehangach. Hefyd, yn ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[5], gallai helpu'r Llywodraeth i gyflawni blaenoriaethau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol fel gwella ansawdd aer, cynaliadwyedd a helpu i 'greu lleoedd' a gwella iechyd.

7.159. Bydd cyhoeddi Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru yn helpu awdurdodau lleol i ddatblygu Parthau Aer Glân i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol ac effeithlon, i fynd i'r afael â phroblemau ansawdd aer lleol. Gall cynlluniau Parth Aer Glân ategu polisïau trafnidiaeth leol ac amgylcheddol a darparu offeryn effeithiol ar gyfer cyflawni safonau ac amcanion ansawdd aer o fewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. Bydd y ffrydiau incwm o daliadau'n rhoi rhagor o

gyfleoedd i awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn mesurau trafnidiaeth gynaliadwy.

Crynodeb

7.160. Mae'r opsiwn hwn yn cymryd camau buddiol tuag at wella ansawdd aer drwy cychwyn pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol i fynd i'r afael â phroblemau ansawdd aer. Bydd cyngor a roddir drwy gyhoeddi Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru hefyd yn helpu i sicrhau y gellir llunio cynlluniau Parthau Aer Glân lleol er mwyn eu gwneud mor effeithiol ag y bo modd, wrth sicrhau hefyd y rhoddir yr ystyriaeth ddyledus i unrhyw effeithiau annheg.

7.161. Ni fydd yr opsiwn hwn yn caniatáu cyflwyno Parthau Aer Glân ar gefnffyrdd, ac mae hyn y golygu y bydd pwerau i godi tâl ar ddefnyddwyr ar gefnffyrdd yn parhau i gael eu cyfyngu i bontydd a thwneli yn unig. Heb y gallu i godi tâl ar y cerbydau sy'n llygru fwyaf, byddai Parthau Aer Glân yn llai effeithiol fel ffordd o fynd i'r afael â llygredd o gerbydau ar gefnffyrdd. Byddai hefyd yn lleihau ein gallu i annog newid ymddygiad, fel uwchraddio i gerbydau glanach neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Opsiwn 3 – Creu pwerau i gyflwyno Parthau Aer Glân neilltuedig ar gefnffyrdd o dan Ran III o'r Ddeddf Trafnidiaeth drwy Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) 2023, datblygu Fframwaith Parthau Aer Glân a chychwyn pwerau i awdurdodau lleol godi tâl

Disgrifiad

7.162. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau yn ein Cynllun Aer Glân, ac i sicrhau bod y pwerau sydd eisoes ar gael yng Nghymru i gyflwyno cynlluniau ac iddynt ddarpariaethau effeithiol ar gyfer codi tâl ar ddefnyddwyr ar ffyrdd awdurdodau lleol a chefnffyrdd, byddai angen cymryd y camau canlynol:

- Cychwyn y darpariaethau perthnasol o dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000 i alluogi awdurdodau lleol (nail ai ar eu pennau eu hunain neu mewn partneriaeth ranbarthol ag awdurdodau cyfagos) i weithredu cynlluniau codi tâl yn llawn.
- Creu pŵer newydd i gyflwyno Parthau Aer Glân ar gefnffyrdd drwy'r Bil Aer Glân, gan ganiatáu ar gyfer math ychwanegol o gynllun codi tâl o dan adran III o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 – 'cynlluniau ar gyfer lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer ar bwys ffordd'.
- Sicrhau bod enillion net o gynlluniau codi tâl ar gefnffyrdd er mwyn gwella ansawdd aer yn gallu cael eu defnyddio at amrediad ehangach o ddibenion, nid polisïau a chynigion trafnidiaeth yn unig. Byddai hyn yn cael ei wneud drwy estyn hyblygrwydd gallu Gweinidogion i ddyrannu enillion i fodloni blaenoriaethau yn y ffordd orau ar unrhyw adeg benodol. Ynghyd â'r hyblygrwydd hwn byddai dyletswydd ar Weinidogion (lle mae cynllun codi tâl ar gefnffordd yn cael ei gyflwyno'n llwyr neu'n rhannol, at ddiben ansawdd aer) i amlinellu mesurau a fyddai'n cael eu hariannu drwy godi tâl, a sut bydd pob mesur yn mynd i'r afael ag ansawdd aer (gan gynnwys lle byddai mesurau'n cael effaith niwtral). Nid yw'r diwygiadau a gyflwynir gan y Bil yn cael effaith ar y trefniadau neilltuedig presennol ar gyfer cynlluniau codi tâl ar gyfer pontydd a thwneli.

Costau

7.163. Byddai costau creu'r ddeddfwriaeth a datblygu'r fersiwn derfynol o'r Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru yn weinyddol yn bennaf, a Llywodraeth Cymru fyddai'n gyfrifol am y costau hyn. Disgwylir i'r costau ar gyfer datblygu'r canllawiau fod tua £30,000, a disgwylir i'r costau hyn godi ym mlwyddyn ariannol 2024/24. Mae hyn yn seiliedig ar tua thri mis o amser SEO a thri mis o amser HEO.

7.164. Fel yr amlinellwyd ar gyfer opsiwn dau, dim ond wrth i bobl dderbyn bod achos dros gynlluniau o'r fath naill ai ar ffyrdd lleol neu ar y rhwydwaith cefnffyrdd y byddai costau ar gyfer cyflwyno cynlluniau codi tâl yn berthnasol. Felly, ni fyddai opsiwn tri yn arwain at unrhyw

gostau i gyrff eraill nac i'r cyhoedd. Fodd bynnag, bydd yn galluogi cyflwyno cynlluniau Codi Tâl ar Ddefnyddwyr Ffyrdd, a byddai cynlluniau o'r fath, pe baent yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol, yn arwain at gost i rai defnyddwyr ffyrdd mewn perthynas â chydymffurfio. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd gyrwyr cerbydau nad ydynt yn cydymffurfio (y rhai sy'n llygru fwyaf) yn gorfod uwchraddio i gerbyd sy'n cydymffurfio, neu barhau i ddefnyddio eu cerbyd presennol (nad yw'r cydymffurfio) a thalu'r tâl a godir gan y cynllun Parth Aer Glân. Gall y tâl amrywio o gynllun i gynllun, ond fel enghraifft, defnyddiwyd tâl dyddiol rhwng £3/£5/£8 ar gyfer ceir preifat nad ydynt yn cydymffurfio mewn arolwg a oedd yn casglu barn ar y tâl a fyddai'n cael ei ffafrio yn ystod haf 2021, yn ystod astudiaethau cwmpasu ar gyfer Parthau Aer Glân yr M4 yng Nghasnewydd a'r A470 ym Mhontypridd. Yn ogystal gosododd yr arolwg dâl o £9 ar gyfer cerbydau LGV a £50 ar gyfer cerbydau HGV.

7.165. Fel yr amlinellwyd yn opsiwn dau, byddai hefyd amrediad o gostau a fyddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru, neu awdurdodau lleol, eu talu wrth ddatblygu cynigion cynllun a darparu'r seilwaith sydd ei angen a swyddogaethau swyddfa. Byddai angen hefyd ystyried cyllideb i ariannu mesurau lliniaru i helpu'r rhain mae'r cynllun arfaethedig yn effeithio arnynt fwyaf.

7.166. O ystyried yr ansicrwydd ynghylch lle a phryd y gallai unrhyw gynllun codi tâl cael ei gyflwyno yn y dyfodol, nid oes modd rhoi'r amcangyfrif gorau o'r costau posibl ar yr adeg hon, felly ni wyddys beth fyddai'r gost. Bydd yr amrediad o gostau posibl sy'n codi o ganlyniad i gyflwyno cynlluniau codi tâl yn cael eu hystyried yn fanwl o fewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn y dyfodol, ar gyfer cynlluniau penodol os ydynt yn codi.

Tabl 10 – Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag Allyriadau Cerbydau: Cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd: Opsiwn tri – creu pwerau i gyflwyno Parthau Aer Glân neilltuedig ar gefnffyrdd o dan Ran III o'r Ddeddf Trafnidiaeth drwy Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) 2023, datblygu Fframwaith Parthau Aer Glân a chychwyn pwerau i awdurdodau lleol godi tâl

	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
Costau Llywodraeth Cymru	-	£30k	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm cost (pob cost yn drosiannol)	**-**	**£30k**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**

Manteision

7.167. Byddai'r newidiadau deddfwriaethol hyn yn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol bwerau clir i gyflwyno cynllun codi tâl, er mwyn gwella yn sylweddol ansawdd yr aer ar ffyrdd mai nhw yw'r awdurdod traffig perthnasol ar eu cyfer. Byddai'r darpariaethau arfaethedig ar gyfer cefnffyrdd, ynghyd â chychwyn darpariaethau ar gyfer codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd o dan Ran III o Ddeddf Trafnidiaeth 2000, yn cynyddu'r offerynnau sydd ar gael er mwyn rheoli lefelau traffig a lleihau allyriadau. Byddai incwm o gynlluniau cod tâl ar gefnffyrdd ar gael i gefnogi amrediad o flaenoriaethau heb fod yn gyfyngedig i fesurau trafnidiaeth, gyda ffocws ar asesu buddsoddiadau yn erbyn eu heffaith ar ansawdd aer.

7.168. Mae'r opsiwn hwn yn cyd-fynd â Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, sy'n amlinellu uchelgais ar gyfer system drafnidiaeth sy'n dda ar gyfer pobl a chymunedau, ac yn cyfrannu at Gymru fwy cyfartal ac iachach. Byddai hefyd yn system drafnidiaeth sy'n dda ar gyfer yr amgylchedd, ac yn cyfrannu at Gymru fwy cydnerth sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

7.169. Gall Parthau Aer Glân sy'n codi tâl fod yn ddull effeithiol o gefnogi newid ymddygiad, ac annog teithwyr i ddewis ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio. Gyda strwythur taliadau wedi'i ddiffinio'n ofalus, a dirwyon am beidio â chydymffurfio, anogir y gyrwyr sy'n gyrru'r cerbydau sy'n llygru fwyaf (nad ydynt yn cydymffurfio) i uwchraddio eu cerbyd, newid y ffordd maent yn teithio, canslo teithiau diangen neu ddefnyddio ffyrdd eraill i osgoi taliadau, a thrwy hynny liniaru effeithiau allyriadau o'r cerbydau sy'n llygru fwyaf ar yr ardaloedd lle mae'r lefelau uchaf o lygredd. Gall hyn wella ansawdd bywyd ar gyfer y rhai sy'n byw yn yr ardal dan sylw, neu'n ymweld â hi, a lleihau'r effeithiau ar gyflyrau iechyd sy'n codi o ganlyniad i ansawdd aer gwael, gan leihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd lleol. Byddai manteision iechyd eraill yn cael eu cyflawni drwy gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio opsiynau teithio llesol. Nododd yr Achos Busnes Llawn ar gyfer Parth Aer Glân Birmingham y byddai lefel y taliadau a godir yn 'gweithredu fel cymhelliad sylweddol i unigolion a busnesau uwchraddio eu cerbydau'. Nododd Achos Busnes Llawn Cyngor Dinas Bryste mai un o'r manteision fyddai rhagor o bobl yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Un o nodau Parth Aer Glân Caerfaddon oedd 'lleihau allyriadau cerbydau drwy ‘newid ymddygiad a newid fflydoedd’, achos i drafnidiaeth ffyrdd gael ei nodi fel ‘prif ffynhonnell ansawdd aer gwael yng Nghaerfaddon'.

7.170. Mae'r Adroddiad Chwe Misol ar y Parth Allyriadau Isel Iawn ehangach yn Llundain yn amcangyfrif bod 'crynodiadau niweidiol ar bwys ffyrdd yn Llundain Fewnol yn 20 y cant yn is nag y byddent wedi bod heb gyflwyno ac ehangu'r Parth Allyriadau Isel Iawn. Yn Llundain Ganol amcangyfrifir bod crynodiadau NO_2 yn 44 y cant yn is nag y byddent wedi bod.

7.171. Mae asesiadau o’r opsiynau posibl ar gyfer Parthau Aer Glân ar yr M4 yng Nghasnewydd a'r A470 ym Mhontypridd, er mwyn ategu’r broses o gydymffurfio â therfynau nitrogen deuocsid statudol, yn parhau. Yn y cyfamser, ni wnaed unrhyw ymrwymiad i gyflwyno Parth Aer Glân yn y naill leoliad na'r llall.

Crynodeb

7.172. Opsiwn tri yw'r opsiwn a ffefrir, ac mae'n darparu'r cyfle i sicrhau bod yr offerynnau mwyaf effeithiol ar gael i fynd i'r afael â phroblem llygredd o allyriadau cerbydau mewn mannau lle mae lefelau’r llygredd aer yn broblem sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer a lleoliadau lle mae'r trothwyon statudol ar gyfer llygredd yn cael eu torri. Bydd yr opsiwn hwn yn cefnogi cychwyn yn llawn bwerau i awdurdodau lleol godi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd, ac mae'n creu pŵer i gyflwyno Parthau Aer Glân ar gefnffyrdd lle mae tystiolaeth gref y byddent yn effeithiol wrth fynd i'r afael â phroblemau llygredd y gwyddys amdanynt. Fyddai enillion net ar gael i gefnogi blaenoriaethau nad ydynt wedi'u cyfyngu i bolisïau a chynigion trafnidiaeth, gan gynnwys mesurau rheoli ansawdd aer a allai fynd i'r afael a'r ffynonellau sy'n cyfrannu at ansawdd aer gwael yn yr ardaloedd gwaethaf, gan ddileu'r angen am y Parth Aer Glân gydag amser. Bydd y Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru yn cael ei gyhoeddi i arwain y gwaith o ddatblygu Parthau Aer Glân ar gefnffyrdd a ffyrdd lleol gan sicrhau, cyn belled ag y bo modd, lefel o gysondeb wrth eu cyflwyno, a'r dull gorau posibl o fynd i'r afael ag unrhyw annhegwch posibl.

Allyriadau o Gerbydau: Trosedd Segura Llonydd

7.173. Nod yr adran hon o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw cefnogi'r cynigion mewn perthynas ag atal pobl rhag gadael i'w hinjans segura (gwrthsegura) o fewn Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau).

7.174. Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried i gyflawni amcan Llywodraeth Cymru i wella'r dull presennol er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol:

- **Opsiwn un** – Gwneud dim;
- **Opsiwn dau** – Atgyfnerthu'r dull presennol drwy ganllawiau newydd;
- **Opsiwn tri** – Diwygio'r gyfundrefn cosbau bresennol yn ogystal â chyhoeddi canllawiau ategol ar gyfer awdurdodau lleol.

Opsiwn un – Gwneud dim, senario busnes fel arfer

Disgrifiad

7.175. O dan yr opsiwn hwn byddai'r status quo yn parhau. Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol sy'n berthnasol i Gymru yn cael ei ffurfio'n rhannol gan Reoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2003. Mae'r rhain yn amlinellu'r ddeddfwriaeth wrthsegura, er enghraifft y pwerau i orfodi mesurau gwrthsegura. O dan y rheoliadau hyn mae Hysbysiad Cosb Benodedig o £20 am adael i injan segura.

7.176. Mae opsiwn un yn cael ei roi fel llinell sylfaen i'w gymharu â manteision posibl atgyfnerthu'r fframwaith deddfwriaethol bresennol.

Costau

7.177. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol nac i Llywodraeth Cymru o dan yr opsiwn hwn. Fodd bynnag, rydym am leihau'r risg i'r rhai sy'n agored i niwed (fel plant, yr henoed a'r rhai sy'n agored i niwed yn feddygol) o allyriadau cymaint ag y bo modd, drwy atal pobl rhag gadael i'w hinjans segura mewn mannau lle mae'r lefelau o lygredd yn broblem.

7.178. Mewn perthynas â llygredd aer yn fwy cyffredinol, bydd costau uwch yn y tymor hir os bydd effeithiau niweidiol i iechyd o ganlyniad i ansawdd aer gwael, ac os nad yw problemau iechyd ac anghydraddoldebau o ganlyniad i ansawdd aer gwael yn derbyn sylw.

7.179. Gall injans yn segura fod yn broblem pan fydd llawer o geir yn gwneud hynny am gyfnodau hir. Gallai hyn gael ei waethygu gan gerbydau hŷn y mae eu systemau ôl-drin yn llai effeithiol (lle nad yw allyriadau egsôst injans diesel yn cael eu glanhau cystal ag mewn cerbydau modern cyn iddynt gael eu hallyrru drwy'r bibell egsôst i'r amgylchedd y tu allan). Gallai enghreifftiau gynnwys injans yn segura y tu allan i ysgolion (yn enwedig gan fod pryderon ynghylch iechyd plant yn thema gyffredinol mewn perthynas ag injans yn segur); injans yn segura yng nghanolfannau trafnidiaeth canol dinasoedd / trefi (gorsafoedd bysiau); injans tacsis yn segura (er enghraifft, y tu allan i orsafoedd trenau a lleoliadau gofal iechyd); injans ceir preifat yn segura y tu allan i ysgolion; neu injans ceir preifat yn segura y tu allan i ganolfannau siopa neu groesfannau rheilffordd. Byddai costau uwch methu gweithredu yn cynnwys costau gofal iechyd, costau cymdeithasol uwch a cost absenoldeb salwch a'r effaith ganlyniadol ar gynhyrchiant economaidd.

Manteision

7.180. Ni fyddai unrhyw wariant ychwanegol i awdurdodau lleol.

Crynodeb

7.181. Byddai opsiwn un yn cadw'r status quo, ac ni fyddai unrhyw wariant ychwanegol i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, byddem yn colli'r cyfle i leihau'r risg i'r rhai sy'n agored i niwed mewn mannau lle mae injans yn segura'n broblem. Mewn perthynas â llygredd aer yn fwy cyffredinol, mae'n debygol y byddai'r costau i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cynyddu yn y dyfodol, wrth inni ymdrin ag effeithiau ansawdd aer gwael.

Opsiwn dau – Atgyfnerthu ac ailbwysleisio y dull presennol drwy ganllawiau newydd

Disgrifiad

7.182. O dan yr opsiwn hwn byddai canllawiau newydd yn cael eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru i awdurdodau lleol mewn perthynas â gwrthsegura. Byddai'r canllawiau'n cael eu cyhoeddi o dan adran 88(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Byddai'r canllawiau, ymhlith pethau eraill, yn nodi manteision diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a thargedu mannau lle mae injans llawer o gerbydau'n segura am gyfnodau hir. Byddai hyn yn lleihau'r risg i'r rhai mwyaf agored i niwed – fel plant neu'r rhai mewn lleoliadau gofal iechyd neu gartrefi preswyl – cymaint ag y bo modd.

Costau

7.183. Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am gost creu a chyhoeddi canllawiau. Disgwylir i'r gwaith o ddrafftio'r canllawiau, cynnal ymgynghoriadau â rhanddeiliad a chyhoeddi ymatebion a'r dogfennau terfynol gymryd 12 mis, a 30% o amser un aelod o staff ar Radd HEO. Gydag argostau mae hyn yn £15,800.

7.184. Bydd cyfieithu'r canllawiau'n costio hyd at tua £630 (amcangyfrif yn seiliedig ar 7,000 gair ar gost o £90 fesul mil o eiriau).

7.185. Disgwylir y bydd rhai costau refeniw i awdurdodau lleol wrth iddynt ddiweddaru eu strategaethau gwrthsegura, yn unol â'r canllawiau a gyhoeddir. Mae'n bosibl y bydd awdurdodau lleol yn cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd i hyrwyddo'r arferion gorau yn y gymuned, yn unol â'r manylion yn y canllawiau. Mae'n anodd mesur y costau hyn, gan na wnaed penderfyniad ynghylch y mecanweithiau ar gyfer cynnal yr ymgyrch i codi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Fodd bynnag, mae modd darparu costau dangosol yn seiliedig ar benderfyniad Cyngor Lambeth i orfodi polisi gwrthsegura. Cost datblygu a chodi arwyddion gwybodaeth ledled Lambeth, yn enwedig o amgylch ysgolion yn y mannau o dan sylw, fu £15k, a chostiodd gweithgareddau cyfathrebu eraill i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r polisi gwrthsegura £3.5k.

7.186. O ran llygredd aer yn fwy cyffredinol, bydd costau iechyd a chymdeithasol eraill os nad yw camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â llygredd aer. Nid oes modd rhagweld i ba raddau y bydd pob awdurdod lleol unigol yn mabwysiadu strategaethau gwrthsegura. Mae hyn yn ei wneud yn anodd rhagweld y costau cyffredinol uniongyrchol sy'n gysylltiedig ag ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth, er bod modd darparu costau dangosol (fel uchod).

7.187. Mae'n annhebygol y bydd yr opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gost i fusnesau neu aelwydydd. Byddai pob cost sy'n cael ei nodi'n berthnasol ym mlwyddyn ariannol 2025/2025.

7.188. Gellid dadlau'r un mor gryf y byddai'r canllawiau ar ddatblygu a gweithredu mesurau gwrthsegura yn arwain at angen llai am orfodi. Er enghraifft, gallai'r canllawiau argymell ffyrdd y gallai awdurdodau lleol weithio gydag ysgolion i godi ymwybyddiaeth o fesurau gwrthsegura, addysg a newid ymddygiad. Yn yr un modd gallai lleoliadau gofal iechyd gyhoeddi pecynnau cymorth i hyrwyddo mesurau gwrthsegura. Mae adnoddau ar gyfer gwaith o'r fath eisoes yn bodoli, fel y Pecyn Cymorth ar gyfer Awdurdodau Lleol (idlingaction.london).

7.189. Amcangyfrifir mai'r gost i'r gymdeithas o ganlyniad i lygredd aer drwy gostau i wasanaethau iechyd a cholli diwrnodau gweithio yw tuag £1 biliwn bob blwyddyn. Byddai potensial i awdurdodau lleol rannu cost y camau cyhoeddusrwydd a gweithredu, gan gynnwys hyfforddi swyddogion i sicrhau bod ymarferion gorfodi'n gyson. Mae'n werth pwysleisio mai nodau terfynol y darpariaethau hyn yw aer glanach ac amgylchedd iachach, yn hytrach na chreu refeniw.

Manteision

7.190. Bydd canllawiau gwell a chliriach yn gwneud yr angen i awdurdodau lleol weithredu'n fwy eglur. Rydym yn rhagweld y bydd y canllawiau'n cynnwys nifer o elfennau: Cyngor i awdurdodau lleol ar godi ymwybyddiaeth a sicrhau newid ymddygiad; cyngor ar ddatblygu a gweithredu strategaethau gwrthsegura; cyfeiriadau at adnoddau presennol – fel pecynnau cymorth gwrthsegura; a chyngor ynghylch cynnwys strategaethau gwrthsegura pecyn ehangach o ymyriadau ategol. Bydd y canllawiau hefyd yn egluro'r rhyng-gysylltiadau rhwng ansawdd aer a sŵn, a sut y gall gwella ansawdd aer arwain at fanteision ar gyfer y seinwedd. Bydd hyn y gwella'r gyfundrefn. Gall y canllawiau hefyd gyfrannu at leihau costau i wasanaethau iechyd, os yw'r camau a gymerir yn lleihau'r risg i'r rhai agored i niwed ac yn cyfrannu at wella ansawdd aer yng Nghymru.

7.191. Byddai cyhoeddi canllawiau'n ategu polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau o drafnidiaeth. Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu y byddai mesurau gwrthsegura ar eu mwyaf effeithiol pe baent yn cynnwys pecyn o fesurau sy'n wahanol ond sy'n ategu ei gilydd, gyda'r diben o atal neu leihau llygredd. Yn y cyd-destun hwn gall fod potensial ar gyfer sicrhau gostyngiadau cronnus mewn allyriadau gydag amser, ar draws amrediad o wahanol fesurau, os rhoddir nhw ar waith ar yr un pryd. Yn y ffordd hon, byddai cyflwyno a gweithredu mesurau gwrthsegura yn cyfrannu at iechyd gwell ac yn cyfrannu at leihau costau iechyd a chymdeithasol. Ar gyfer plant, gall manteision mynd i'r afael â llygredd aer fynd y tu hwnt i ddiogelu eu hiechyd. Mae Modelu a gynhaliwyd gan y Cynllun Gweithredu Byd-

eang, Sefydliad Philips a Phrifysgol Manceinion yn awgrymu y gallai gwella llygredd aer ar dir ysgol a'r ardal gyfagos wella datblygiad cof gweithredol plentyn 6%, sy'n cyfateb i bedair wythnos o amser dysgu bob wythnos.

Crynodeb

7.192. Mae swyddogion wedi dod i'r casgliad bod manteision penodol i'r opsiwn hwn, er enghraifft ailbwysleisio ac atgyfnerthu'r gyfundrefn wrthsegura bresennol. Fodd bynnag, mae swyddogion yn credu na fyddai'r opsiwn hwn yn gweithio ar ei ben ei hun, a bod angen ei gyfuno ag ymyriadau eraill er mwyn gwella'r effaith ataliol.

Opsiwn 3 – Diwygio'r gyfundrefn bresennol ar gyfer cosbau yn ogystal â chyhoeddi canllawiau

Disgrifiad

7.193. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r polisi a'r fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu mesurau gwrthsegura yn cael eu hatgyfnerthu drwy'r canlynol:

- Gwneud darpariaeth yn y Bil i Weinidogion Cymru gyflwyno, drwy reoliadau, amrediad o gosbau ariannol am droseddau segura;
- Cyhoeddi canllawiau newydd o dan adran 88(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 mewn perthynas â gwrthsegura – felly byddai'r canllawiau y tu allan i'r Bil ond byddent yn ategu ac yn cefnogi'r ddarpariaeth mewn perthynas â chosbau.

7.194. Yn yr un modd ag opsiwn dau, byddai'r canllawiau, ymhlith pethau eraill, yn cyfeirio at fanteision canolbwyntio ar fannau lle mae injans llawer o geir yn segura am gyfnodau hir. Byddai hyn yn lleihau'r risg i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, fel plant neu'r rhai mewn lleoliadau gofal iechyd. Bydd cyflwyno amrediad o gosbau penodedig yn cynyddu'r effaith ataliol ac yn helpu i leihau allyriadau, gan gynnwys lefelau sŵn diangen. Wedyn byddai gan awdurdodau lleol bŵer i roi cosbau penodedig yn ôl disgresiwn am droseddau segura o fewn yr ystod hwn. Bydd y pŵer presennol i roi cosb benodedig am segura (o dan adran 87 o Atodlen i Ddeddf Amgylchedd 1995) yn cael ei gadw. Bydd y pŵer newydd i Weinidogion Cymru ragnodi, drwy reoliadau, amrediad o gosbau ariannol yn cael ei weithredu ochr yn ochr â'r pŵer presennol hwn.

7.195. Rydym yn rhagweld y bydd y canllawiau'n cynnwys nifer o elfennau. Mae hyn yn cynnwys cyngor:

- i awdurdodau lleol ar godi ymwybyddiaeth a sicrhau newid ymddygiad;
- cyngor ar y rhyng-gysylltiadau rhwng ansawdd aer a sŵn a'r ffordd y gall gwella ansawdd aer arwain at fanteision i'r seinwedd;
- cyngor ar ddatblygu a gweithredu strategaethau gwrthsegura;
- cyngor ar weithredu'r gyfundrefn cosbau newydd ochr yn ochr â chyfeiriadau at adnoddau presennol fel pecynnau cymorth gwrthsegura;
- cyngor ar gynnwys strategaethau gwrthsegura mewn pecynnau ehangach o ymyriadau ategol i wella ansawdd aer.

7.196. Bydd Llywodraeth Cymru am drafod y canllawiau ag awdurdodau lleol yn ystod 2024, cyn cyhoeddi'r canllawiau yn 2025. Yn y ffordd hon gallwn sicrhau bod y canllawiau'n diwallu anghenion awdurdodau lleol drwy eu helpu i ddatblygu strategaethau gwrthsegura a rhoi cyngor ar sut y gellir cynnwys y rhain mewn pecyn ehangach o fesurau ehangach wedi'u eu dylunio i leihau llygredd aer.

Costau

7.197. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys canllawiau i awdurdodau lleol, a gallai gynnwys pethau fel ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad i annog a hyrwyddo'r arferion gorau. Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am gost creu a chyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol, a Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am unrhyw ymgyrch arferion gorau a newid ymddygiad. Disgwylir i'r gwaith o ddrafftio'r canllawiau, cynnal ymgynghoriadau â rhanddeiliad a chyhoeddi ymatebion a'r dogfennau terfynol gymryd 12 mis, a 30% o amser un aelod o staff ar Radd HEO. Gydag argostau bydd hyn yn £15,800 yn ystod 2024/25.

7.198. Mae'n debygol y bydd cyfieithu'r canllawiau'n costio hyd at tua £630 (amcangyfrif yn seiliedig ar 7,000 gair ar gost o £90 fesul mil o eiriau).

7.199. Mae'n bosibl y bydd rhai costau refeniw i awdurdodau lleol i ddiweddaru eu strategaethau gwrthsegura yn unol â'r canllawiau a gyhoeddir. Gallai awdurdodau lleol rannu cost y camau cyhoeddusrwydd a gweithredu, gan gynnwys hyfforddi swyddogion i sicrhau bod yr ymarferion gorfodi yn gyson. Caiff awdurdodau lleol gynnal ymgyrchoedd i hyrwyddo'r arferion gorau yn y gymuned, yn seiliedig ar y manylion yn y canllawiau.

7.200. Nid oes modd mesur y costau'n fanwl ar yr adeg hon. Yn y pen draw pob awdurdod unigol a fydd yn gyfrifol am benderfynu'r camau mae'n eu cymryd a phryd.

7.201. I lywio'r asesiad hwn rydym wedi ystyried fframwaith gweithredu ar wrthsegura sydd wedi cael eu cynnal yn rhannau eraill y DU. At ddibenion y ddogfen hon, rydym yn rhoi amcangyfrifon o gostau posibl yn seiliedig ar ddull a ddefnyddiwyd gan Gyngor Lambeth lle gwnaethant orfodi mesurau gwrthsegura yn 2020. Mae costau dangosol o'r Cyngor yn awgrymu y gallai fframwaith ar gyfer cymryd camau gwrthsegura gostio tua £22k. Cost datblygu a chodi arwyddion gwybodaeth o amgylch Lambeth, yn enwedig ar bwys ysgolion ac mewn mannau lle mae segura'n broblem, fu £15k, a chost festiau ar gyfer 110 Swyddog Gorfodi ac arnynt logos gwrthsegura fu £3,740, gyda gweithgareddau cyfathrebu eraill i hyrwyddo gwrthsegura'n costio 3.5k. Er mwyn darparu costau dangosol, yn seiliedig ar Lambeth gallai amcangyfrifon o gost gorfodi'r gyfundrefn wrthsegura fod yn £110k (5k x £22k, pe bai pum awdurdod lleol yn penderfynu

gorfodi mesurau gwrthsegura. Pe bai deg awdurdod lleol yn mabwysiadu fframwaith gweithredu y gost fyddai £220k (10 x £22k). Er mwyn rhoi cyd-destun i'r costau dangosol hyn, mae'n annhebygol iawn y byddai pob awdurdod lleol yng Nghymru yn mabwysiadu'r fframwaith gweithredu a ddefnyddir gan Lambeth. Felly, ni ellir bod yn sicr ynghylch pa mor ddwys allai fframwaith gweithredu pob awdurdod lleol fod. Mae hefyd ansicrwydd mewn perthynas â nifer yr awdurdodau lleol fydd yn cymryd unrhyw gamau mewn unrhyw blwyddyn ariannol penodol. Mae'n bosibl y bydd rhai elfennau o gost fframwaith gweithredu yn ailadrodd dros nifer o flynyddoedd ariannol (e.e. cyfathrebu ac ymgysylltu), ond mae'n bosibl y bydd eraill yn costau un tro sy'n codi mewn un flwyddyn ariannol (e.e. arwyddion ac offer).

7.202. Gall fod hefyd gostau posibl sy'n gysylltiedig ag awdurdodau lleol yn defnyddio rhagor o hysbysiadau cosb benodedig, ond ystyried y ffactorau canlynol, nid oes modd mesur lefel unrhyw gostau mewn ffordd ystyrlon ar hyn o bryd:

- Bydd y canllawiau'n rhoi pwyslais ar addysgu a hysbysu, cyn defnyddio hysbysiadau cosb benodedig, a hynny fel opsiwn olaf.
- Bydd y sefyllfa yn parhau lle y caiff Swyddog Gorfodi awdurdod lleol, sy'n credu bod gyrwyr yn cyflawni trosedd segura ar y briffordd, ofyn i'r gyrwyr ddifodd ei injan, ac os nad yw'r unigolyn yn cydymffurfio, ar euogfarn ddiannod bydd yn agored i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol. Felly bydd y sefyllfa yn parhau lle ei bod yn debygol y bydd Swyddogion Gorfodi awdurdodau lleol yn gofyn i yrwyr ddiffodd eu injans.
- Yn y ffordd hon, effaith ymarferol y rheoliadau gwrthsegura fydd y caiff gyrwyr osgoi talu'r gosb o hyd os ydynt yn cydymffurfio â'r cais i ddifodd yr injan. Hefyd, bydd y sefyllfa yn parhau lle y caiff unigolyn sydd wedi derbyn hysbysiad cosb benodedig wneud cais i awdurdod priodol i'r gosb gael ei lleihau neu ei chanslo yn ddarostyngedig i fodloni amodau penodol.

7.203. O ganlyniad ni wyddys y costau hyn ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i archwilio'r costau ychwanegol posibl i awdurdodau lleol wrth inni ddatblygu a gweithredu'r rheoliadau. Mae'n bosibl y gallai'r Gronfa Cefnogi Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol gael ei defnyddio i roi cymorth ariannol i'r awdurdodau lleol hynny'n sy'n penderfynu gweithredu strategaethau gwrthsegura.

7.204. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn gyfrifol am y costau i hyrwyddo'r arferion gorau a ddiffinnir yn y canllawiau. Bydd cymorth ariannol ar gyfer awdurdodau lleol i dalu costau gweithredu (fel deunyddiau addysgu, deunyddiau hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth) ar gael drwy'r Gronfa Cefnogi Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol (hyd at £1 miliwn y flwyddyn – fel yr amlinellir uchod), a'r gyllideb codi ymwybyddiaeth (hyd at £500k y flwyddyn – fel yr amlinellir uchod). Mae'r Gronfa Cefnogi Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol a'r gyllideb codi ymwybyddiaeth eisoes wedi cael eu cynnwys, ac nid

ydynt wedi'u cael eu cynnwys yn y tabl isod (i osgoi dyblygu). Mae'r manylion ym mharagraff 7.100 a Thabl 7.

7.205. Prif ddiben a bwriad y canllawiau ar ddatblygu a gweithredu mesurau gwrthsegura yw sicrhau aer glanach a lleihau'r angen am orfodi. Er enghraifft, gallai'r canllawiau argymell ffyrdd y gallai awdurdodau lleol weithio gydag ysgolion i godi ymwybyddiaeth o fesurau gwrthsegura, addysg a newid ymddygiad. Yn yr un modd gallai lleoliadau gofal iechyd gyhoeddi pecynnau cymorth i hyrwyddo mesurau gwrthsegura. Mae adnoddau ar gyfer gwaith o'r fath eisoes yn bodoli fel y Pecyn Offer ar gyfer Awdurdodau Lleol (idlingaction.london). Os yw newid ymddygiad yn cael ei sicrhau drwy addysg nid oes angen mesurau gorfodi.

7.206. Byddai pob cost sy'n cael ei nodi'n codi ym mlwyddyn ariannol 2025/2025.

7.207. Nid ydym o'r farn y bydd effaith sylweddol ar y System Gyfiawnder mewn perthynas ag opsiwn tri, ac mae'r Asesiad o'r Effaith ar y System Gyfiawnder yn adlewyrchu hyn.

Tabl 11 – Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag Allyriadau Cerbydau: Trosedd Segura Llonydd: Opsiwn 3 – Diwygio'r gyfundrefn bresennol ar gyfer cosbau yng ogystal â chyhoeddi canllawiau

	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
Costau Staff Llywodraeth Cymru a chyfieithu	-	£16.4k	-	-	-	-	-	-	-	-
Bydd costau awdurdodau lleol yn dilyn y canllawiau	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Cyfanswm cost (pob cost yn drosiannol)	**-**	**£16.4k**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**

*Nid oes modd ei mesur. Bydd hyn yn dibynnu ar gyfranogiad pob awdurdod lleol, ond bydd lefel o gymorth ar gael gan y Gronfa Cefnogi Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol.

Manteision

7.208. Byddai'r darpariaethau hyn yn ategu polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau o drafnidiaeth. Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu y byddai mesurau gwrthsegura ar eu mwyaf effeithiol pe baent yn cynnwys pecyn o fesurau sy'n wahanol ond sy'n ategu ei gilydd, gyda'r diben o atal neu leihau llygredd. Yn y cyd-destun hwn, byddai'r canllawiau yn ddefnyddiol er mwyn pennu strategaethau gwrthsegura, ochr yn ochr ag amrediad o fesurau ategol y gallai awdurdodau lleol eu mabwysiadu i leihau allyriadau. Gall fod potensial ar gyfer sicrhau gostyngiadau cronnol, gydag amser, ar draws amrediad o fesurau gwahanol a roddir ar waith ochr yn ochr. Yn y ffordd hon, byddai cyflwyno a gweithredu mesurau gwrthsegura yn cyfrannu at iechyd gwell ac yn cyfrannu at leihau costau iechyd a chymdeithasol. Amcangyfrifir mai'r gost i'r gymdeithas o ganlyniad i lygredd aer drwy gostau i wasanaethau iechyd a cholli diwrnodau gweithio yw tuag £1 biliwn bob blwyddyn. Bydd unrhyw wariant ychwanegol a ysgwyddir gan awdurdodau lleol mewn perthynas â mesurau gwrthsegura yn helpu i leihau allyriadau, yn enwedig mewn mannau lle mae injans yn segura yn broblem sylweddol. Mae'n bosibl y gellid defnyddio'r refeniw a dderbynnir gan gosbau penodedig i dalu'r gwariant ychwanegol a ysgwyddir gan awdurdodau lleol, ac y gallai awdurdodau lleol rannu costau yn ystod y camau cyhoeddusrwydd a gweithredu, gan gynnwys hyfforddi swyddogion i sicrhau bod ymarferion gorfodi'n gyson. Mae'n werth pwysleisio, fodd bynnag, mai nod terfynol y darpariaethau hyn yw aer glanach ac amgylchedd iachach i bawb, yn hytrach na chreu refeniw.

7.209. Mae manteision cynhenid eraill i'r opsiwn hwn. Byddwn yn manteisio ar y cyfle i ddefnyddio'r canllawiau hyn i bwysleisio a dangos y cysylltiadau rhwng ansawdd aer â sŵn / seinweddau. Mae ffynonellau llygredd aer a sŵn fel arfer yr un peth neu mae cysylltiad agos rhyngddynt, mae eu llwybrau trosglwyddo'n debyg, ac fel arfer maent yn effeithio fwyaf ar yr un bobl (fel arfer y bobl sy'n agosaf at y ffynhonnell).

Crynodeb

7.210. Opsiwn tri yw'r opsiwn a ffefrir, gan fod Llywodraeth Cymru o'r farn mai cyfuniad o welliannau i'r gyfundrefn cosbau a chyhoeddi canllawiau newydd yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau newid. Mae angen clir i leihau'r risg o lygredd aer i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, fel plant a'r rhai mewn lleoliadau gofal iechyd a chartrefi gofal. Yn aml mae gan bobl sy'n agored i niwed cyflyrau iechyd sydd eisoes yn bodoli, a gall allyriadau wneud y rhain yn waeth. Fel y disgrifir uchod, y bwriad yw i'r canllawiau ar ddatblygu mesurau gwrthsegura ganolbwyntio'n rhannol ar addysg, codi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad, ac mae gan y rhain y potensial i leihau'r angen am orfodi gweithredol.

Adolygu a chyhoeddi Cynllun Sŵn a Seinwedd ar gyfer Cymru

7.211. Nod yr adran hon o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw ategu'r cynnig i ychwanegu at ddyletswyddau statudol Gweinidogion Cymru o dan Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 i lunio cynlluniau gweithredu ar sŵn, i'w gwneud yn ofynnol cynhyrchu Cynllun Sŵn a Seinwedd cynhwysfawr, cyffredinol. Byddai hyn yn alinio gofynion statudol â dull sefydlog Llywodraeth Cymru o gyflawni ei dyletswyddau presennol mewn perthynas â gweithredu ar sŵn ac â'r ddyletswydd o dan y Bil i adolygu a chyhoeddi Cynllun Aer Glân. Mae'r cynnig hwn yn estyniad o Opsiwn Dau uchod ar gyfer Cynllun Aer Glân.

7.212. Mae dau opsiwn yn cael eu hystyried:

- **Opsiwn un** – Peidio ag ychwanegu at y ddeddfwriaeth bresennol ar gynlluniau gweithredu ar sŵn.
- **Opsiwn dau** – Gwella'r ddeddfwriaeth ar gynlluniau gweithredu ar sŵn i adlewyrchu'r ddyletswydd a ragwelir o dan y Cynllun Aer Glân.

Opsiwn un – Peidio â newid y ddeddfwriaeth gyfredol ar gynlluniau gweithredu ar sŵn

Disgrifiad

7.213. Mae Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 yn trosi'r Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol (2002/49/EC) i gyfraith Cymru, ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynhyrchu mapiau sŵn a chynlluniau gweithredu ar ffyrdd mawr, rheilffyrdd mawr, a chrynodrefi mawr bob pum mlynedd. Yn 2013 a 2018 aeth Gweinidogion Cymru ymhellach a chyflawni'r rhwymedigaethau hyn drwy gynhyrchu Cynllun Gweithredu ar Sŵn (neu Sŵn a Seinwedd) cynhwysfawr iawn, sy'n cynnwys Cymru gyfan a phob prif fath o sŵn. Rydym wedyn wedi cyfeirio at y cynllun cyfunol hwn fel dogfen polisi sŵn ganolog Llywodraeth Cymru. Rydym yn disgwyl cynhyrchu Cynllun Sŵn a Seinwedd pum mlynedd yn 2023, fel y nodir yn y datganiad ysgrifenedig diweddar hwn.

7.214. Gwnaeth Llywodraeth Cymru ennill Gwobr John Connell ar gyfer Seinwedd 2018–2023 am ei Chynllun Gweithredu ynghylch Sŵn a Seinwedd, ynghyd â Pholisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10, gyda Chymru yn cael ei chydnabod fel y wlad gyntaf i gynnwys y cysyniad o seinwedd mewn polisi cenedlaethol. Cafodd y Cynllun hwn ei ddyfynnu yn ddiweddar gan Raglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig yn ei adroddiad Frontiers 2022, a oedd hefyd yn cefnogi rhagor o integreiddio rhwng polisïau sŵn ac ansawdd aer, i gynyddu cymaint ag y bo modd y synergedd rhwng dau faes polisi sydd wedi'u cysylltu'n agos. Gwnaeth adolygiad allanol, a gafodd ei gomisiynu gan

Lywodraeth Cymru yn 2019, argymell integreiddio agosach rhwng cynlluniau sŵn a chynlluniau ansawdd aer, i gynyddu cymaint ag y bo modd synergedd, a lleihau cymaint ag y bo modd wrthdaro rhwng camau gweithredu mewn perthynas â'r ddau fater hyn sydd â chydberthynas agos rhyngddynt.

7.215. O dan opsiwn un, byddai deddfwriaeth sŵn yn parhau i fod fel y mae, gyda dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynhyrchu cynlluniau gweithredu ar gyfer ffyrdd mawr, rheilffyrdd mawr a chrynodrefi mawr yn unig, bob pum mlynedd, gyda'r amserlen wedi'i chysylltu â chylch adrodd yr UE nad yw bellach yn berthnasol i'r DU. Gallai Llywodraeth yng Nghymru yn y dyfodol ddewis parhau i gyflawni'r ddyletswydd hon drwy gynhyrchu cynllun sengl ar gyfer Cymru gyfan, a phob prif ffynhonnell sŵn, ond ni fyddai'n orfodol iddynt wneud hynny. Ni fyddai unrhyw sail statudol o hyd i elfennau unrhyw gynllun cyffredinol sydd y tu allan i gwmpas Rheoliadau 2006. O ran cynnwys ac amseru byddai'r gofynion statudol ar gyfer cynlluniau gweithredu ar sŵn yn parhau i fod yn wahanol i'r rhai ar gyfer y Cynllun Aer Glân.

Costau

7.216. Ystyrir ei bod yn debygol y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at golli cyfleoedd i ddileu aneffeithlonrwydd a lleihau costau gweinyddu (o ganlyniad, er enghraifft, i gwmpasau ac amserlenni gwahanol ar gyfer ymarferion casglu gwybodaeth ac ymgynghori), sy'n codi o gylchoedd adolygu statudol, cwmpasau a gofynion ar gyfer cynnwys cynlluniau sŵn ac ansawdd aer sy'n wahanol heb reswm. Byddai pobl yn parhau i weithio'n annibynnol, sy'n rhwystr i brosesau cydgysylltiedig ar gyfer gwneud polisïau. Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd ar gyfer gweithredu mentrau sy'n arwain at lawer o fanteision amgylcheddol yn cael eu colli, neu fethu cael eu cefnogi.

7.217. Pe bai Llywodraeth yng Nghymru yn y dyfodol yn penderfynu gwneud y lleiaf sydd ei angen yn statudol o ran cynllunio gweithredu ar sŵn, yna byddai cynlluniau gweithredu sŵn Cymru yn mynd yn ôl i fod yn rhai cul eu cwmpas, o ran daearyddiaeth a'r mathau o sŵn sy'n cael eu hystyried. Gallai hyn arwain at bolisïau sy'n ddaearyddol annheg, a diffyg gweithredu ar rai ffyrdd o sŵn, gyda chanlyniadau (a chostau) negyddol i'r gymdeithas.

7.218. Pe bai etholiad Seneddol eithriadol yn golygu bod adolygiadau pum mlynedd dilynol o gynlluniau gweithredu ar sŵn yn rhy agos i etholiadau dilynol, gallai dyddiadau cau statudol gael eu colli, a byddai risg uchel o gynlluniau'n methu adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraethau yng Nghymru yn y dyfodol. Fel y mae pethau, ni fyddai gan Weinidogion bwerau sydd ar gael yn hawdd i ailosod y cylch adolygu pum mlynedd i adeg fwy priodol yn y cylch etholiadau newydd.

Manteision

7.219. Ni nodwyd unrhyw fanteision i beidio â gwella aliniad dyletswyddau Gweinidogion Cymru ar gyfer cynlluniau ar sŵn ac ansawdd aer. Gellid dadlau bod newid y gofynion presennol ar gyfer cynlluniau gweithredu ar sŵn arwain at wahaniaeth rhwng Cymru a Llywodraethau eraill y DU. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth eisoes wedi codi yn ymarferol drwy'r penderfyniadau a wnaed yng Nghymru yn 2013 a 2018 i gynhyrchu cynllun strategol sengl, cynhwysfawr ar gyfer sŵn a seinwedd, yn hytrach na'r cynlluniau gweithredu ac iddynt ddiffiniadau manwl sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Mae rhanddeiliaid yng Nghymru bellach wedi dod i arfer â'r ffaith bod gan Gymru Cynllun Sŵn a Seinwedd cyffredinol nad oes mo'i debyg yng ngweddill y DU.

Crynodeb

7.220. Byddai opsiwn un yn cadw'r status quo ar gyfer deddfwriaeth sŵn, heb unrhyw wariant ychwanegol ar gyfer unrhyw sector neu sefydliad. Fodd bynnag, byddai'n colli'r cyfle i geisio integreiddio ac alinio agosach rhwng dau faes polisi cysylltiedig, ac i ymgorffori yn y gyfraith arfer sefydlog Llywodraeth Cymru o gynhyrchu Cynllun Sŵn a Seinwedd sy'n berthnasol i Gymru gyfan ac i bob prif ffynhonnell sŵn, yn hytrach na dim ond y prif ffynonellau a lleoliadau a nodir yng nghyfraith y EU a ddargedwir.

Opsiwn dau – Newid y ddeddfwriaeth ar weithredu ar sŵn i adlewyrchu dyletswyddau'r Cynllun Aer Glân

Disgrifiad

7.221. O dan opsiwn dau, bydd dyletswydd Gweinidogion Cymru i gynhyrchu cynlluniau gweithredu penodol o dan Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 yn cael ei hategu gan ddyletswydd statudol newydd i lunio Cynllun Sŵn a Seinwedd sengl ar gyfer Cymru gyfan, sy'n cynnwys pob prif fath o sŵn a gludir yn yr aer a seinwedd yn fwy cyffredinol, yn unol â'r arfer gwirfoddol a sefydlwyd yn 2013 a 2018. Byddai dyddiadau cau statudol ar gyfer cyhoeddi ac unrhyw ofynion/disgwyliadau statudol ac anstatudol eraill nad ydynt wedi cysylltu â'r pynciau penodol, fel ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ac i ystyried y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol, yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a materion sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn ceisio adlewyrchu'r rhai a ragwelir ar gyfer y Cynllun Aer Glân. Wedyn caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt yn dymuno, lunio cynllun cyfunol sengl sy'n cynnwys ansawdd aer, sŵn a'r seinwedd. Byddai'r cynlluniau gweithredu ar sŵn sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2006 yn parhau i gael eu cyflawni fel rhan o'r Cynllun Strategol ehangach.

Costau

7.222. Mae'r opsiwn hwn yn rhoi gofyniad cyfreithiol ar Weinidogion Cymru i lunio Cynllun Sŵn a Seinwedd cynhwysfawr ar gyfer Cymru gyfan, ac mae'n dileu'r opsiwn i fynd yn ôl i'r arfer o lunio gweithredu ar sŵn ar gyfer ffyrdd mawr, rheilffyrdd mawr a chrynodrefi mawr yn unig. O ran costau/arbedion, nid oes gennym unrhyw awgrym y byddai Gweinidogion yn ystyried mynd yn ôl i'r dull a ddefnyddid cyn 2013. Hyd yn hyn nid oes unrhyw arbedion y gellir eu mesur wedi cael eu nodi drwy fynd yn ôl i gwmpas mwy cul, ac mae'n bosibl y byddai unrhyw arbedion damcaniaethol yn cael eu tanseilio gan gost peidio â bod â dull cyson mewn perthynas ag ansawdd aer. Rydym yn amcangyfrif y byddai costau staff a chostau gweinyddol llunio Cynllun Sŵn a Seinwedd cynhwysfawr (opsiwn dau), i bob bwrpas, yr un fath â'r rhai ar gyfer cynlluniau gweithredu ar gyfer ffyrdd mawr, rheilffyrdd mawr a chrynodrefi yn unig. Byddai'r adnoddau sydd eu hangen i ddatblygu a chyflawni unrhyw ymrwymiadau Gweinidogol mewn cynllun o'r fath, sydd y tu allan i gwmpas Rheoliadau 2006 presennol, yn dibynnu ar faint yr ymrwymiadau hynny, ond byddent yr un fath â'r ymrwymiadau hynny pe baent yn cael eu gwneud gan Weinidogion ar unrhyw adeg arall, y tu allan i gynllun o'r fath.

7.223. I grynhoi, ni ddisgwylir unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol o ganlyniad i fwrw ymlaen â'r opsiwn hwn.

7.224. Yn yr un modd â'r cynnig ar gyfer y Cynllun Aer Glân, gallai'r ddyletswydd gyffredinol i ystyried y Cynllun Sŵn a Seinwedd wrth gynnal swyddogaethau a all effeithio ar seinweddau arwain at gostau i gyrff cyhoeddus fel awdurdodau lleol. Fodd bynnag, dim ond os nad yw cyrff cyhoeddus yn ei ystyried ar hyn o bryd (yn wirfoddol neu o ganlyniad i adran 21 o Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006), nac yn bwriadu gwneud hyn yn y dyfodol heb ddyletswydd ychwanegol yn ei wneud yn ofynnol, y byddai hyn yn wir. Byddai unrhyw gostau yn y dyfodol yn dibynnu ar gynnwys y cynlluniau ar ôl iddynt gael eu diwygio, a fyddai'n cael eu datblygu drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus statudol sy'n cyd-fynd â phob adolygiad. Byddai angen egluro unrhyw faich newydd ar awdurdodau lleol yn fanwl yn yr ymgynghoriad, a chynnal asesiad o unrhyw faich ychwanegol. Ar yr adeg hon, ni wyddys am unrhyw gost ychwanegol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Tabl 12 – Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag adolygu a chyhoeddi Cynllun Sŵn a Seinwedd i Gymru: Opsiwn Dau – Newid y ddeddfwriaeth ar gynlluniau gweithredu ar sŵn i adlewyrchu dyletswydd y Cynllun Aer Glân

	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33
Costau Staff Llywodraeth Cymru	~0	-	-	-	~0	~0	-	-	-	~0

Sylwer: Yr un peth yw'r amcangyfrifon gorau o gostau staff ar gyfer y dyletswyddau presennol a'r dyletswyddau wedi'u diwygio gan gynigion y Bil.

Manteision

7.225. Mae ffynonellau llygredd aer a ffynonellau llygredd sŵn amgylcheddol (o drafnidiaeth, diwydiant a masnach) yn tueddu i fod yn union yr un peth neu mae cysylltiad agos rhyngddynt, mae eu llwybrau trosglwyddo'n debyg, ac mae'r bobl yr effeithir arnynt fwyaf yn aml yn perthyn i'r un categori o bobl hefyd, sef y rhai sy'n agosaf at y ffynhonnell.

7.226. Ar gyfer traffig ffyrdd sy'n teithio ar gyflymder sefydlog, bydd allyriadau llygredd aer a sŵn yn cynyddu neu'n gostwng yn gymesur â nifer y cerbydau. Yr un rhai yw'r cerbydau mwyaf swnllyd a budr yn aml, ac mae'r un peth yn wir am y rhai tawelaf a glanaf. Mae lefelau llygredd aer a sŵn ar eu huchaf ar y ffordd ei hun, ac yn gostwng gyda phellter. Gall adeiladau a thirwedd rwystro neu sianelu llygredd aer a sŵn. Gall traffig sy'n teithio ar gyflymder uchel iawn a thagfeydd traffig arwain at lefelau uchel o lygredd aer a sŵn. At hynny, mae rhai effeithiau andwyol wedi'u cysylltu â llygredd aer a sŵn, er enghraifft mwy o risg o gael clefyd cardiofasgwlaidd.

7.227. Am y rhesymau hyn, mae'n gwneud synnwyr i ystyried y ddau fath o lygredd traffig a gludir yn yr aer gyda'i gilydd. Byddai eu hystyried ar wahân, ar y gorau, yn arwain at ddyblygu ymdrech a cholli cyfleoedd ac, ar y gwaethaf, at roi polisïau croes ar waith.

7.228. Nododd y canllawiau polisi ar Reoli Ansawdd Aer yn Lleol mai diben rheoli ansawdd aer lleol yw gwella iechyd ac ansawdd bywyd pobl, ac y bydd y gwelliant hwn i iechyd ac ansawdd bywyd yn fwy os byddwn yn llwyddo i wella seinweddau ochr yn ochr â lleihau llygredd aer. Daeth adolygiad 2018 o Bolisi Cynllunio Cymru â pholisïau cynllunio cenedlaethol ar ansawdd aer, sŵn a seinwedd ynghyd o fewn un bennod am y tro cyntaf. Ym mis Ionawr 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad allanol a roddodd gyngor wedi'i ddiweddaru ar y synergedd a'r gwrthdaro rhwng rheoli sŵn ac ansawdd aer, a oedd yn cynnwys argymhellion i alinio ac integreiddio cynllunio gweithredu ar sŵn ac ansawdd aer. Yn 2022 ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch Nodyn Cyngor Technegol newydd ar gyfer awdurdodau cynllunio a datblygwyr, a oedd yn cynnwys ansawdd aer, sŵn a seinwedd, yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru.

7.229. Mae'r cylch adolygu a diweddaru statudol pum mlynedd ar gyfer mapiau sŵn a chynlluniau gweithredu wedi'i gysylltu â gofynion adrodd yr UE nad ydynt yn bellach yn berthnasol i Gymru yn dilyn gadael yr UE. Nawr fe'i hystyrir yn fwy priodol gallu alinio'r cylch (os oes angen yn y dyfodol) â chylch etholiadau'r Senedd, i ddileu'r risg y bydd cynlluniau pum mlynedd byth yn cael eu mabwysiadu wrth i dymor y lywodraeth sy'n eu gwneud nhw ddod i ben, neu cyn i'w Rhaglen Lywodraethu gael ei rhoi ar waith. Mae'r un achos yn cael ei wneud mewn perthynas â'r Cynllun Aer Glân pum mlynedd. Mae cynsail ar gyfer cysylltu'r hyn mae angen i bolisïau ei gyflawni â chylchoedd

etholiadol Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd 2016.

7.230. Mae'n annhebygol y byddai unrhyw wariant ychwanegol sylweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru nac i unrhyw sector / sefydliad arall o ganlyniad i fwrw ymlaen â'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, mae potensial i wneud arbedion sylweddol drwy integreiddio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisïau a chynlluniau ar sŵn ac ansawdd aer. Ar adegau, gellid haneru costau gweinyddol o leiaf, drwy gynnal galwadau am dystiolaeth, ymgynghoriadau, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid neu weithgareddau codi ymwybyddiaeth ar y cyd i wella ansawdd aer ac ansawdd seinweddau. Pan fydd ymyriad yn cael ei ddewis ar sail ei ganlyniadau cyfunol ar gyfer ansawdd aer a seinweddau, gall hyn fod yn rhatach o lawer na chyllido dau ymyriad ar wahân i fynd i'r afael â phroblemau ar wahân. Mae'n amhosibl mesur yr arbedion mewn termau absoliwt, achos po fwyaf fydd lefelau'r gweithredu i wella ansawdd aer, po fwyaf fydd y potensial ar gyfer arbedion pe bai hyn yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n mynd i'r afael â phroblemau sŵn a phroblemau seinwedd ar yr un pryd.

Crynodeb

7.231. O dan yr opsiwn hwn, byddai darpariaethau deddfwriaethol tebyg yn berthnasol i'r Cynllun Aer Glân a'r Cynllun Sŵn a Seinwedd pum mlynedd cyffredinol, gan roi opsiwn i Weinidogion gyfuno'r ddau. Disgwylid i hyn arwain at bolisïau a chamau gweithredu mwy cydlynus, effeithlon ac effeithiol ar y ddau fath o lygredd sy'n cael eu trosglwyddo yn yr aer. Byddai Gweinidogion yn gallu gwneud rheoliadau, pe bai angen, o dan y weithdrefn gadarnhaol, i addasu'r cylchoedd adolygu pum mlynedd ar gyfer y Cynllun Aer Glân, y Cynllun Sŵn a Seinwedd cyffredinol a'r mapiau sŵn strategol a'r cynlluniau gweithredu sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2006, er mwyn sicrhau eu bod yn alinio'n briodol â'i gilydd a'r etholiadau Seneddol perthnasol.

Teithio Llesol

7.232. Mae'r adran hon yn ystyried costau a manteision y cynigion sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd sydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer.

7.233. Cafodd darpariaethau'r Ddeddf ar deithio llesol eu mewnosod trwy ddiwygiadau gyda chefnogaeth drawsbleidiol yng ngham 3 proses graffu'r Bil. Felly, ar gyfer y darpariaethau hyn, dim ond amcangyfrif o'u costau sydd gennym.

Cyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol gymryd camau i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer.

Disgrifiad

7.234. Byddai'r opsiwn hwn yn cefnogi'r polisi o hyrwyddo teithio llesol trwy roi dyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion Cymru ac Awdurdodau Lleol i gymryd camau i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer. Byddai'n gwneud yn ofynnol hefyd i Weinidogion Cymru roi canllaw ar y mater i Awdurdodau Lleol fydd yn gorfod rhoi sylw i'r canllaw, ac i wneud datganiad ar y camau y bydd y Llywodraeth yn eu cymryd i hyrwyddo teithio llesol. Byddai deddfwriaeth hefyd yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi adroddiad, i nodi'r camau y byddan nhw wedi'u cymryd ym mhob cyfnod adrodd o dair blynedd. Hefyd, bydd gofyn i awdurdodau lleol baratoi adroddiadau cyfnodol i gyd-fynd â'r mapiau o'u rhwydeithiau teithio llesol, i nodi'r camau y byddan nhw wedi'u cymryd yn y cyfnod ers yr adroddiad diwethaf. Bydd y ddeddfwriaeth yn caniatáu hefyd i Weinidogion Cymru estyn y ddyletswydd i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer i awdurdodau cyhoeddus eraill, gan ddibynnu ar ymgynghori ac is-ddeddfwriaeth.

Costau

7.235. Byddai costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru o wneud ac adolygu canllawiau, ac ymgynghori arnyn nhw, ac o wneud adroddiadau. Byddai costau gweinyddol i awdurdodau lleol o wneud adroddiadau cyfnodol.

7.236. Ar gyfer Llywodraeth Cymru, byddai'r hyn y byddai angen ei wneud i baratoi'r datganiad a'r Canllawiau, gan gynnwys y gwaith ymgysylltu ac ymgynghori, yn cymryd 9 mis. Byddai'n debygol o gymryd amser un HEO, gan gostio hyd at £39,6000 a 25% o amser 1 SEO, yn costio hyd at £12,5000 ym mlwyddyn ariannol 2024-2025. Hefyd, byddai costau cyfieithu ac ymgysylltu. Disgwylir i'r rheini fod yn fach fodd bynnag oherwydd y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud i baratoi

pecyn cymorth ar gyfer hyrwyddo, fydd yn cynnwys datblygu adnoddau hyrwyddo helaeth.

7.237. Byddai'r gwaith o baratoi adroddiadau cyfnodol yn golygu costau gweinyddol ailadroddus i Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru; byddan nhw'n debygol o fod gyfwerth â 0.5 mis o amser staff ar lefel HEO, gan gostio bob blwyddyn hyd at £2,200 a swm tebyg i bob awdurdod lleol, gan gostio £48,4000 (22x£2,200).

7.238. Bydd Llywodraeth Cymru'n ysgwyddo costau ychwanegol o dro i dro wrth adolygu'r canllawiau. Gellir cadw'r costau hynny'n fach yn y dyfodol, os caiff y canllawiau a roddir o dan y ddarpariaeth hon eu hymgorffori yng Nghanllaw'r Ddeddf Teithio Llesol a fyddai hefyd yn cael ei adolygu o dro i dro. Amcangyfrifir y bydd hyn yn gofyn am 4 mis o amser staff HEO bob dwy flynedd, gan gostio £17,600 yn y blynyddoedd hynny.

7.239. Nid yw'n bosib ar hyn o bryd amcangyfri'n gywir costau ychwanegol gweithgareddau hyrwyddo y byddai naill ai Gweinidogion Cymru neu Awdurdodau Lleol yn eu cynnal o dan y ddyletswydd hon. Gellid gwneud y ddyletswydd hon trwy wneud y gorau o'r cyfleoedd i hyrwyddo teithio llesol o fewn cwmpas gweithgarwch sydd eisoes yn cael ei gynnal gan holl adrannau Llywodraeth Leol ac Awdurdodau Lleol.

7.240. Os caiff y ddyletswydd ei hestyn i awdurdodau datganoledig eraill, byddai hynny'n golygu costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru ac i'r awdurdodau hynny. Nid ydym wedi cynnwys y costau hynny yma.

Tabl 13 – crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo Teithio Llesol: Cyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac Awdurdodau Lleol gymryd camau i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd i leihau neu gyfyngu ar lygredd aer.

	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/2031	2031/32	2032/33
Costau staff LlC	N/A	52,100	2,200	19,800	2,200	19,800	2,200	19,800	2,200	19,800
Costau staff ALl	N/A		48,400	48,400	48,400	48,400	48,400	48,400	48,400	48,400
C'swm Costau	**N/A**	**52,100**	**50,600**	**68,200**	**50,600**	**68,200**	**50,600**	**68,200**	**50,600**	**68,200**

Manteision

7.241. Mae'n rhoi dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru ac Awdurdodau Lleol i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd i leihau neu gyfyngu ar lygredd aer. Mae hon yn ddyletswydd gyffredinol ar Weinidogion Cymru ac Awdurdodau Lleol ac yn unioni rhai o ddiffygion canfyddedig Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'r Ddeddf yn caniatáu posibilrwydd i estyn y ddyletswydd hon i awdurdodau datganoledig eraill.

7.242. Mae'n anodd mesur manteision yr opsiwn hwn, ond mae'n bosib y gallai'r costau uwch sy'n gysylltiedig â rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith gael eu hadfer gan y gostyngiad posib yn y costau iechyd a chymdeithasol a geir yn sgil ansawdd aer gwell a'r manteision iechyd ehangach sy'n gysylltiedig â theithio llesol.

Crynodeb

7.243. Mae'r trywydd hwn yn cyfuno deddfwriaeth a pholisi i roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru ac Awdurdodau Lleol i gymryd camau i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer. Cynhwyswyd y dyletswyddau newydd yn y Ddeddf er mwyn unioni'r diffygion canfyddedig yn Neddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 lle gellid teimlo bod y gofyn i hyrwyddo teithio llesol yn gyfyngedig.

7.244. Mae'n lliniaru'r risg hefyd y gallai'r ymrwymiad i'r polisi dros amser leihau ac mae'n sicrhau ymdrech gyson a di-dor i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau neu gyfyngu ar deithio llesol.

7.245. Llywodraeth Cymru (£52,100 yn y flwyddyn gyntaf gyda chostau cyfartalog o £11,000 y flwyddyn wedi hynny) ac Awdurdodau Lleol (£48,400 y flwyddyn) fydd yn ysgwyddo'r costau. Os caiff y ddyletswydd ei hestyn i awdurdodau datganoledig eraill, byddai costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru ac i'r awdurdodau hynny.

8. Asesiadau Effaith

8.1. Cafodd asesiadau effaith penodol eu cynnal pan oedd y Bil yn cael ei ddatblygu, a oedd yn ymdrin â'r Bil cyfan. Mae crynodeb o'r effeithiau isod, a bydd yr asesiadau effaith penodol yn cael eu cyhoeddi fel y bo hynny'n briodol. Yn ogystal â phrawf hidlo'r gystadleuaeth, cynhaliwyd asesiadau penodol i ddeall effeithiau'r Bil ar y meysydd canlynol:

- Hawliau Plant;
- Cydraddoldeb;
- Diogelu Data;
- Y Gymraeg;
- Bioamrywiaeth;
- Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol;
- Iechyd;
- Y System Gyfiawnder.

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

8.2. Mae'n ofynnol i Weinidogion roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau. Yn ogystal, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gwneud anghenion plant a'u lles yn y dyfodol yn ganolog i brosesau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu polisïau. Isod mae crynodeb o'r effeithiau ar blant a phobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r cynigion a nodwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

8.3. Mae plant a phobl ifanc a'u cynrychiolwyr wedi cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu cynigion y Bil. Yn ystod yr ymarfer ymgynghori ar gyfer y Cynllun Aer Glân: Awyr Iach, Cymru Iach yn 2020, a oedd yn llywio'r cynigion yn y Bil, cwrddodd swyddogion â Senedd Ieuenctid Wrecsam, ac maent yn parhau i weithio ar y cynigion gyda'r Comisiynydd Plant a'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant.

Effeithiau Cadarnhaol

8.4. Bydd y darpariaethau yn y Bil yn cynyddu'r hawl i iechyd cymaint ag y bo modd, drwy leihau llygredd aer a sŵn ynghyd â'r risgiau cysylltiedig i iechyd plant a'u cyflawniad addysgol. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod plant yn sensitif i lygredd aer. Mae hyn yn golygu y gall plant a phobl ifanc ddioddef effeithiau niweidiol gwaeth o ganlyniad i anadlu aer o ansawdd gwael, o'u cymharu ag oedolion, am fod eu llwybrau anadlu'n llai ac yn parhau i ddatblygu. Maent hefyd yn anadlu'n gyflymach nag oedolion, sy'n golygu eu bod yn anadlu rhagor o aer llygredig.

8.5. Mae'r holl dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod gwelliannau i ansawdd aer yn arwain at ganlyniadau iechyd gwell ar gyfer plant a phobl ifanc Bydd hyn, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi polisïau a rhaglenni, drwy leihau

gwariant ar ymyriadau iechyd sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer gwael a seinweddau gwael.

8.6. Gall problemau iechyd hirdymor hefyd atal plant rhag mynychu'r ysgol, a gall hynny gael effaith negyddol ar eu rhagolygon ar gyfer y dyfodol. Drwy wella ansawdd yr aer a seinweddau, bydd effeithiau canlyniadol cadarnhaol ar gyfer iechyd ac addysg plant.

Effeithiau Negyddol

8.7. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar Hawliau Plant, yn ystod yr ymgynghori â'r cyhoedd na'r trafodaethau â rhanddeiliaid, nac wrth baratoi'r asesiad hwn.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

8.8. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i roi sylw dyledus i'r angen i ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchodedig a'r rhai heb nodweddion gwarchodedig.

8.9. Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gynnal, sy'n nodi bod yr effeithiau ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig naill ai'n gadarnhaol neu'n niwtral.

8.10. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn berthnasol i bawb, gan gynnwys grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae effeithiau llygredd aer ar iechyd yn dibynnu ar faint o lygredd mae pobl yn dod i gysylltiad ag ef, ac am ba mor hir. Mae llygredd aer yn effeithio ar bobl mewn ffyrdd gwahanol, gyda'r risgiau a'r effeithiau'n newid hyd oes rhywun. Mae rhai o bobl, fel plant a phobl ifanc, pobl hŷn a'r rhai a chanddynt broblemau ar y galon neu'r ysgyfaint yn fwy tebygol o ddioddef effeithiau Felly, mae manteision clir i bobl sydd â rhai nodweddion gwarchodedig, fel y rhai sydd ag anableddau, menywod beichiog, pobl sy'n byw mewn ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd (a allai yn ei dro gael effaith anghymesur ar leiafrifoedd ethnig neu bobl ag anableddau).

8.11. Bydd aer a seinweddau o ansawdd gwell yn arwain at welliannau i ansawdd mannau gwyrdd mewn dinasoedd ac ardaloedd cyfagos a ddefnyddir at ddibenion hamdden. Bydd pobl sydd ag anableddau a phobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is nad oes ganddynt gerbyd, neu nad ydynt yn gallu cael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus pellter hir i fannau hardd yn gallu mwynhau mannau hamdden lleol lle mae ansawdd yr aer yn well.

8.12. Wrth ddatblygu'r cynigion, roedd effeithiau negyddol posibl yn cael eu hystyried. Er enghraifft, gellid ystyried bod ystod ariannol yr Hysbysiadau Cosb Benodedig am adael i injan cerbyd segura yn cael

effaith anghymesur ar grwpiau incwm isel. Y farn oedd y dylai camau gweithredu i fynd i'r afael â gadael i injans cerbydau segura ganolbwyntio ar ymgyrchoedd newid ymddygiad. Nid yw'r dull ar gyfer gorfodi wedi newid, yn gymaint ag y mai dyma'r opsiwn olaf, gyda throseddwyr posibl yn cael y cyfle i atal eu hinjans rhag segura cyn y rhoddir Hysbysiad Cosb Benodedig.

8.13. Mae'r Bil yn galluogi rhagor o gamau gweithredu i fynd i'r afael ag ansawdd aer gwael, felly mae'n bosibl y bydd rhagor y effeithiau'n codi wrth i'r Bil gael ei weithredu. Bydd asesiadau effaith pellach yn cael eu cynnal ar yr adegau priodol wrth i'r polisi gael ei ddatblygu, pan fydd rhagor o fanylion ynghylch unrhyw gamau sydd i'w gweithredu ar gael.

Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

8.14. Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn y Bil a fyddai'n arwain at yr angen i gasglu data. Felly, ni wnaethom nodi unrhyw effeithiau anuniongyrchol ar ddiogelu data. Nodwyd ei bod yn bosibl y bydd angen casglu data wrth i bolisïau a chynlluniau ddatblygu drwy roi'r Bil ar waith, er enghraifft, os yw Parth Aer Glân / Parth Allyriadau Isel yn cael ei gyflwyno. Gwnaethom gyflwyno ymholiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan Erthygl 36(4) o Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data mewn perthynas a'r cynigion ar gyfer Parthau Aer Glân / Parthau Allyriadau Isel. Cadarnhaodd nad yw am drafod y mater â Llywodraeth Cymru ymhellach ar yr adeg hon. Bydd unrhyw effeithiau'n cael eu hasesu yn ystod camau datblygu a gweithredu unrhyw gynllun o'r fath.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

8.15. Ni nododd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a gafodd ei gynnal unrhyw gysylltiad uniongyrchol, clir â Strategaeth y Gymraeg 2050, nac unrhyw effeithiau negyddol posibl ar y Gymraeg Nid oes modd mesur ymhellach effaith y Bil ar y Gymraeg, am y bydd yn cynnwys casgliad o ddarpariaethau y bydd angen camau pellach i'w rhoi ar waith, y gall unrhyw un ohonynt gael effaith ar y Gymraeg mewn nifer o ffyrdd. Bydd rhagor o asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg yn cael eu cynnal drwy gydol y broses o roi'r Bil ar waeth.

8.16. Bydd gwybodaeth sy'n cael ei chynhyrchu i gefnogi'r gwaith o weithredu'r ddyletswydd i codi ymwybyddiaeth, Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol a chynigion gwrthsegura er mwyn gwella ansawdd aer yn ddwyieithog, ac yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, er mwyn sicrhau cydraddoldeb o ran gwybodaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Bydd hyn yn sicrhau bod gan gymunedau Cymraeg eu hiaith fynediad at wybodaeth o ansawdd uchel am amodau ansawdd aer lleol, yn ogystal â ffynonellau llygredd aer, effeithiau a chamau lliniaru'n fwy cyffredinol.

Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth

8.17. Prif ffocws y Bil yw diogelu iechyd a llesiant, ochr yn ochr â diogelu'r amgylchedd a bioamrywiaeth. Ni ragwelir y bydd y Bil na'r gwaith o roi'r cynigion ynddo ar waith yn cael unrhyw effaith negyddol ar amrywiaeth. Mae llawer o'r cynigion yn dibynnu ar is-ddeddfwriaeth er mwyn eu rhoi ar waith. Rydym yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir, gan gynnwys ystyried sut i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau, lle bo gwneud hynny'n bosibl ac yn briodol.

8.18. Bydd effeithiau eraill yn derbyn sylw wrth inni roi'r cynigion yn y Bil ar waith.

8.19. Mae llygredd aer yn rhoi llawer o bwysau ar yr amgylchedd, sy'n effeithio ar amrediad o lefelau, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn fyd-eang. Gall llygryddion yn yr aer gael effaith ar fioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystem, niweidio iechyd pobl a chyfrannu at newid hinsawdd. Mae llygredd aer wedi peri newidiadau helaeth i ecosystemau sensitif yng Nghymru. Mae effaith sŵn ar seinweddau a natur hefyd yn cael ei hystyried o dan y Bil, a chafodd yr effeithiau cadarnhaol posibl eu hasesu.

Effeithiau Cadarnhaol

8.20. Dylai pwerau cryfach ar gyfer Gweinidogion Cymru mewn perthynas â phennu targedau ansawdd aer, a dyletswydd i wneud rheoliadau mewn perthynas â $PM_{2.5}$, pan fyddant wedi cael eu rhoi ar waith, gael effaith debyg.

8.21. Mae'r cynnig yn y Bil ar gyfer dyletswydd newydd i godi ymwybyddiaeth o ansawdd aer yn ddyletswydd gyffredinol y gellir ei chyflawni mewn nifer o ffyrdd. Byddwn yn gweithio gydag amrediad o bartneriaid a rhanddeiliaid i ddatblygu a chyflawni mentrau, a gallai hyn gynnwys, lle bo hynny'n briodol, gyfleoedd i gynyddu'r ddealltwriaeth o'r berthynas rhwng ansawdd aer a bioamrywiaeth.

Effeithiau Negyddol

8.22. Wrth i'r cynigion yn y Bil gael eu rhoi ar waith, mae'n bosibl y bydd gofynion anuniongyrchol mewn perthynas ag adeiladu neu reoli tir i sicrhau bod ansawdd aer yn cael ei wella, ond ni fydd y Bil yn gyfrifol am yr effeithiau hyn yn uniongyrchol. Bydd y camau hyn yn cael eu hysgogi gan yr adrannau perthnasol o fewn Llywodraeth Cymru, ac felly, byddwn yn ceisio llywio neu ddylanwadu ar newid polisïau a strategaethau. Bydd yr effeithiau posibl hyn a'r camau ar gyfer eu lliniaru'n cael eu hystyried fesul achos, wrth i'r meysydd polisi hynny ddatblygu eu hymatebion i wella ansawdd aer yn unol â'r cynigion yn y Bil.

Yr Asesiad o’r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

8.23. Yn ystod camau cynnar y gwaith o lunio polisïau ac yn ystod camau ymgynghori ffurfiol y Bil, cynhaliwyd trafodaethau gweithredol ag amrediad o grwpiau ac unigolion sy'n cynrychioli'r rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cynrychiolwyr Comisiynydd Plant Cymru;
- Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar y Bil Aer Glân;
- Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol;
- Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant;
- Cyngres yr Undebau Llafur Cymru;
- Awyr Iach Cymru;
- Y Sefydliad Acwsteg;
- Awdurdodau lleol;
- Academyddion ac aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn ansawdd aer a seinweddau.

8.24. Mae'r Bil yn ceisio cynyddu ein cyfranniad ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Bil wedi'i seilio'n gadarn ar y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym hefyd wedi ystyried dyletswydd economaidd-gymdeithasol Gweinidogion Cymru, dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddatblygu cynigion y Bil.

8.25. Mae'r Bil yn cynnwys pwerau a dyletswyddau ar gyfer pennu targedau ansawdd aer i ysgogi camau gweithredu ledled Cymru i leihau lefelau o lygredd aer yn genedlaethol. Fodd bynnag, nid oes modd rhagweld beth fydd yr effeithiau yn y pen draw o ganlyniad i gyflwyno dyletswydd i bennu targed ar gyfer $PM_{2.5}$, heb wybod natur y targed a fydd yn cael ei bennu, a'r amserlen ar gyfer cyrraedd y targed hwnnw. Gwnaeth y trafodaethau nodi nifer o effeithiau, cadarnhaol a negyddol, ar y rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Effeithiau Cadarnhaol

8.26. Llygredd aer yw'r risg amgylcheddol fwyaf i iechyd. Gall llygredd aer effeithio ar bawb, ac mae aer ym mhob ran o Gymru yn cynnwys rhyw lefel o lygryddion a wnaed gan bobl. Gall y rhyngweithio rhwng llygredd aer, iechyd gwael ac amddifadedd addasu cysylltiadau a chreu beichiau clefyd anghymesur o fewn a rhwng cymunedau (anghydraddoldebau). Mae pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig – lle mae ansawdd iechyd a'r seinwedd yn tueddu i fod ar eu gwaethaf – yn fwyaf tebygol o gael eu niweidio drwy ddod i gysylltiad â llygredd aer. Mae cynigion mewn perthynas â phennu targedau ansawdd aer cenedlaethol a chynigion i gyflwyno trefniadau Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol, atal pobl rhag gadael i'w hinjans segura'n ddiangen a chodi ymwybyddiaeth o effeithiau llygredd aer yn

y Bil, i gyd yn cyfrannu at leihau'r effeithiau ar iechyd pan fyddant wedi'u rhoi ar waith.

Effeithiau negyddol

8.27. Mae llawer o ymyriadau'n gofyn am gryn fuddsoddi ariannol gan unigolion, busnesau bach, y diwydiant a llywodraeth; maent hefyd yn cymryd amser i'w rhoi ar waith. Fodd bynnag, yn seiliedig ar ddadansoddiad o lwybrau posibl ar gyfer cyflawni cyfran dybiannol Cymru o dargedau'r DU i leihau allyriadau'n genedlaethol, mae'r manteision i iechyd y cyhoedd yn uwch o lawer nag unrhyw gostau gweithredu posibl.

Sgrinio Effeithiau Iechyd Lefel Uchel

8.28. Mae'r Bil yn gam allweddol wrth inni geisio gwella ansawdd aer a lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd pobl, bioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol a'n heconomi. Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd, llygredd aer a llygredd sŵn yn yr aer yw'r ddwy risg amgylcheddol fwyaf yng Ngorllewin Ewrop. O ganlyniad, mae'r cynigion yn y Bil yn ceisio hwyluso gwelliannau i'r amgylchedd aer ar lefel Cymru gyfan, ar lefel leol a rhanbarthol a thrwy gydol ein cymdeithas. Bydd hefyd yn cyfrannu at ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur.

8.29. Rydym wedi nodi'r grwpiau canlynol y bydd y cynigion yn y Bil yn effeithio arnynt:

- **Grwpiau oedran**
  - Plant a phobl ifanc
  - Pobl hŷn
- **Grwpiau iechyd**
  - Pobl sydd eisoes â chyflyrau anadlu neu gardiofasgwlaidd
  - Pobl niwroamrywiol a phobl sydd â nam ar y clyw
- **Grwpiau incwm**
  - Pobl ar incwm isel
- **Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall**
  - Pobl sydd ag anableddau/anawsterau corfforol neu ddysgu
  - Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig

8.30. Gall pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig fod yn fwy agored i lygredd aer na'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae hyn yn broblem gan fod dadansoddiadau o lygredd aer lleol, amddifadedd lluosog a data iechyd yng Nghymru yn dangos bod crynodiadau cyfartalog o lygredd aer ar eu huchaf yn yr ardaloedd 'mwyaf' difreintiedig lle mae lefelau salwch cronig yn tueddu i fod ar eu huchaf. Pobl sy'n byw yn yr ardaloedd 'lleiaf' difreintiedig sy'n agored i'r crynodiadau cyfartalog ail uchaf o lygredd aer yng Nghymru. Gall rhyngweithio rhwng llygredd aer, iechyd gwael ac amddifadedd

addasu cysylltiadau a chreu beichiau clefydau anghymesur o fewn a rhwng cymunedau (anghydraddoldebau) h.y. 'perygl triphlyg'.

8.31. Mae'r Bil yn cynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol a fydd yn symleiddio, atgyfnerthu ac ategu prosesau presennol i'w gwneud yn fwy effeithiol a hygyrch. O ganlyniad, mae angen ystyried y Bil mewn cyd-destun eang, ac nid ar ei ben ei hun.

- Mae'n rhan hanfodol o becyn o fesurau a amlinellir yn ein Cynllun Aer Glân i leihau llygredd aer a gwella ansawdd aer yng Nghymru;
